

**Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre**
Adroddiad Blynyddol 2025/26



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service



Advanced
Therapies
Wales

Therapiau
Datblygiedig
Cymru



Gwasanaeth Cancer Felindre
Velindre Cancer Service



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Partneriaeth
Cedwraethau
Shared Services
Partnership

Cynnwys

Cyflwyniad y Prif Weithredwr	4
Rhagair y Cadeirydd	5
Cwmpas Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre	6

RHAN 1: Adroddiad Perfformiad	8
Trosolwg o Berfformiad ar gyfer 2025-2026	9
Dadansoddiad Manwl o Gyflenwi Gwasanaethau a Pherfformiad 2025-2026	18
Cyd-destun, Cyfleoedd a Risgiau Gwasanaeth yn y Dyfodol	34
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	38
Strategaeth Gynaliadwyedd a Datganiad Datgelu sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd	44
Perfformiad Ariannol	52
Rheoliadau'r Gymraeg	53
Casgliadau ac Edrych Ymlaen	60

Atodiadau i Ran 1	
Atodiad 1: Trosolwg o Berfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 2025-2026	61
Atodiad 2: Datganiad Datgeliad Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd 2025-2026	65
Atodiad 3: Rhestr Termau	74

RHAN 2: Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	75
Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd	76
2A - Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	77
i. Adroddiad y Cyfarwyddwyr	78
ii. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	89
iii. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon	90
iv. Y Datganiad Llywodraethu	91

Atodiadau i Ran 2A**Atodiad 1:**

Gweithgaredd Bwrdd, Pwyllgorau, Grwpiau Ymgynghorol a Fforymau'r Ymddiriedolaeth 2025-2026 121

Atodiad 2:

Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2025-2026 128

Atodiad 3:

Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2025-2026 134

Atodiad 4:

Presenoldeb Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth mewn Cyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd yn Gyhoeddus 2025-2026 135

Atodiad 5:

Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru 136
Adroddiad Atebolrwydd Ariannol 139

2B – Adroddiad ar Dâl a Staff 144

2C - Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru 159

Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 154

RHAN 3: Cyfrifon Ariannol Archwiliedig Terfynol 165



Cyflwyniad y Prif Weithredwr



Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2025-2026 ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gan gofnodi blwyddyn a ddiffiniwyd gan gynnydd, gwydnwch ac uchelgais gynyddol. Gyda'n gilydd, rydym wedi parhau i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel; ymchwil ac arloesedd effeithiol; gwella canlyniadau clinigol i gleifion; a chryfhau ein cyfraniad at iechyd a lles pobl ledled Cymru.

Wrth ddarparu gwasanaethau i'n rhoddwyr, cleifion a phartneriaid, rydym wedi cynnal ffocws clir ar sicrhau gwerth am yr adnoddau cyhoeddus a ymddiriedwyd i ni; gan ysgogi cynhyrchiant ac effeithlonrwydd wrth barhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau, yr arloesedd a'r seilwaith a fydd yn llunio ein dyfodol. Yn bwysig, rydym wedi cyflawni hyn drwy aros yn driw i'r hyn sydd bwysicaf i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu: ansawdd, profiad a chanlyniadau'r cleifion, y rhoddwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.



Mae'r flwyddyn hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o fomentwm a chyfle o fewn yr Ymddiriedolaeth. Rydym wedi parhau i feithrin partneriaethau cryf ar draws GIG Cymru, y byd academiaidd a diwydiant, wedi ehangu ein gweithgaredd ymchwil, ac wedi datblygu ein rhaglenni cyfalaf a thrawsnewid mawr.

Ar draws yr Ymddiriedolaeth ac o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru, Gwasanaeth Cancer Felindre, ein Helusen a'r sefydliadau a gynhelir gennym (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Thechnoleg Iechyd Cymru), mae fy nghydweithwyr wedi dangos ymrwymiad, proffesiynoldeb ac arbenigedd eithriadol. Mae hyn wedi ein galluogi i gynnal a gwella ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwn yn barhaus yn wyneb galw cynyddol am wasanaethau a thriniaeth fwy cymhleth.

Mae'r flwyddyn hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o fomentwm a chyfle o fewn yr Ymddiriedolaeth. Rydym wedi parhau i feithrin partneriaethau cryf ar draws GIG Cymru, y byd academiaidd a diwydiant, wedi ehangu ein gweithgaredd ymchwil, ac wedi datblygu ein rhaglenni cyfalaf a thrawsnewid mawr. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau bod offer ac adeiladau o'r radd flaenaf ar gael i'r staff, cleifion a rhoddwyr gydag agor Uned Radiotherapi Felindre yn Ysbyty Nevill Hall; llofnodi'r contract i weithredu System Gyfrifiadurol newydd y Sefydliad Gwaed; a'r cynnydd a wnaed ar Ganolfan Ganser newydd Felindre yn dangos ein hymrwymiad i ragoriaeth.



Dim ond trwy ein perthnasoedd cryf a dibynadwy â'n system iechyd a phartneriaid ehangach y mae'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl. Maent yn darparu sylfaen gref ar gyfer y dyfodol ac yn atgyfnerthu ein uchelgais i arwain wrth wella canlyniadau, profiad a gwerth i'r poblogaethau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Wrth i mi fyfyrto ar y flwyddyn, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n staff, gwirfoddolwyr, partneriaid, cefnogwyr a rhoddwyr. Eich ymroddiad, eich tosturi a'ch pwrpas cyffredin yw'r grym y tu ôl i bopeth a gyflawnwn. Mae wedi bod yn fraint gwasanaethu fel Prif Weithredwr, ac rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth rydych chi wedi'i rhoi i mi.

Wrth edrych ymlaen, rwy'n hyderus yn ein gallu ar y cyd i gyflymu ein twf; parhau i wella ansawdd ein gwasanaethau; cyflymu arloesedd a chyflawni ein uchelgeisiau hirdymor. Byddwn yn parhau i gydweithio gydag eglurder, pwrpas a chyflymder i adeiladu sefydliad cryfach a mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Carl James

Prif Swyddog Gweithredol
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Rhagair Gan y Cadeirydd

Mae wedi bod yn anrhydedd fawr gwasanaethu fel Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth ers mis Medi 2025.

Y peth gorau oll fu gweld yr ymrwymiad, yr arbenigedd a'r tosturi sy'n sail i'n gwaith. Rwy'n ddiolchgar am y croeso cynnes a gefais ac am y cyfle, drwy'r Adroddiad Blynyddol hwn, i fyfyrio ar gyflawniadau, heriau a blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Felindre yn Ymddiriedolaeth GIG unigryw ac arbenigol iawn, sy'n darparu gwasanaethau o bwys cenedlaethol trwy Wasanaeth Canser Felindre, Gwasanaeth Gwaed Cymru a'n partneriaethau ehangach ledled Cymru a'r tu hwnt. A hithau'n un o nifer fach o sefydliadau arbenigol o'i fath yn y DU, mae'r Ymddiriedolaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth wella canlyniadau i gleifion, rhoddwyr a chymunedau Cymru. Mae ein cyfraniad yn estyn y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i gynnwys ymchwil, arloesi, datblygu'r gweithlu a chydweithio ar draws y system iechyd a gofal.

Bu'r flwyddyn hon yn un o gynnydd a her. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fuddsoddi yn ei gweithlu, ei gwasanaethau a'i seilwaith i wneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion y dyfodol a gwella canlyniadau. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi parhau i fod yn thema ganolog drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn amlwg mewn mentrau fel Partneriaid Iechyd Caerdydd a chyfraniad yr Ymddiriedolaeth at ymateb Cymru i argymhellion yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Dangosant bwysigrwydd cydweithio â system ehangach y GIG a'r tu hwnt, a'n hymrwymiad parhaus i wneud hynny.

Daeth y flwyddyn hefyd â datblygiadau pwysig mewn perthynas â llywodraethu ac arweinyddiaeth. Am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd, mae gan yr Ymddiriedolaeth gyflenwad llawn o Aelodau Annibynnol, gan ddarparu llwyfan cryf ar gyfer datblygu'r Bwrdd a gwelliant parhaus. Cefais fy nghalonogi gan y cryfder a'r sefydlogrwydd a ddarparwyd gan gydweithwyr ar draws y sefydliad, gan gynnwys ein harweinwyr gweithredol, clinigwyr, gwyddonwyr a staff, sydd wedi cynnal ffocws clir ar ansawdd, diogelwch a chyflenwi. Rydym wedi dangos ein gallu nid yn unig i addasu i newid ond i'w arwain.

Wrth i ni edrych ymlaen, bydd ein ffocws yn parhau ar gryfhau llywodraethu ac arweinyddiaeth, cyflawni ein prif raglenni seilwaith, sicrhau defnydd doeth ac effeithiol o adnoddau, a pharhau i ddysgu, addasu a gweithio mewn partneriaeth â chleifion, rhoddwyr, staff a'r GIG ehangach.

Rydym yn edrych ymlaen gyda hyder a phenderfyniad, wedi'n huno gan ein gwerthoedd a chan ymrwymiad cyffredin i ddarparu gofal eithriadol, gwella canlyniadau a gwneud gwahaniaeth parhaol i fywydau'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Sara Moseley

Cadeirydd

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre



Mae Felindre yn Ymddiriedolaeth GIG unigryw ac arbenigol iawn, sy'n darparu gwasanaethau o bwys cenedlaethol trwy Wasanaeth Canser Felindre, Gwasanaeth Gwaed Cymru a'n partneriaethau ehangach ledled Cymru a'r tu hwnt.



Cwmpas Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre

Amdanom ni

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym 1994, ac mae'n un o 12 sefydliad iechyd statudol yng Nghymru.

Prif bwrpas yr Ymddiriedolaeth yw darparu gwasanaethau gwaed a chanser arbenigol i bobl Cymru. Rydym hefyd yn darparu nifer o wasanaethau eraill ar ran y GIG yng Nghymru fel cynhaliwr.



Prif bwrpas yr
Ymddiriedolaeth yw darparu
gwasanaethau gwaed a
chanser arbenigol i bobl
Cymru. Rydym hefyd yn
darparu nifer o wasanaethau
eraill ar ran y GIG yng
Nghymru fel cynhaliwr.



Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu gwasanaethau canser arbenigol ar gyfer Cymru (yn y de-ddwyrain gan mwyaf) gan ddefnyddio model prif ganolfan a lloerennau ac yn darparu canolfan driniaeth arbenigol, addysgu, ymchwil a datblygu ar gyfer oncoleg nad yw'n llawfeddygol. Rydym yn trin cleifion â chemotherapi, Triniaethau Gwrth-ganser Systemig (SACTs), radiotherapi a thriniaethau cysylltiedig, ynghyd â gofalu am gleifion ag anghenion gofal arbenigol, aciwt a lliniarol.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn wasanaeth cenedlaethol sy'n chwarae rhan sylfaenol wrth ddarparu gofal iechyd. Mae'n gweithio i sicrhau bod gwaed y rhoddwr yn cael ei drawsnewid yn gyfansoddion gwaed diogel ac effeithiol, sy'n caniatáu i GIG Cymru wella ansawdd bywyd ac achub bywydau miloedd lawer o bobl yng Nghymru bob blwyddyn. Rydym yn darparu gwasanaeth sgrinio cyn-genï i sawl ysbyty ac yn cynnig gwasanaethau labordai arbenigol i'r holl ysbytai sy'n gwsmeriaid i ni er mwyn cynorthwyo gydag ymchwilio i broblemau serolegol cymhleth. Mae Labordy Trawsblannu ac Imiwnogenetig Cymru yn rhan o Wasanaeth Gwaed Cymru ac yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i ddarparwyr lleol Gwasanaethau Trawsblannu Arennol a Bôn-gelloedd. Mae hefyd yn cynnal Cofrestr Rhoddwyr Môr Esgyrn Cymru, sef panel cenedlaethol o roddwyr bôn-gelloedd gwaed posibl, nad ydynt yn perthyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu gwasanaethau drwy'r sefydliadau a'r rhaglenni y mae'n eu lletya – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), Technoleg Iechyd Cymru (HTW) a Therapiau Datblygedig Cymru.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Rhoddwyd y cyfrifoldeb statudol i'r Ymddiriedolaeth reoli a darparu Cydwasanaethau yn 2012, gan gefnogi 12 corff statudol GIG Cymru trwy ddarparu ystod gynhwysfawr o swyddogaethau cymorth, a ddosberthir yn wasanaethau technegol, gweinyddol a phroffesiynol. Mae'r tîm sy'n cyflawni'r rhain yn cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth, ac mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn dwyn ynghyd bartneriaeth y sefydliadau statudol sy'n comisiynu'r gwasanaethau hyn.

Technoleg Iechyd Cymru

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) yn 2017 gan Lywodraeth Cymru. Fel y corff cynnal, mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cyllid grant i ddarparu'r gwasanaethau HTW o dan y 'Rhaglen Effeithlonrwydd trwy Dechnoleg'. Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru i hwyluso mabwysiadu technolegau iechyd clinigol a chost-effeithiol yng Nghymru mewn modd amserol, gan weithio gyda GIG Cymru, ond yn annibynnol arno. Mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r holl dechnolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau.



**Ein nod yw gwella bywydau.
Ein gweledigaeth yw gwneud hyn trwy ofal rhagorol, dysgu ysbrydoledig a phobl iachach.**



Therapiau Datblygedig Cymru

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi tîm i gyflwyno Rhaglen Therapiau Datblygedig Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ynghyd â'r rhaglenni Genomeg, Patholeg a Delweddu, mae'n rhan annatod o bortffolio Meddygaeth Fanwl Cymru.

Pwrpas a Gweledigaeth

Ein nod yw gwella bywydau. Ein gweledigaeth yw gwneud hyn trwy ofal rhagorol, dysgu ysbrydoledig a phobl iachach.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu amcanion strategol sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i'r egwyddorion arweiniol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phwyslais ar yr hirdymor, trwy integreiddio, cydweithio a phartneriaeth yn ein gwaith hollbwysig.

Ein nod yw bod yn gyflogwr o ddewis, gan ddatblygu gweithlu medrus, cynaliadwy, iach ac ymgysylltiedig. Byddwn yn anelu at ragoriaeth ddigidol, gan greu gwasanaethau gwell trwy gysylltu cleifion, rhoddwyr a phartneriaid.

Byddwn yn mesur ein cynnydd trwy ein gofal, ein dysgu, ein tîm, a'n cyfraniad ehangach at ein cymunedau a'n gwlad, gan feincnodi â'n cymheiriaid.



Ein gwerthoedd

Mae gwerthoedd cyffredin ein Hymddiriedolaeth yn crynhoi'r hyn sy'n bwysig i ni. Fe'u datblygwyd drwy broses o ymgynghori eang â staff ac aelodau'r cyhoedd ac maent yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau.



Gofalgar

Rydym bob amser yn garedig, yn gefnogol, yn agos atoch ac yn dangos tosturi tuag at bawb



Parchus

Rydym yn ceisio deall safbwyntiau pobl eraill. Rydym yn agored ac yn dryloyw bob amser.



Atebol

Rydym yn cymryd cyfrifoldeb personol dros yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud bob amser.

Ein Strategaeth


Cymeradwywyd ein strategaeth, Cyrchfan 2033, gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn 2023.

Mae ein nodau strategol yn datgan, erbyn 2033, y byddwn yn cael ein cydnabod fel a ganlyn:

- 1 Rhagorol ar gyfer **ansawdd, diogelwch a phrofiad**.
- 2 Darparwr **gwasanaethau clinigol eithriadol** enwog yn rhyngwladol sydd bob amser yn bodloni disgwyliadau ac yn rhagori arnynt fel mater o drefn.
- 3 Sefydliad disglair ar gyfer **ymchwil, datblygu ac arloesi** yn y meysydd blaenoriaeth a ddatganwyd gennym.
- 4 **Ymddiriedolaeth Brifysgol** sefydledig sy'n darparu gwybodaeth a dysgu gwerthfawr iawn i bawb.
- 5 Sefydliad **cynaliadwy** sy'n chwarae ei ran wrth greu dyfodol gwell i bobl ledled y byd.

1

Perfformiad a Adrodd 2025-26



Trosolwg o Berfformiad ar Gyfer 2025-2026

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn disgrifio sut y gwnaethom ddarparu gwasanaethau rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd ein bod wedi parhau i ddarparu gofal rhagorol i gleifion a rhoddwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddangos ein hymrwymiad i ansawdd a rhagoriaeth.

Yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ceir trosolwg o'n sefydliad, sut rydym wedi cyflawni yn erbyn ein hamcanion ar gyfer 2025-2026 a'r heriau sy'n ein hwynebu yn y cyfnod sydd i ddod. Rydym yn falch bod ein cleifion, rhoddwyr a theuluoedd wedi parhau i elwa ar y safonau uchel o ofal, arloesedd a phroffesiynoldeb ar draws yr ystod o wasanaethau a ddarparwn.

Yn ystod 2025-2026, fe wnaethom gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau trawsblannu a chyflenwi gwaed a chynhyrchion gwaed i GIG Cymru i gyd yn llwyddiannus, gan ddarparu gwasanaethau cancer trydyddol yn bennaf i boblogaeth De-ddwyrain Cymru hefyd. Credwn y bydd y sylfeini cryf a'r modelau gweithredu clinigol gwydn yr ydym wedi'u sefydlu o fantais fawr i ni, ar ddechrau 2026-2027.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n cleifion, rhoddwyr, staff, comisiynwyr a phartneriaid yn y dyfodol i ddarparu'r gwasanaethau o ansawdd uchel a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Trosolwg o'n Gwasanaethau

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddwy brif is-adran glinigol ar gyfer Gwasanaeth Cancer Felindre (VCS) a Gwasanaeth Gwaed Cymru (WBS) yn ogystal â'n swyddogaethau corfforaethol. Mae Felindre hefyd yn gyfrifol am gynnal dau Wasanaeth Cymru Gyfan arall ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, sef Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru a Thechnoleg Iechyd Cymru. At ddibenion yr adroddiad hwn mae perfformiad yr unedau hyn sy'n cael eu lletya y tu allan i'r cwmpas.

Mae ein gwasanaethau'n cael eu comisiynu trwy Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru a Chydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru ar gyfer rhai arbenigeddau.

Gwasanaeth Cancer Felindre

Canolfan driniaeth, addysgu, ymchwil a datblygu ydym ni ar gyfer gwasanaethau oncoleg i gleifion o bob cwr o Dde-ddwyrain Cymru a thu hwnt.

Rydym yn gwasanaethu poblogaeth o 1.7 miliwn.

• Yn ystod 2025-26 rydym wedi:

- Cael triniaethau Radiotherapi i 4,837 o gleifion.
- Darparu Triniaeth Gwrth-ganser Systemig (SACT) i 5,923 o gleifion.
- Cynnal 96,090 o ymgynghoriadau Cleifion Allanol.



Rydym yn gwasanaethu
poblogaeth o
1.7m



Cael triniaethau
Radiotherapi i 4,837
o gleifion



Darparu Triniaeth
Gwrth-ganser Systemig
(SACT) i 5,923 o gleifion



Cynnal
96,090
o ymgynghoriadau
Cleifion Allanol

Gwasanaeth Gwaed Cymru

Rydym yn wasanaeth cenedlaethol sy'n gwasanaethu poblogaeth o 3.1 miliwn ledled Cymru, gan ddarparu cyflenwad diogel, cynaliadwy, o ansawdd uchel o waed, cydrannau gwaed, bôn-gelloedd, organau, meddyginiaethau a gwasanaethau diagnostig i gefnogi gofal cleifion.

Darperir ein gwasanaethau integredig ar draws pedwar maes craidd:

- **Gwasanaethau Profi Diagnostig** – sy'n darparu cynnig diagnostig a gwyddonol cynhwysfawr, gan gynnwys rheoli gwrthgyrff cyn geni, cefnogaeth trallwysu a thrawsblannu, yn ogystal ag imiwnogeneteg, er mwyn galluogi gofal diogel, effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gleifion.
- Yn 2025/26, fe wnaethom brosesu ~5380 o samplau, gan gynnwys:
 - 3,084 o samplau ysbyty
 - 1,337 o samplau croesgyfatebiaeth
 - 870 o samplau meintioli
 - 91 o samplau Gwaedlif Ffeto-Famol
- **Gwasanaethau Cyflenwi Cyfanwerthu** – gan sicrhau caffael a dosbarthu meddyginiaethau sy'n deillio o waed a chynhyrchion arbenigol eraill sy'n ofynnol i gefnogi GIG Cymru yn effeithlon.
- Yn 2025/26 fe wnaethom gyflenwi ~66,800 o unedau o gynhyrchion sy'n deillio o waed masnachol a chynhyrchion arbenigol i GIG Cymru.
- **Gwasanaethau Trallwysiad** – gan sicrhau darpariaeth, profi, prosesu a dosbarthu gwaed a chydannau gwaed i ysbytai ledled Cymru, cefnogi triniaeth cleifion a chynnal cyflenwad gwaed cenedlaethol gwydn. Mae hyn hefyd yn cynnwys recriwtio, cadw a chefnogi rhoddwyr ledled Cymru i sicrhau cyflenwad diogel a chynaliadwy o waed a chydannau gwaed.
- Yn 2025/26, casglom ~94,000 o roddion gwaed cyflawn a phlatennau.
- Cefnogodd hyn gyflenwad:
 - 69,200 uned o gelloedd coch
 - 8,925 uned o blatennau
 - 7,047 uned o blasma wedi'i rewi
- **Gwasanaethau Trawsblannu** – gan ddarparu cefnogaeth wyddonol a chlinigol arbenigol ar gyfer trawsblannu organau yng Nghymru, ochr yn ochr â rheoli Cofrestr Rhoddwyr Môr Esgyrn Cymru a hwyluso darpariaeth bôn-gelloedd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Mae gennym fwy na 77,900 o wirfoddolwyr ar ein cofrestrfa bôn-gelloedd.
- Yn 2025/26, fe wnaethom gefnogi 48 o drawsblaniadau bôn-gelloedd.
- Yn 2025/26, fe wnaethom gefnogi 125 o drawsblaniadau organau.

Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn ein galluogi i gefnogi cleifion ledled Cymru, cyfrannu at ddarpariaeth bôn-gelloedd byd-eang, a chynnal gwydnwch a diogelwch y system gwaed a thrawsblaniadau genedlaethol.



Yn 2025/26,
fe wnaethom brosesu
~5380
o samplau



Yn 2025/26 fe wnaethom
gyflenwi ~66,800 o unedau
o gynhyrchion sy'n deillio
o waed masnachol a
chynhyrchion arbenigol i
GIG Cymru.



Yn 2025/26, casglom
94,000
o roddion gwaed cyflawn
a phlatennau



Mae gennym fwy na
77,900
o wirfoddolwyr
ar ein cofrestrfa
bôn-gelloedd



Bydd ein cynllun yn sicrhau ein bod yn rhoi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn; gan weithio tuag at yr ansawdd, diogelwch a'r profiad gorau posibl; a dysgu a gwella parhaus.



Gwasanaethau Corfforaethol

Cefnogir darpariaeth graidd gwasanaethau cancer a gwaed yr Ymddiriedolaeth gan nifer o wasanaethau corfforaethol ar draws yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Gwasanaethau Digidol, Cynllunio a Rheoli Perfformiad, Llywodraethu Corfforaethol a Gwybodaeth, Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, Gwasanaethau Meddygol Corfforaethol, Ansawdd a Diogelwch, Ystadau a Chynaliadwyedd a Chyllid.

Cyflawni ein Hamcanion Strategol ar gyfer 2025-2026

Enw ein strategaeth sefydliadol yw Cyrchfan 2033. Mae Cyrchfan 2033 yn amlinellu ein Nodau a'n Hamcanion Strategol.

Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2026 i 2027-2028 yr Ymddiriedolaeth oedd y cyfrwng ar gyfer cyflawni ein hamcanion yn ystod 2025-2026 ac mae'n deillio o'r gwaith rhagorol a wnaed gan dimau o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth ac ymgysylltiad cryf â'n rhanddeiliaid niferus.

Rydym wedi gosod blaenoriaethau uchelgeisiol i ni ein hunain yn ystod 2025-2026, sy'n adeiladu ar ein cryfderau, ac a fydd yn golygu bod y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn cael gofal rhagorol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydym yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ein hamcanion yn chwarterol i'n Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac wedi derbyn adroddiadau archwilio mewnol ffafriol ar y broses hon.

Ein Nodau Strategol:

- 1 Rhagorol ar gyfer **ansawdd, diogelwch a phrofiad**
Darparwr **gwasanaethau clinigol eithriadol** enwog yn rhyngwladol sydd bob amser yn bodloni disgwyliadau ac yn rhagori arnynt fel mater o drefn
- 2 Sefydliad disglair ar gyfer **ymchwil, datblygu ac arloesi** yn y meysydd blaenoriaeth a ddatganwyd gennym
- 3 **Ymddiriedolaeth Brifysgol** sefydledig sy'n darparu gwybodaeth a hyfforddiant gwerthfawr iawn i bawb
- 4 Sefydliad **cynaliadwy** sy'n chwarae ei ran wrth greu

Bydd ein cynllun yn sicrhau ein bod yn rhoi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn; gan weithio tuag at yr ansawdd, diogelwch a'r profiad gorau posibl; a dysgu a gwella parhaus.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'n partneriaid mewn Byrddau Iechyd i sicrhau bod ein strategaethau allweddol yn cyd-fynd â'i gilydd, bod set glir o flaenoriaethau cyffredin ac i sicrhau y gallwn ddarparu digon o allu a medrusrwydd i gyflenwi gwasanaethau a gomisiynir o'r ansawdd uchaf.

¹ <https://velindre.nhs.wales/about-us/publications/strategic-documentation/trust-strategy-destination-2033/>

Yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2026 i 2027-2028, roedd 117 o gyflawniadau gyda 31 i'w cario ymlaen i 2026-2027.

Caiff cynnydd yn erbyn amcanion ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ei fonitro'n chwarterol a'i adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru drwy'r Fframwaith Atebolrwydd diwygiedig.

Bydd ein fframwaith llywodraethu ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026-2027 yn:

- cynnwys adrodd yn erbyn canlyniadau;
- adrodd yn erbyn ein cerrig milltir penodol er mwyn caniatáu olrhain cynnydd yn glir yn erbyn gweithgareddau tymor hwy.

Am ragor o wybodaeth gweler Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth 2026-2027 i 2028-2029².

Y Ddyletswydd Ansawdd

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023, yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Yn ystod 2025-2026, rydym wedi parhau i sbarduno gwelliannau ansawdd, sicrhau ansawdd a goruchwyllo, gan sicrhau ein bod yn dysgu pan nad yw pethau'n mynd yn dda, a chryfhau diwylliant y sefydliad o ran ansawdd.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddolen i Adroddiad Ansawdd Blynyddol yr Ymddiriedolaeth³.



¹ <https://velindre.nhs.wales/about-us/publications/strategic-documentation/>

² <https://velindre.nhs.wales/about-us/publications/strategic-documentation/>



Trosolwg o'n Perfformiad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o'n perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn disgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithgareddau perfformiad a rheoli. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026. Caiff metrigau perfformiad unigol eu mesur yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol, safonau arfer gorau a mesurau canlyniad a nodwyd yn lleol.

Mae cyfrifon VUNHST yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan fod disgwyl i wasanaethau barhau i gael eu darparu yn y dyfodol, fel y dangosir gan gynnwys darpariaethau ariannol ar gyfer y gwasanaethau hynny. Ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, nid oes unrhyw ddigwyddiadau nac ystyriaethau hysbys a allai fwrw amheuaeth ar yr asesiad hwn.



Gwellodd perfformiad 2025-2026 yn ystod y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r daith wella barhaus a'n huchelgais i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb lefel uchel o berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn 2025-2026 yn erbyn ystod o dargedau statudol, arfer gorau a thargedau ymestynnol lleol dros gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ein gwasanaethau canser a gwaed, gwasanaethau corfforaethol, yn ogystal ag ymgorffori mesurau boddhad cleifion a rhoddwyr, llesiant staff a chynaliadwyedd.

Mae gan bob dangosydd perfformiad allweddol ddisgrifiad byr, targed misol neu flynyddol a pherfformiad gwirioneddol ar gyfer 2025-2026. Gellir gweld set lawn o berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn targedau perfformiad allweddol yn **Atodiad 1**.



Crynodeb o Berfformiad Gwasanaeth Canser Velindre (Gcc) 2025-2026

Gwellodd perfformiad 2025-2026 yn ystod y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r daith wella barhaus a'n huchelgais i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Mae meysydd nad ydynt yn cyrraedd y lefelau penodedig wedi bod yn destun mentrau gwella a chraffu parhaus, ac yn parhau i fod yn destun mentrau o'r fath, i sicrhau bod buddion i gleifion yn cael eu cyflawni.

Mynediad at Wasanaethau Canser

• Radiotherapi

Mae GCF yn darparu gwasanaethau radiotherapi i gleifion o GCF yr Eglwys Newydd. Ym mis Mehefin 2026, agorodd GCF ail safle yn Ysbyty Nevill Hall i drin cleifion y fron, wroleg a gofal lliniarol nad ydynt yn gymhleth, yn rhan o fodel Felindre@ sy'n darparu gofal yn nes at y cartref.

Mae perfformiad radiotherapi wedi'i osod yn erbyn safonau ansawdd Cymru Gyfan sy'n cynnwys targedau gorfodol a thargedau ymestynnol. Ar gyfer 2025-2026 roedd perfformiad yn amrywio ar draws y safonau ansawdd. Mae'r heriau'n cynnwys cleifion yn dewis aros am driniaeth, breuder y system linacs oherwydd eu hoedran; gan arwain at fethiant offer, a dewis cleifion, sydd ill dau'n effeithio ar amseroldeb triniaeth a adroddir.

Ar hyn o bryd mae'r peiriannau linac ar draws GCF yn fflyd gymysg o wyth peiriant, sy'n cyfyngu ar y gallu i reoli triniaeth cleifion yn hyblyg ar draws peiriannau. Pan fydd Canolfan Ganسر newydd Felindre (CGFn) yn agor yn 2027, rhagwelir y bydd deg peiriant linac newydd yn gweithredu ar draws y rhanbarth gydag un ffurfweddiad fflyd a fydd yn galluogi cleifion i gael eu trin ar unrhyw beiriant, gan leihau unrhyw oedi posibl o ran amser i driniaeth.

• Therapi Gwrth-ganser Systemig (SACT)

Mae perfformiad SACT yn parhau i fod yn heriol oherwydd cynnydd mewn gweithgaredd oherwydd llinellau triniaeth newydd, therapiau newydd sbon a chleifion yn byw'n hirach.

Ar hyn o bryd, mae perfformiad SACT yn cael ei fonitro yn erbyn set o safonau ansawdd Cymru Gyfan. Yn 2025-2026 cafwyd eglurhad ar lefel Cymru gyfan ar y diffiniadau adrodd ac yna cafwyd adolygiad manwl o'r matrices perfformiad yn GCF, a arweiniodd at newidiadau i'r ffordd y mesurwyd perfformiad SACT yn erbyn y safonau ansawdd. Oherwydd y newidiadau sy'n digwydd yng nghanol y flwyddyn, mae data perfformiad yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2026.

• Un Llwybr Canser (SCP): Mae o leiaf 75% o gleifion yn dechrau eu triniaeth bendant gyntaf gyda 62 diwrnod o amheuaeth.

Tua diwedd 2025-2026, mae gwaith wedi digwydd i weithredu mesurau i adrodd ar Un Llwybr Canser (SCP) 62 diwrnod. Nid yw GCF yn atebol am adrodd ar berfformiad Llwybr Lle'r Amheuir Canser ar gyfer cleifion a atgyfeiriwyd gan Fyrdau Iechyd; fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn trin cleifion cyn gynted â phosibl er mwyn cefnogi byrdau iechyd i gyflawni yn erbyn y safon o 75% ar gyfer Llwybr Lle'r Amheuir Canser.

Fel canolfan cancer trydyddol, sy'n darparu SACT a radiotherapi, ymhlith triniaeth arbenigol arall i gleifion ledled de-ddwyrain Cymru, mae gennym rôl allweddol wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn brydlon ac wrth wneud hynny, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Byrdau Iechyd i wella perfformiad i gleifion ar draws llwybrau. Cytunwyd ar set o safonau/rheolau mewnol a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd a chefnogi gwelliant perfformiad.

Gwasanaethau Diogel a Dibynadwy

• Heintiau a Gafwyd yn yr Ysbyty

Rydym wedi parhau i gynnal cyfraddau isel o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty yn ystod 2025–2026, wedi'u cefnogi gan drefniadau atal a rheoli heintiau cadarn. Mae ffocws cryf yn parhau ar atal heintiau y gellir eu hosgoi, gan gynnwys Staffylococws Awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin (M RSA), gyda gweithgarwch gwyliadwriaeth, sicrwydd a gwella parhaus yn parhau i 2026–2027.

• Briwiau Pwysu

Mae ein poblogaeth o gleifion mewnol yn arbennig o agored i niwed gan niwed pwysu, ac mae atal yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth. Er bod cynnydd mewn niwed pwysu Gradd 1 a 2 y gellir ei osgoi wedi'i nodi yn ystod 2025–2026, ni ddigwyddodd unrhyw niwed pwysu Gradd 3 na 4, ac mae camau gwella wedi'u targedu ar waith i leihau niwed y gellir ei atal.



96.3%

Roedd 96.3% o gleifion GCF yn gyson yn graddio eu profiad fel un da iawn neu dda.

• Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (Sepsis)

Defnyddir NEWS2 i gefnogi adnabod cleifion sy'n dirywio a'r rhai sydd mewn perygl o sepsis, gan sbarduno adolygiad clinigol amserol a chyflwyno'r bwndel Sepsis Chwch o fewn amserlenni diffiniedig. Caiff cydymffurfedd ei fonitro drwy archwiliad sepsis rheolaidd, a lle nad yw'r safonau'n cael eu cyrraedd, cynhelir adolygiadau i gasglu gwersi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau system neu broses.

• Profiad y Claf

- 'Eich profiad chi yn Felindre'

Roedd 96.3% o gleifion GCF yn gyson yn graddio eu profiad fel un da iawn neu dda. Bydd gwaith i gryfhau sut mae adborth ar brofiadau cleifion yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio yn parhau i 2026–2027, gan sicrhau bod lleisiau cleifion yn parhau i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau.

Crynodeb o Berfformiad Gwasanaeth Gwaed Cymru 2025-2026

Roedd perfformiad yn ystod 2025-2026 yn adlewyrchu ein huchelgais barhaus i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Ategwyd hyn gan ymroddiad ein staff ac effeithiolrwydd ein prosesau cynllunio a gweithredol, a'n galluogodd i fodloni gofynion gwasanaeth yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

• Bodloni'r Galw Clinigol am Gelloedd Coch y Gwaed a Phlatennau

Drwy gydol 2025-2026, llwyddodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i fodloni'r holl alw clinigol am Gelloedd Gwaed Coch a Phlatennau ar gyfer ein hysbytai cwsmeriaid ledled GIG Cymru. Mae hyn yn deillio o gyfathrebu dyddiol rhwng Gwasanaethau Rhoi Gwaed a Gwasanaethau Trallwysio Gwaed sy'n galluogi ymatebion hyblyg i amrywiadau mewn lefelau stoc ac anghenion gwasanaeth a gweithio'n agos gyda'n hysbytai sy'n gwsmeriaid.

• Tyfu ein Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn

Ar hyn o bryd, mae ein cofrestr yn cynnwys mwy na 77,900 o roddwyr gwirfoddol. Rhagorwyd ar y targed recriwtio o 6,000 y flwyddyn yn 2025-2026 wrth i 6428 o roddwyr gael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gychwyn ymgyrch swabio bochau fwy rhagweithiol mewn sefydliadau addysgol a digwyddiadau eraill.

• Bodloni Ceisiadau Gwasanaethau Trawsblannu

Yn 2025-2026, rhagorodd Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru (WBMDR) ar ei tharged blynyddol ar gyfer casgliadau bôn-gelloedd, gan gyflawni 50 o gasgliadau yn erbyn cynllun o 40 – sef 25% uwchlaw'r targed. Mae'r perfformiad cryf hwn yn adlewyrchu twf ac ymgysylltiad parhaus y panel rhoddwyr, wedi'i gefnogi gan weithgarwch wedi'i dargedu i ehangu a chynnal sylfaen rhoddwyr ymroddedig. O ganlyniad, mae'r Gofrestrfa mewn sefyllfa dda i gynnal a gwella perfformiad casglu yn y blynyddoedd i ddod.

6,428

Rhagorwyd ar y targed recriwtio o 6,000 y flwyddyn yn 2025-2026 wrth i 6428 o roddwyr gael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn.

• Casglu a Chynhyrchu Gwaed a Chynhyrchion Gwaed

- Lleihau Gwastraff / Cynhyrchion sydd wedi Dod i Ben
Mae alinio cyflenwad cydrannau gwaed â galw ysbytai yn gymhleth yn ei hanfod oherwydd oes sillff gyfyngedig cynhyrchion. Yn ystod 2025–2026, cynhaliwyd terfyniad celloedd coch yn gyson islaw'r targed o 1%, gan ddangos rheolaeth gref dros reoli stoc a rhagweld galw. Roedd perfformiad terfynu amser platennau yn fwy amrywiol yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu amrywiadau yn y galw clinigol a'r angen i flaenoriaethu gwydnwch cyflenwad. Gweithredwyd monitro a mireinio gwell i gynllunio platennau yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r amrywioldeb hwn a chefnogi gwelliant parhaus.

• Cryfhau amrywiaeth rhoddwyr ledled Cymru

Parhaodd gwella amrywiaeth rhoddwyr i fod yn llwyddiant allweddol yn ystod 2025–2026. Gwnaeth y Gwasanaeth Gwaed Cymru gynnydd parhaus o ran cynyddu cynrychiolaeth o gymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd ar draws rhoi gwaed cyflawn a gwirfoddoli bôn-gelloedd, gyda chefnogaeth allgymorth wedi'i dargedu a gweithgaredd ymgysylltu cymunedol. Bu gwelliannau perfformiad ar eu hamlycaf ymhlith rhoddwyr a gwirfoddolwyr sydd newydd eu recriwtio, gan gryfhau amrywiaeth y sylfaen rhoddwyr dros amser. Mae'r cynnydd hwn yn hanfodol i wella paru clinigol, cefnogi mynediad teg at driniaeth, a gwella gwydnwch hirdymor gwasanaethau gwaed a thrawsblannu i gleifion ar draws GIG Cymru.

• Profiad Rhoddwyr Gwaed

Er gwaethaf pwysau gweithredol parhaus a chymhlethdod cynyddol y gwasanaeth, arhosodd profiad rhoddwyr yn gyson gryf yn ystod 2025–2026 ac arhosodd uwchlaw safonau cenedlaethol. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos darpariaeth barhaus o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu proffesiynoldeb, tosturi ac ymrwymiad staff ar draws y sefydliad.

Yn ystod 2025-2026, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi parhau i weithio'n galed i wella systemau a phrosesau sy'n ymwneud â rheoli pryderon, er mwyn sicrhau bod adborth rhoddwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei reoli'n gyson mewn modd amserol ac effeithiol; gan sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod gwelliannau gwasanaeth a nodwyd yn cael eu cyflwyno. Mae hyn wedi arwain at adborth rhagorol gan roddwyr sydd wedi cyrraedd ein targed yn gyson.

Byddwn yn archwilio ein perfformiad yn 2025-2026 yn fanylach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.



Er gwaethaf pwysau gweithredol parhaus a chymhlethdod cynyddol y gwasanaeth, arhosodd profiad rhoddwyr yn gyson gryf yn ystod 2025–2026 ac arhosodd uwchlaw safonau cenedlaethol.



Dadansoddiad Manwl o Gyflenwi Gwasanaethau a Pherfformiad

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi mwy o fanylion am ein perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn disgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithgareddau perfformiad a rheoli. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026. Caiff metrigau perfformiad unigol eu mesur yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol, safonau arfer gorau a mesurau canlyniad a nodwyd yn lleol.



Importantly, we have considered social matters, respect for human rights, diversity, anticorruption and anti-bribery matters.



Datblygu ein Fframwaith Rheoli Perfformiad – Sut rydym yn rheoli ein perfformiad

Yn ystod 2025-2026 mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi parhau i esblygu gydag ystod ehangach o fesurau a ddefnyddir yn rheolaidd i fonitro ansawdd a pherfformiad ein gwasanaethau craidd. Yn ogystal, mae gwaith wedi'i wneud i awtomeiddio ein system adrodd a monitro'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sydd wedi cael 'sicrwydd rhesymol' mewn adolygiad Archwilio Mewnol diweddar.

Yn bwysig, rydym wedi ystyried materion cymdeithasol, parch at hawliau dynol, amrywiaeth, materion gwrth-lygredd a gwrth-lwgrwobrwy. Ochr yn ochr â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol; mae llywodraethu ehangach yr Ymddiriedolaeth yn darparu fframwaith sicrwydd ar gyfer caffael; Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ac Ansawdd; a'r fframwaith Polisi.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu nifer o becynnau gwaith i awtomeiddio prosesau a threfniadau adrodd y Fframwaith Rheoli Perfformiad. Mae'r broses barhaus o wella'r Fframwaith hwnnw wedi cynnwys ymgysylltu a thrafod helaeth gydag Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol, cynrychiolwyr cleifion a rhoddwyr ynghyd â gwaith manwl gydag Arweinwyr Is-adrannol a'r holl staff.

Nodi perthnasoedd a chysylltiadau ar draws Meysydd Perfformiad

Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol y Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer adrodd ar ein perfformiad misol wedi'i datblygu, sy'n cynnwys proses uwchgyfeirio a chylch busnes i'n Bwrdd Rheoli Gweithredol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac yn olaf i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn darparu llywodraethu, sicrwydd a chraffu effeithiol ar faterion perfformiad allweddol a themâu trawsbynciol, er mwyn sicrhau bod pob mater allweddol wedi cael ei uwchgyfeirio'n briodol a bod cynlluniau gweithredu effeithiol wedi'u datblygu i fynd i'r afael â nhw.

Mae fformat yr adroddiad perfformiad yn mabwysiadu dull 'cerdyn sgôr cytbwys' sy'n ceisio 'triogli' rhyngddibyniaethau darpariaeth weithredol, ansawdd a diogelwch gwasanaethau, ein pobl ac adnoddau ffisegol ac ariannol. Mae'r dull yn seiliedig ar chwe pharth y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (QSF), sef gofal diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y claf/rhodddwr, yn brydlon, effeithlon a theg.

Cefnogir pob dangosydd perfformiad allweddol gan ddadansoddiad sy'n egluro'r perfformiad cyfredol, gan ddefnyddio Siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol (SPC) lle bynnag y bo modd, er mwyn gwahaniaethu rhwng 'amrywiadau naturiol' mewn gweithgaredd, a thueddiadau neu berfformiad y mae angen ymchwilio iddynt.

Ein Perfformiad Ariannol

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei holl Ddyletswyddau Statudol, gan weithredu o fewn ein dyraniad ariannol.

Paratwir cyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar sail busnes gweithredol gan y rhagwelir y bydd gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu yn y dyfodol, fel y dangosir gan gynnwys darpariaethau ariannol ar gyfer y gwasanaethau hynny. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau nac ystyriaethau hysbys a allai fwrw amheuaeth ar yr asesiad hwn.

Polisi Atal Twyll a Llygredd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd ei chyfrifoldebau i ddiogelu pwrs y wlad o ddifrif calon ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i'r safonau moesegol uchaf, er mwyn sicrhau bod arian ac asedau cyhoeddus yn cael eu defnyddio a'u diogelu'n briodol.

Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn goddef twyll na llygredd gan ei gweithwyr, cyflenwyr, contractwyr, partneriaid na defnyddwyr gwasanaeth a bydd yn cymryd pob cam angenrheidiol i ymchwilio i bob honiad o dwyll neu lygredd ac yn gweithredu'r cosbau sydd ar gael ym mhob achos; gan gynnwys tynnu o swydd, camau disgyblu, diswyddo a/neu erlyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Gwasanaethau Atal Twyll a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac yn darparu cyrsiau ymwybyddiaeth Gwrth-dwyll i'w holl staff.

Mae'r adran ganlynol yn darparu dadansoddiad manylach o berfformiad ein Ymddiriedolaeth yn 2025-2026 ar draws ein dau faes gwasanaeth allweddol; cancer a gwaed - yn erbyn ystod o dargedau Statudol, arfer gorau a thargedau ymestynnol lleol dros Chwe Pharth y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch.



Perfformiad Gwasanaeth Canser Velindre (Gcf)

Trosolwg:

Gwellodd perfformiad 2025-2026 yn ystod y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r daith wella barhaus a'n huchelgais i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Mae meysydd nad ydynt yn cyrraedd y lefelau penodedig wedi bod ac yn parhau i fod yn destun mentrau gwella a chraffu parhaus i sicrhau buddion i gleifion a rhoddwyr.

Mynediad i'n Gwasanaethau

Mae'r galw am wasanaethau cancer yn cael ei yrru gan yr angen i ddarparu gofal i gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser yn ogystal â'r gofyniad i sicrhau bod cleifion presennol yn gallu cael triniaethau parhaus mewn da bryd. Mae cleifion sydd eisoes yn hysbys i GCF yn cynnwys y rhai sydd wedi cael diagnosis o glefyd metastatig a charfan gynyddol o gleifion, y gellir rheoli eu cancer yn weithredol bellach am gyfnodau hir yn aml am fod therapïau newydd a gwell ar gael.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at y twf atgyfeiriadau ar gyfer 2025-2026 mewn radiotherapi a SACT.



Radiotherapy Referrals
+12%



SACT Referrals
+12%

Atgyfeiriadau	31/03/2025	31/03/2026	Amrywiad
Radiotherapi	4,321	4,837	+12%
SACT	5,282	5,923	+12%
Gweithgaredd			
Radiotherapi (Presenoldeb)*	49,450	53,296	+8%
SACT (Presenoldeb)*	33,673	35,808	+6%

*Data a gafwyd o'r Adroddiad Perfformiad Efydd a luniwyd ar 26 Ebrill 2026.

Wrth i'r galw barhau i dyfu, mae GCF wedi ehangu'r ffordd y mae'n darparu triniaeth, gan gynyddu'r defnydd o bresenoldeb cleifion allanol rhithwir, y cymysgedd o gyflenwi SACT trwyth geneuol a mewnwythiennol (IV), y defnydd ehangach o hypoffracsiynu wrth roi triniaethau radiotherapi i rai grwpiau o gleifion a darparu gofal i gleifion mewn lleoliadau allgymorth, y bydd angen eu harchwilio i gyd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ochr yn ochr â gweithgarwch i nodi arbedion effeithlonrwydd a datblygiadau ar draws yr holl lwybrau triniaeth.

Mae cyflwyno therapiau newydd sbon o fewn cancer wedi gweld GCF yn llwyddo i gyflwyno'r cyntaf o genhedlaeth newydd o imiwnotherapiau i glaf yn 2025-2026. Roedd llwyddiant y prawf cysyniad cyffrous hwn yn dibynnu ar weithredu llwybr triniaeth cwbl newydd yn ddiogel ac wedi'i astudio, a oedd yn pwysleisio lefel y cydweithrediad aml-broffesiynol sy'n sail i ddarparu gofal yn GCF.



Over the course of the year the radiotherapy service has responded to growing demand for patient treatment.



Cynnydd: Gwasanaethau Ymbelydredd


Dros gyfnod y flwyddyn mae'r gwasanaeth radiotherapi wedi ymateb i'r galw cynyddol am driniaeth cleifion. Yn ogystal, rydym wedi parhau â gweithrediad llwyddiannus rhaglen newid fawr, sef y Datrysiaid Radiotherapi Integredig (IRS).

Yn haf 2025 mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) agorodd yr Ymddiriedolaeth Uned Radiotherapi Felindre yn Ysbyty Nevill Hall, sy'n cynnwys dau beiriant triniaeth newydd a systemau gweithredu gwell newydd. Bydd y datblygiadau hyn, a fu'n bosibl trwy fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn caniatáu i ni resymoli llwybrau cleifion. Bydd hyn yn helpu i leihau arosiadau am driniaeth, gwella mynediad cyfartal at therapiau newydd, a fydd yn gwella canlyniadau i'n cleifion.


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gwelodd ein perfformiad drwy gydol y flwyddyn ac erbyn mis Mawrth 2026:

- Cyrhaeddodd **100%** o gleifion radiotherapi brys y targed rhwng atgyfeirio a thriniaeth (targed 2 ddiwrnod)
- Dechreuodd **90%** o gleifion radiotherapi a ddewisodd ohirio dechrau eu triniaeth y driniaeth o fewn y targed o 14 diwrnod wedi hynny.
- Cyrhaeddodd **82%** o gleifion radiotherapi'r targed rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer triniaethau wedi'u hamserlennu (targed 21 diwrnod)
- Cyrhaeddodd **69%** o gleifion radiotherapi'r targed rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer triniaethau brys wedi'u hamserlennu (targed 7 diwrnod)

Siart SPC Cleifion radiotherapi wedi'u hamserlennu a gafodd eu trin o fewn 21 diwrnod (Targed 100%)



Siart SPC Cleifion radiotherapi brys a gafodd eu trin o fewn 7 diwrnod (Targed 100%)



Cynnydd: Therapi Gwrth-ganser Systemig (SACT)

Mae perfformiad SACT yn parhau i fod yn heriol oherwydd y galw cynyddol o ganlyniad i linellau triniaeth newydd, therapïau newydd sbon a chleifion yn byw'n hirach. Yn 2025-2026 cafwyd eglurhad ar lefel Cymru gyfan ar y diffiniadau adrodd. Gwnaethpwyd llawer iawn o waith i sicrhau bod yr adrodd data ar gyfer SACT yn adlewyrchu'r gweithgaredd a wnaed yn wirioneddol. Mae gwaith wedi digwydd i ymgorffori'r Rhestr Orlhain Cleifion (PTL) a galluogi rheoli gweithgareddau rhestr aros. Mae cleifion eisoes wedi elwa ar yr oruchwyliaeth hon lle mae defnyddio'r PTL wedi cefnogi cleifion sy'n cael eu dwyn ymlaen i gwrdd â'u dyddiad triniaeth targed. Bydd gwaith pellach yn digwydd i alluogi adrodd ar lefel Triniaeth Benodol i Safle yn ôl bwriad y driniaeth a sicrhau camau gwella wedi'u targedu i reoli'r risg o dorri rheolau.



Diweddarwyd y metrigau a ddefnyddir gan GCF i adrodd ar berfformiad SACT o fis Medi 2025 ymlaen. Cynlluniwyd y newid hwn i annog ffocws ar sicrhau bod cleifion yn gallu cael triniaethau o fewn amserlenni a fydd yn hyrwyddo'r canlyniadau clinigol unigol gorau posibl.

Oherwydd y newidiadau yn y ffordd y byddwn yn adrodd yng nghanol y flwyddyn, rydym yn adrodd ar berfformiad ar 31 Mawrth 2026:

- Cyrhaeddodd **100%** o gleifion y targed rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer atgyfeiriadau brys (P1, targed 2 ddiwrnod)
- Bodlonodd **37%** o gleifion y safon ansawdd rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer atgyfeiriadau pendant cyntaf, neo-gynorthwyol a lliniarol (P2, 14 diwrnod)
- Bodlonodd **53%** o gleifion y safon ansawdd rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer atgyfeiriadau cynorthwyol (P3, 21 diwrnod)

Cynnydd: Targed Gwasanaethau Diogel a Dibynadwy

Heintiau a Gafwyd yn yr Ysbyty: Rydym wedi parhau i gadw at ein cyfraddau isel o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Rydym yn gweithredu dull dim goddefgarwch tuag at heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, fel MRSA, gyda’r nod o beidio â chofnodi unrhyw achosion ymhlith ein cleifion mewnol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gallai ein poblogaeth o gleifion mewnol fod yn arbennig o agored i haint oherwydd natur eu triniaethau a’u cyflwr corfforol sylfaenol.

Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn yr Ysbyty ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2026.


CGF	Ion 25	Chw 25	Maw 25	Ebr 25	Mai 25	Meh 25	Gor 25	Aws 25	Med 25	Hyd 25	Tac 25	Rha 25	Ion 26	Chw 26	Maw 26
C.diff	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
MRSA	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
MSSA	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
E.coli	0	0	0	0	0	1	0	1	1	0	0	0	1	0	1
Klebsiella	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Pseudo Aerugi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gram Neg	0	0	0	0	0	1	0	1	1	0	0	0	1	0	1

Briwiau Pwyso: Mae gennym bolisi dim goddefgarwch hefyd o ran niwed i feinwe a briwiau pwyso. Eto, gall ein cleifion mewnol fod yn arbennig o agored i niwed o'r math hwn. Roedd cydymffurfiaeth â'n bwndel Gofal Croen, sydd wedi'i ddatblygu i leihau'r risg o niwed i'r croen a'r meinwe ar gyfer ein cleifion mewnol, yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r targed wlsrau pwysau y gellir eu hosgoi drwy'r flwyddyn.

Mae atal a rheoli niwed pwyso wedi bod yn ffocws ansawdd sylweddol i GCF yn ystod y flwyddyn. Nodwyd cynnydd mewn niwed pwyso yn datblygu neu'n gwaethgu yn ystod derbyniadau cleifion mewnol, gyda phob achos yn destun ymchwilio trylwyr ac yn cael ei adolygu trwy Baneli Dysgu Briwiau Pwyso misol. Nid oedd unrhyw niwed pwyso a gafwyd neu a waethgodd yn uwch na gradd 2, er y barnwyd bod modd osgoi cyfran o ddigwyddiadau, gan atgyfnerthu'r angen am atal cryfach, adnabod yn gynnar a rheoli cyson. Gweithredwyd camau gwella wedi'u targedu, gan gynnwys arweinyddiaeth glinigol well, adolygiad o gymysgedd sgiliau staffio a'u dyrannu, cynyddu capasiti Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, gweithredu cynlluniau gwella ar lefel ward, a chyflogi cymorth hyfywedd meinwe arbenigol i ddarparu addysg ac arweiniad gyda ffocws i staff.

Yn galonogol, gwelwyd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd tua diwedd y cyfnod adrodd, ochr yn ochr â gwelliannau allweddol i'r system. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno matresi lleddfu pwysau newydd, gweithredu fframwaith matresi wedi'i alinio â Chymru Gyfan, gwella cydymffurfedd hyfforddiant staff, nodi hyrwyddwyr niwed pwyso ar draws unedau, a defnyddio cynlluniau gofal atal pwyso ar gyfer cleifion sydd mewn perygl mawr. Er bod niwed pwyso'n faes blaenoriaeth o hyd, mae'r camau gweithredu hyn wedi cryfhau prosesau atal a gallu staff. Bydd gwaith pellach yn canolbwyntio ar gynnal gwelliant ac archwilio Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gwasanaethau Hyfywedd Meinwe Caerdydd a'r Fro i wella cefnogaeth arbenigol, safonau dogfennu, cydweithio ac ansawdd gofal yn gyffredinol.

Siart SPC Targed Briwiau Pwyso y Gellid eu Hosgoi DIM




Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS):

Datblygwyd NEWS yn wreiddiol gan Goleg Brenhinol y Meddygon a'i fwriad yw helpu i leihau nifer y cleifion y mae eu cyflyrau'n dirywio tra byddant yn yr ysbyty. Pan fydd claf yn cael ei asesu gan ddefnyddio NEWS, mae sgôr sy'n hafal i dri, neu'n fwy, yn dangos y gallent fod mewn mwy o berygl o ddatblygu cymhlethdodau.

Yn GCF, rydym yn defnyddio NEWS i benderfynu a yw ein cleifion mewn mwy o berygl o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â sepsis niwtropenig. Mae'r cleifion hynny yr ystyrir eu bod mewn mwy o berygl yn cael y bwndel 'Chwe Phrawf Sepsis' (cyfuniad o dair triniaeth wahanol a thri phrawf) wedi'i roi iddynt o fewn amser penodol. Mae'r graff isod yn dangos ein bod wedi cyflawni ein targed o drin 100% o gleifion Sepsis o fewn awr yn gyson neu wedi'i fethu o drwyth blewyn.

Siart SPC Triniaeth Sepsis o fewn 1 awr (Targed 100%)



Ym mis Awst 2025, lansiodd GCF NEWS 2 yn llwyddiannus, gan adeiladu ar arfer gorau cenedlaethol a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon i gefnogi cydnabyddiaeth gynnar o ddirywiad cleifion.

Mae NEWS2 yn darparu dull strwythuredig a safonedig o asesu ffisiolegol, gan alluogi cynnydd amserol mewn gofal i gleifion sydd mewn mwy o berygl o ddirywiad aciwt, gan gynnwys sepsis niwtropenig. Ers ei weithredu, mae defnyddio NEWS2 wedi cryfhau penderfyniadau clinigol ac wedi gwella cysondeb wrth fonitro ac uwchgyfeirio ar draws yr is-adran.

Perfformiad Gwasanaeth Gwaed Cymru

Trosolwg

Drwy gydol 2025–2026, dangosodd ein perfformiad ymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Galluogwyd hyn gan broffesiynoldeb ac ymrwymiad ein gweithlu, ochr yn ochr â threfniadau cynllunio a gweithredol cadarn a gefnogodd ddarpariaeth gyson o wasanaethau mewn ymateb i'r galw.

Casglom 73,889 o roddion gwaed cyflawn hyfyw. O'r rhain, rhoddwyd 69,452 o unedau celloedd coch a 9,006 o gyfansoddion platennau - a gafwyd o roddion gwaed cyflawn ac afferesis - i ysbytai ledled Cymru. Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at ein gallu i gynnal cadwyn gyflenwi ddibynadwy ac ymatebol i gefnogi gofal cleifion. Mae meysydd nad ydynt yn cyrraedd y lefelau penodedig wedi bod yn destun craffu, ac yn parhau i fod yn destun craffu, a chymerir camau i wella.



Casglom
73,889
o roddion gwaed
cyflawn hyfyw.

Cynydd yn erbyn: Bodloni'r Galw Clinigol am Gelloedd Coch y Gwaed a Phlatennau

Drwy gydol 2025-2026, llwyddodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i fodloni'r holl alw clinigol am gelloedd gwaed coch a phlatennau ar gyfer ein hysbytai cwsmeriaid ledled GIG Cymru. Mae hyn yn deillio o gyfathrebu dyddiol rhwng Gwasanaethau Rhoi Gwaed a Gwasanaethau Trallwys Gwaed sy'n galluogi ymatebion hyblyg i amrywiadau mewn lefelau stoc ac anghenion gwasanaeth a gweithio'n agos gyda'n hysbytai sy'n gwsmeriaid.

Ochr yn ochr â bodloni'r galw clinigol, cyflawnodd gwasanaethau labordy arbenigol berfformiad cryf yn erbyn safonau amser troi yn ystod 2025–2026. Llwyddodd Seroleg Cyfeirio Celloedd Coch, profion cynenedigol a sgrinio RHD ffetws i gyd i gyrraedd y targedau perfformiad neu ragori arnynt, er gwaethaf cymhlethdod profion cynyddol a galw cynyddol sy'n gysylltiedig â thrawsblannu, imiwnotherapi a meddyginiaeth wedi'i phersonoli. Mae'r perfformiad cynaliadwy hwn yn adlewyrchu gallu gwyddonol cryf, cynllunio gweithlu effeithiol a rheolaeth weithredol gadarn, gan ddarparu cefnogaeth hanfodol i wneud penderfyniadau clinigol diogel ar draws GIG Cymru.


Ochr yn ochr â chynnal parhad y cyflenwad, parhaodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i chwarae rhan arweinyddiaeth genedlaethol trwy ei gyfraniad at Gynllun Iechyd Gwaed Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi defnydd doeth a phriodol o waed, yn cryfhau trefniadau llywodraethu ar draws y system ac yn helpu i leihau amrywiad direswm mewn arferion trallwys gwaed ar draws GIG Cymru. Drwy'r rôl hon, mae'r Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i gleifion a chynaliadwyedd hirdymor y tu hwnt i ddarparu cydrannau gwaed yn uniongyrchol.

Mae'r graff (Galw am gelloedd coch a phlatennau) yn dangos canran y celloedd coch a gynhyrchwyd o'i chymharu â'r nifer a roddwyd i ysbytai rhwng Ionawr 2025 a Mawrth 2026. Mae cyfnodau lle mae'r ganran yn fwy na 100% yn dangos bod cynhyrchiant wedi rhagori ar y galw, gan ganiatáu ar gyfer cronni stoc. Mae cronni stoc yn hanfodol, gan ei fod yn darparu gwydnwch yn ystod misoedd pan fydd cynhyrchiant yn gostwng o dan 100%.




Yn arbennig, mae'r pedwar achlysur lle syrthiodd y ganran islaw'r targed o 100% yn cyd-daro â chyfnodau gwyliau banc - adegau pan fydd gweithgaredd casglu fel arfer yn llai. Mae'r gallu i ddefnyddio stoc a adeiladwyd yn flaenorol yn ystod y cyfnodau hyn yn arwydd o effeithiolrwydd ein cynllunio i gynnal parhad y cyflenwad.

Cyflenwad Platennau yn Cwrdd â'r Galw – nifer y bagiau



% o'r Galw am Gelloedd Coch y Gwaed a Gyflawnwyd fel nifer y bagiau wedi'i gynhyrchu fel % o'r Cyflenwadau i Ysbytai




Parhaodd perfformiad rhoddwyr yn ystod 2025–2026 i ddangos cyfraniad pwysig rhoddwyr newydd at y cyflenwad gwaed. Gwnaed cyfanswm o 6,885 o roddion gwaed cyflawn gan unigolion a oedd yn rhoi am y tro cyntaf, sy'n cynrychioli 9.27% o'r holl gasgliadau, tra bod rhoddwyr newydd yn cyfrif am 9.55% o gyfanswm y rhoddwyr. Er bod nifer y rhoddion tro cyntaf yn is na'r flwyddyn flaenorol, mae cynnal cyfran gref o roddwyr newydd yn adlewyrchu ymdrechion recriwtio parhaus ac yn parhau i fod yn hanfodol i ategu cyflenwad gwaed gwydn ac ymatebol ar gyfer GIG Cymru.

Yn ystod 2025–2026, parhaodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i wneud cynnydd o ran gwella amrywiaeth rhoddwyr ar draws rhoi gwaed cyflawn a gwirfoddoli bôn-gelloedd, gan adlewyrchu gweithgaredd ymgysylltu parhaus wedi'i dargedu. Mae monitro perfformiad drwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn dangos cynnydd yng nghyfran y rhoddwyr a'r gwirfoddolwyr o gymunedau ethnig amrywiol, gyda chynnydd penodol i'w weld ymhlith rhoddwyr sydd newydd eu recriwtio. Mae gweithgaredd allgymorth wedi'i dargedu, gan gynnwys ymgysylltu cymunedol a lleoliadau addysg, wedi cefnogi recriwtio paneli rhoddwyr a gwirfoddolwyr mwy cynrychioliadol. Mae cryfhau amrywiaeth o fewn y sylfaen rhoddwyr gwaed cyfan a Chofrestrfa Rhoddwyr Môr Esgyrn Cymru yn parhau i fod yn hanfodol i wella paru clinigol, mynediad cyfartal at driniaeth, a gwydnwch hirdymor gwasanaethau gwaed a thrawsblannu ar draws GIG Cymru.

Cynnydd yn erbyn: Tyfu'n Cofrestr Môr Esgyrn

Mae Cofrestrfa Rhoddwyr Môr Esgyrn Cymru (WBMDR) yn rhan o Wasanaeth Gwaed Cymru o fewn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'n darparu panel o roddwyr gwirfoddol sy'n cael eu recriwtio o'r panel rhoddwyr gwaed neu drwy swab boch mewn digwyddiadau recriwtio sy'n fodlon rhoi bôn-gelloedd i'w defnyddio'n bennaf mewn trawsblaniad bôn-gelloedd fel triniaeth ar gyfer canser y gwaed. Gall rhoddwyr cymwys ymuno â'r panel gwirfoddolwyr bôn-gelloedd rhwng 16 a 30 oed os ydynt o ethnigrwydd Cawcasaid a rhwng 16 a 45 oed os ydynt o ethnigrwydd arall. Mae rhoddwyr yn aros ar y panel tan eu pen-blwydd yn 61 oed.

Gwirfoddolwyr Môr Esgyrn Newydd rhwng 16 a 45 oed a recriwtiwyd Blwyddyn Ariannol 2025-26



Ar hyn o bryd, mae ein cofrestr yn cynnwys mwy na 77,900 o roddwyr gwirfoddol. Y targed recriwtio yw 6,000 y flwyddyn ac fe ragorwyd ar y targed yn 2025-2026 gyda 6428 o roddwyr wedi'u recriwtio yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gychwyn ymgyrch swabio bochau fwy rhagweithiol mewn sefydliadau addysgol a digwyddiadau eraill.





Hyd yn hyn mae'r Gofrestrfa wedi cyflenwi dros 1550 o gynhyrchion celloedd ar gyfer trawsblaniadau cleifion yn y DU ac yn rhyngwladol ac wedi mewnfario dros 700 o gynhyrchion celloedd o gofrestrfeydd eraill yn y DU neu rai rhyngwladol ar gyfer trawsblaniadau cleifion o Gymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.



Mae'r ystodau oedran recriwtio rhoddwyr yn adlewyrchu'r data cyfredol a oedd yn dangos bod rhoddwyr iau yn darparu trawsblaniad mwy effeithiol yn glinigol a chanlyniad gwell i gleifion. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth ethnig ymhlith y panel rhoddwyr mēr esgyrn gwirfoddol, cytunwyd ar ystod oedran ehangach i roddwyr o leiafrifoedd ethnig ymuno â'r panel i fynd i'r afael â'r diffyg hwn a'r angen heb ei ddiwallu mewn trawsblaniadau ar gyfer y grwpiau cymunedol hyn.

Hyd yn hyn mae'r Gofrestrfa wedi cyflenwi dros 1550 o gynhyrchion celloedd ar gyfer trawsblaniadau cleifion yn y DU ac yn rhyngwladol ac wedi mewnfario dros 700 o gynhyrchion celloedd o gofrestrfeydd eraill yn y DU neu rai rhyngwladol ar gyfer trawsblaniadau cleifion o Gymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.

Mae'r Gofrestrfa'n cymryd cyfrifoldeb am gasglu neu fewnfario cynhyrchion celloedd ar gyfer trawsblannu cleifion yng Nghymru.

Cynrychiola 3.5% o gronfa rhoddwyr gwirfoddol bôn-gelloedd y DU - dros 2.2 miliwn o roddwyr ar draws pedair cofrestrfa - ac mae ganddi'r gyfradd defnyddio rhoddwyr uchaf.


Mae'n gyson yn cael ei graddio'n uchel mewn meincnodau rhyngwladol fel Adroddiad Tueddiadau Byd-eang Cymdeithas Rhoddwyr Mēr y Byd (WMMA) ac Adroddiad Cofrestrfa Fyd-eang Unol Daleithiau America Rhaglen Rhoddwyr Mēr Genedlaethol (NMDP). Mae gan y Gofrestrfa drwydded reoleiddio yn y DU gyda'r Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) a hi oedd y gofrestrfa fyd-eang gyntaf i ennill achrediad Cymdeithas Rhoddwyr Mēr y Byd ac mae wedi cynnal yr achrediad hwnnw'n gyson. Mae cofrestrfa Cymru yn ganolfan rhoddwyr weithredol ar gyfer y Rhaglen Rhoddwyr Mēr Genedlaethol yn UDA ac enillodd achrediad Cyd-bwyllgor Achredu (JACIE) gan gofrestrfa'r Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Therapi Celloedd a Genynnau ac achrediad y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Trawsblannu Gwaed a Mēr am ei chasgliad celloedd afferesis o Ganolfan Ganer Felindre (CGF) yn 2025.

Cynnydd yn erbyn: Bodloni Ceisiadau Gwasanaethau Trawsblannu

Mae ein targed blynyddol ar gyfer nifer y casgliadau bôn-gelloedd a ddisgwyllir mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn cael ei osod ar ddechrau'r flwyddyn; ar gyfer 2025-2026, y targed hwn oedd 40 o gasgliadau. Mae sawl ffactor amrywiol yn dylanwadu ar nifer y casgliadau bôn-gelloedd bob mis. Ar ôl prawf cadarnhau cychwynnol, mae'r ganolfan drawsblannu yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â rhoddwr yn seiliedig ar baru genetig, argaeledd a pharodrwydd y rhoddwr, a chyflwr a chynllun triniaeth y derbynnydd. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn effeithio ar nifer derfynol y casgliadau. Ar hyn o bryd, mae cyfradd ganslo gyfartalog y Deyrnas Unedig ar gyfer casgliadau bôn-gelloedd dros 35%.

Roedd perfformiad casglu bôn-gelloedd yn ystod 2025-2026 yn rhagori ar y targedau a gynlluniwyd, gan adlewyrchu effaith gweithgaredd gwella cynaliadwy gan Gofrestrfa Rhoddwyr Mēr Esgyrn Cymru. Mae'r perfformiad gwell hwn wedi cael ei gefnogi gan ymgysylltiad cryfach gan roddwyr, gweithgaredd recriwtio estynedig, a chyflenwi gweithredol effeithiol.

Bodloni Ceisiadau Gwasanaethau Trawsblannu




Mae camau gweithredu a gymerwyd drwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad – gan gynnwys dull ymgysylltu rhoddwyr wedi'i adnewyddu a digwyddiadau swabio bochaidd wedi'u targedu – wedi cynyddu maint ac ymrwymiad y panel rhoddwyr, gan alluogi gweithgaredd casglu i ragori ar ddisgwyliadau a darparu llwyfan cryfach ar gyfer perfformiad yn y dyfodol.

Cynnydd yn erbyn: Lleihau Gwastraff oherwydd bod amser Celloedd a Phlatennau wedi Dod i Ben

Mae alinio'r cyflenwad cyfansoddion gwaed â'r galw gan ysbytai yn gymhleth oherwydd oes silff gyfyngedig. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gosod targedau terfynu misol o $\leq 1\%$ ar gyfer celloedd coch (oes silff o 35 diwrnod) a $\leq 10\%$ ar gyfer platennau (oes silff o 7 diwrnod). Yn 2025-2026, arhosodd terfyniad celloedd coch yn gyson islaw'r targed o 1%, gan adlewyrchu rheolaeth gref ar y gadwyn gyflenwi a pherfformiad gwasanaeth rhagorol. O ganlyniad i hyn, roedd y gwasanaeth yn un o'r perfformwyr gorau o'i gymharu â gwasanaethau gwaed Ewropeaidd eraill.

Celloedd Coch y Gwaed yr oedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio - nifer y celloedd gwaed coch, ac eithrio bagiau pediatriig, y mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio, fel % o gyfanswm nifer y bagiau celloedd gwaed coch




Roedd terfyn amser platennau yn amrywio yn ystod y flwyddyn adrodd, gan adlewyrchu amrywiadau yn y galw clinigol a'r angen i flaenoriaethu gwydnwch cyflenwad o ystyried oes silff fer platennau. Roedd perfformiad yn rhagori ar y goddefiant targed y cytunwyd arno mewn nifer o fisoedd, gan dynnu sylw at yr her o gydbwysu meintiau cynhyrchu â galw anrhagweladwy wrth gynnal diogelwch cleifion a pharhad cyflenwad. Mewn ymateb, rhoddwyd ffocws parhaus ar gryfhau rheolaethau gweithredol a threfniadau cynllunio i leihau gwastraff y gellir ei osgoi.

Mae camau lliniaru allweddol a roddwyd ar waith ac sydd ar y gweill yn ystod 2025–2026 yn cynnwys:

- Monitro oedran stoc platennau bob dydd, wedi'i gefnogi gan drafodaethau gweithredol arferol rhwng Gwasanaethau Rhoi Gwaed a Gwasanaethau Trallwysu i lywio penderfyniadau cynhyrchu a rhoi tymor byr.
- Datblygu Strategaeth Platennau Gwasanaeth Gwaed Cymru, gan gynnwys argymhellion i wella aliniad rhwng cynhyrchu platennau a galw ysbytai.
- Datblygiad parhaus offeryn rhagweld i gefnogi gwneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchu platennau cronedig ac optimeiddio meintiau cynhyrchu.

Nifer y platennau y mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio fel % o gyfanswm y nifer a gynhyrchwyd




Cynnydd yn erbyn: Rhoddion Cyfan o Waed Cyflawn

Mae'r mesur ar gyfer rhoddwyr a ddechreuodd roi gwaed ond a fethodd gwblhau'r rhodd yn cyfeirio at roddion gwaed cyflawn o lai na 420ml, nad ydynt yn hyfyw at ddefnydd clinigol ac sydd felly'n cael eu taflu. Gellir atal rhoddion cyn casglu'r swm gofynnol am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys anawsterau tynnu gwaed, rhoddwyr yn teimlo'n sâl, neu broblemau sy'n gysylltiedig ag offer.

Yn ystod 2025–2026, arhosodd perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn gyson o fewn y trothwy targed o 4%, gyda chanlyniadau misol yn gyffredinol sefydlog a sefyllfa diwedd blwyddyn o ryw 3.6%. Mae hyn yn adlewyrchu asesiad effeithiol o roddwyr, arfer clinigol medrus a monitro gofalus drwy gydol y broses rhoi, gan gefnogi lles rhoddwyr a defnydd effeithlon o waed a gesglir.




% Rhoddwyr a Ddechreuodd Roi Rhodd ond 'methodd â rhoi rhodd'



Cynnydd yn erbyn: Targed Profiad o'r Radd Flaenaf i Roddwyr

Mae gwrandio ar roddwyr a dysgu'n uniongyrchol ganddyn nhw yn parhau i fod yn ganolog i ddatblygiad parhaus darpariaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru. Yn ystod 2025–2026, dechreuwyd datblygu cyflwyno fforwm ymgysylltu rhoddwyr newydd, Lleisiau Rhoddwyr, gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd strwythuredig i roddwyr rannu profiadau, mewnweliadau a syniadau i helpu i lunio gwelliant gwasanaethau.

Canran y rhoddwyr gwaed cyflawn a sgoriodd 8-10 (10 yn gwbl fodlon) â'u profiad rhoi gwaed "cyffredinol".



Ochr yn ochr â hyn, parhaodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i gryfhau ei ddull o reoli pryderon, gyda gwelliannau i systemau, prosesau a llywodraethu i sicrhau bod adborth rhoddwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei reoli'n gyson, yn dryloyw ac yn brydlon. Mae trefniadau clir ar waith i sicrhau bod dysgu o adborth a phryderon yn cael ei nodi, ei rannu a'i ymgorffori'n systematig mewn gweithgaredd gwella gwasanaethau. O ganlyniad, arhosodd adborth rhoddwyr yn gadarnhaol iawn drwy gydol y flwyddyn, gyda mesurau profiad yn cyrraedd y targed yn gyson, gan roi sicrwydd bod safbwyntiau rhoddwyr yn llywio datblygiad gwasanaethau yn weithredol ac yn gwella ansawdd cyffredinol y gwasanaeth.

Cyd-Destun, Cyfleoedd a Risgiau Gwasanaeth yn y Dyfodol

Gwasanaeth Canser Felindre

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol a thriniaethau mwy cymhleth yn cael eu cymeradwyo, mae'r galw am wasanaeth yn parhau i dyfu.



O fewn radiotherapi, mae agor Uned Loeren Radiotherapi Felindre yn Ysbyty Nevill Hall ym mis Mehefin 2025 wedi galluogi gofal i gael ei ddarparu'n nes at y cartref i rai cleifion.



Cwrdd â'r galw a datblygiadau'r gwasanaeth

Ystyriwyd y capasiti i ddiwallu'r galw cynyddol am driniaeth SACT a radiotherapi trwy gyfres o ddatblygiadau gwasanaeth. Mae gweithredu strwythur rheoli newydd ym mis Rhagfyr 2025 wedi galluogi dull mwy pendant o ymdrin â llwybrau cleifion yn ôl safle tiwmor. Cefnogwyd hyn trwy ddatblygu Rhestr Orlhain Cleifion sydd wedi caniatáu mwy o eglurder wrth olrhain cleifion ar draws y SCP 62 diwrnod o'r atgyfeirio i Fyrddau Iechyd hyd at y penderfyniad i drin a thriniaeth.

O fewn radiotherapi, mae agor Uned Loeren Radiotherapi Felindre yn Ysbyty Nevill Hall ym mis Mehefin 2025 wedi galluogi gofal i gael ei ddarparu'n nes at y cartref i rai cleifion. Mae'r gwasanaeth yn darparu triniaeth ar gyfer y fron, wroleg a radiotherapi lliniarol o uned bwrpasol newydd sbon. Cyflawnwyd hyn mewn partneriaeth â BIPAB a chyda chyllid gan Fyrddau Iechyd ledled de-ddwyrain Cymru.

Cyflwynwyd Therapi Radioniwclid Derbynyddion Peptid (PRRT), triniaeth arbenigol newydd, yn 2025-2026. Therapi radiofferyllol arbenigol wedi'i dargedu yw hwn i drin tiwmorau niwroendocrin yn bennaf. Comisiynwyd y gwasanaeth gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru o Felindre i ddarparu gwasanaeth i Dde Cymru ac mae wedi galluogi mwy o gleifion i gael triniaeth arbenigol yng Nghymru ac yn nes at y cartref. Yn flaenorol, byddai'r cleifion hyn wedi gorfod teithio'n hir i Lundain i gael triniaeth.

Yn ystod 2025-2026 bu GCF yn paratoi ar gyfer agor y CGFn yn yr Eglwys Newydd, y disgwylir iddi agor ddechrau 2027. Bydd cynllunio trosglwyddo gwasanaethau i'r ganolfan newydd yn ffocws sylweddol i weithgarwch yn 2026-2027 a gellir dod o hyd i fanylion ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026-27 i 2028-2029.



Datblygiadau mewn Triniaethau

Mae arloesi a newid clinigol a thechnolegol mewn gwasanaethau cancer yn digwydd yn gyflym. Gwyddom fod datblygiadau newydd a meddyginiaethau wedi'u personoli (Triniaethau SACT) ar y gorwel agos. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi cymeradwyo'r defnydd o driniaethau Bio-benodol gyda mwy i ddod yn y dyfodol agos. Mae gan rai o'r triniaethau newydd hyn y potensial am sgil-effeithiau andwyol mwy a bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ddylunio ei gwasanaethau i ddarparu ar gyfer rhoi'r triniaethau newydd hyn. Ym mis Gorffennaf 2025, gwnaeth GCF dreialu tebentafusp yn llwyddiannus, sef therapi newydd sbon gan NICE. Roedd hyn yn cynnwys newid gwasanaeth dynamig fel prawf o'r cysyniad.

Y Gweithlu

Mae gweithlu arbenigol yn parhau i fod yn her o fewn gwasanaethau cancer ar draws GIG Cymru a'r tu hwnt. Mae cynllunio gweithlu manwl yn digwydd, a fydd yn nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau. Yn ogystal, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn gweithio'n agos gydag Addysg a Gwella Iechyd a Phrifysgolion Cymru i ddod â nyrsys a gwyddonwyr clinigol graddedig sydd newydd gymhwyso i mewn drwy'r broses symleiddio.

“

Mae arloesi a newid clinigol a thechnolegol mewn gwasanaethau cancer yn digwydd yn gyflym. Gwyddom fod datblygiadau newydd a meddyginiaethau wedi'u personoli (Triniaethau SACT) ar y gorwel agos.

”



Gwasanaeth Gwaed Cymru

Mae'r her o sicrhau cyflenwad digonol o roddwyr gyda'r grwpiau gwaed cywir i ddiwallu galw cleifion yn broblem y mae gwasanaethau gwaed yn ei hwynebu'n fyd-eang. Mae ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio, mwy o deithio rhyngwladol (gyda gohirio rhoddwyr cysylltiedig) a ffyrdd o fyw sy'n newid yn rhoi pwysau parhaus ar argaeledd rhoddwyr, gan lunio'r cyd-destun strategol y mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i gynllunio a datblygu ei wasanaethau ynddo. Mae'r tueddiadau hyn yn cynyddu pwysigrwydd dulliau recriwtio, cadw ac ymgysylltu wedi'u targedu i gynnal gwydnwch y cyflenwad dros y tymor canolig i'r tymor hir.



Disgwylir hefyd i'r galw am wasanaethau imiwnoleg rhoi a thrawsblannu bôn-gelloedd gynyddu, gan adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ledled y DU a'r ehangu ar gymhwysiad clinigol therapïau sy'n seiliedig ar fôn-gelloedd.



Cwrdd â'r Galw a Datblygu'r Gwasanaeth

Mae alinio galw amrywiol ysbytai â chyflenwad cydrannau gwaed, yn enwedig y rhai sydd ag oes silff gyfyngedig, yn parhau i gyflwyno heriau gweithredol. Mae'r galw am wasanaethau arbenigol hefyd yn cynyddu. Yn benodol, mae'r defnydd cynyddol o imiwnotherapi a chydymffurfedd gwell â chanllawiau clinigol cenedlaethol yn sbarduno twf yn y galw am brofion gwaed cyfeirio cymhleth a ddarperir gan y labordy Imiwnohematoleg Celloedd Coch (RCI). Efallai na fydd y gofyniad gwasanaeth cynyddol hwn yn gynaliadwy o dan y trefniadau comisiynu presennol, ac mae adolygiad gweithlu gweithredol ar y gweill i asesu capasiti a nodi cyfleoedd i gryfhau gwydnwch gwyddonol.

Disgwylir hefyd i'r galw am wasanaethau imiwnoleg rhoi a thrawsblannu bôn-gelloedd gynyddu, gan adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ledled y DU a'r ehangu ar gymhwysiad clinigol therapïau sy'n seiliedig ar fôn-gelloedd.

Parhau i fodloni gofynion llym o ran dewis rhoddwyr a rheoleiddio

Mae gwasanaethau gwaed yn gweithredu mewn amgylchedd sydd wedi'i reoleiddio'n fawr ac sy'n esblygu'n barhaus. Mae datblygiadau mewn gwyddoniaeth, technoleg ac ymarfer clinigol yn arwain yn rheolaidd at ddiweddariadau i Ganllawiau Dewis Rhoddwyr (DSG) a chanllawiau Cydbwyllgor Ymgynghorol Proffesiynol y DU er Gwasanaethau Trallwysiaidau Gwaed a Thrawsblannu Meinweoedd (JPAC). Rhaid i Wasanaeth Gwaed Cymru barhau i fod yn hyblyg wrth ymateb i'r newidiadau hyn er mwyn sicrhau diogelwch rhoddwyr a chleifion wrth gynnal y gwasanaethau a ddarperir.

Yn ogystal, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i gefnogi a chyfrannu at yr ymateb cenedlaethol i argymhellion yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Mae cynrychiolwyr o Wasanaeth Gwaed Cymru a'r Grŵp Goruchwyllo Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) yn cymryd rhan weithredol mewn grwpiau ledled y DU a grwpiau dan arweiniad Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu a sicrwydd yng Nghymru.



Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy'n Newid

Mae datblygiadau mewn darganfyddiadau gwyddonol, ymarfer clinigol a thechnolegau galluogi yn parhau i ail-lunio'r ffordd y mae therapiau cymhleth yn cael eu darparu yng Nghymru. Mae hyn ar ei amlycaf yn nyfodiad cyflym Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMP), gan gynnwys therapiau celloedd a genynnau, sy'n newid o driniaethau arbrol i ddefnydd clinigol arferol ac y mae angen eu darparu gan y GIG yn gydlynol ar draws y system. Yn ystod 2025–2026, cefnogodd Gwasanaeth Gwaed Cymru, gan weithio drwy Therapiau Datblygedig Cymru, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i symud y tu hwnt i sganio'r gorwel tuag at barodrwydd ymarferol ar gyfer mabwysiadu, gan ganolbwyntio ar gapasiti'r gweithlu, seilwaith, comisiynu a llywodraethu. Mae dulliau cydlynol cenedlaethol ar gyfer meysydd fel gwasanaethau afferesis, capasiti fferyllfa ac aseptig, data a galluogi digidol yn ganolog i sicrhau bod cynnydd gwyddonol a thechnolegol yn cael ei drosi'n wasanaethau diogel, teg a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae awtomeiddio o fewn gweithgynhyrchu a phrofi cydrannau gwaed hefyd yn cyflymu, ac mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i archwilio cyfleoedd fel genoteipio celloedd coch ac offer digidol datblygedig. Mae gan dechnolegau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys gweithdrefnau â chymorth digidol a dadansoddi data sy'n cael ei alluogi gan ddeallusrwydd artifisial, y potensial i wella cyfradd brosesu, lleihau gwallau a chefnogi adnabod risg yn gynharach, gan ddarparu manteision i gleifion, rhoddwyr a staff.

Cyflenwad Gweithlu

Mae ymateb i gymhlethdod cynyddol gwasanaethau a datblygiadau technolegol yn gofyn am weithlu sydd â'r capasiti, y sgiliau a'r hyblygrwydd cywir. Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru rôl allweddol nid yn unig wrth ddatblygu ei weithlu ei hun ond hefyd wrth gefnogi piblinell wyddonol ehangach GIG Cymru drwy addysg, hyfforddiant ac allgymorth. Mae strategaethau addysg a gweithlu yn cael eu datblygu i gefnogi cynllunio olyniaeth, mynd i'r afael â gofynion sgiliau sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod y gweithlu'n parhau i fod yn hyblyg ac yn wydn wrth i wasanaethau barhau i esblygu.



Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cynlluniwyd pob amcan i wella iechyd y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol, lleihau anghydraddoldebau iechyd, cefnogi gwasanaethau canser a gwaed a thrawsblannu arbenigol o safon a chynaliadwy, a chyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach. Wrth ddatblygu'r amcanion hyn, ystyriodd yr Ymddiriedolaeth sut y gall ei rôl fel sefydliad arbenigol y GIG ychwanegu gwerth o fewn y system iechyd a thrwy gydweithio ehangach, gan gefnogi canlyniadau i gleifion, staff, cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Wrth osod ei hamcanion llesiant, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan ystyried y pum ffordd o weithio:

Hirdymor – gan ystyried effaith hirdymor penderfyniadau ar ganlyniadau cleifion, cynaliadwyedd y gweithlu, seilwaith, yr amgylchedd ac adnoddau. Mae CGFn ac Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau yn cael eu cynllunio i fod yn wydn o ran yr hinsawdd, yn effeithlon o ran ynni, ac yn gyfrifol o ran yr amgylchedd. Mae'r ddau brosiect yn bodloni safonau cynaliadwyedd uchel, gan gynnwys Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Adeiladu Rhagorol, ac yn integreiddio dylunio carbon isel â mannau gwyrdd.

Atal – canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, trawsnewid gwasanaethau, ymchwil ac arloesi i leihau'r galw yn y dyfodol a gwella canlyniadau. Mae agor Safle Lloeren GCF yn Nevill Hall wedi bod yn fenter i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn nes at y cartref er mwyn cyfyngu ar risgiau yn y dyfodol.

Integreiddio – sicrhau bod amcanion yn cydreded â blaenoriaethau cenedlaethol, gofynion cynllunio'r GIG, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r nodau llesiant ehangach. Mae ein cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol misol yn ffordd inni integreiddio polisi mewnol a chenedlaethol i leoliadau clinigol; gan rannu syniadau ac integreiddio camau gweithredu gyda staff clinigol.



Cydweithio – gweithio gyda phartneriaid y GIG, cyrff cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, prifysgolion a phartneriaid ymchwil i wneud y mwyafrif o'r effaith ar y cyd. Mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rydym yn gweithio tuag at greu gwasanaeth Cymru gyfan lle gellir casglu ac adnewyddu cymhorthion cerdded a ddefnyddiwyd, a'u hailddosbarthu i gleifion mewn angen. Mae hyn yn lleihau gwastraff, yn cefnogi cleifion, ac yn adeiladu model cynaliadwy y gellid ei efelychu ar draws GIG Cymru.

Ymglymiad – cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant wrth ddatblygu ac adolygu amcanion. Mae Hefyd, ein menter buddion cymunedol, yn buddsoddi mewn rhaglenni sy'n cwmpasu'r celfyddydau, presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd, cynaliadwyedd, a gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cynnwys ystod eang o bobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, gan gynnwys cleifion, gofawyr, staff, undebau llafur, sefydliadau partner a rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru. Defnyddia'r Ymddiriedolaeth amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu a chynnwys, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, adborth cleifion a staff, fforymau partneriaeth, ac ymgysylltu wedi'i dargedu â grwpiau prin y'u clywir.

Drwy'r broses hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd ein hamcanion llesiant yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gynhwysol, ac yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gefnogi canlyniadau gwell i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.



Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Rydym wedi ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion, staff, partneriaid, sefydliadau cydraddoldeb a rhanddeiliaid eraill ar y cyd â Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru ac wedi gofyn iddynt beth yw eu barn am flaenoriaethau cydraddoldeb yr Ymddiriedolaeth.

Rydym wedi nodi pa ymchwil a gwybodaeth oedd eisoes ar gael i helpu i ddatblygu'r amcanion, ac wedi cynnal arolwg o gleifion, staff, partneriaid, sefydliadau cydraddoldeb a'r trydydd sector a grwpiau cynrychioliadol eraill i ddatblygu'r amcanion allweddol canlynol.

Amcan 1:	Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu, a dileu bylchau cyflog
Amcan 2:	Gweithio gyda'r Gymuned
Amcan 3:	Cyfathrebu â phobl mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion
Amcan 4:	Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu anghenion unigol

“Mae gennym ddyletswydd i ystyried anghenion amrywiol yr unigolion y maent yn eu gwasanaethu, gan leihau anfantais a sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cynnwys.

Mae gennym ddyletswydd i ystyried anghenion amrywiol yr unigolion y maent yn eu gwasanaethu, gan leihau anfantais a sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cynnwys. Mae cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, lle y bo'n briodol, yn gam hanfodol yn ein proses gynllunio ar gyfer ein holl ddatblygiadau gwasanaeth allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn ffordd nad yw'n gosod unrhyw glaf, rhoddwr nac aelod o staff dan anfantais yn anfwriadol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu ystod o brotocolau a gweithdrefnau i gefnogi cleifion, rhoddwyr a staff sydd â heriau ychwanegol, fel y'u diffinnir gan y naw nodwedd warchodedig, ac i nodi meysydd lle rydym am wella.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn golygu ei bod yn ofynnol i ni gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi ac yn cyfiawnhau amcanion y cynllun cydraddoldeb ac yn egluro sut byddwn yn eu cyflawni.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddolen i Gynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP)2024 - 2028⁴ yr Ymddiriedolaeth.

⁴ <https://velindre.nhs.wales/about-us/publications/strategic-documentation/strategic-equality-plan-and-objectives-2024-2028/>

Amcanion ein Gweithlu a Gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth

Yn ystod 2025-2026, cafodd Gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth eu gwreiddio ym mhob rhan o fywyd gwaith staff, o recriwtio, trwy weithgareddau datblygiad proffesiynol i ategu sut rydym yn ymwneud â'n gilydd. O ran datblygu staff, maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein rhaglen sefydlu 'Croeso' a'n Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth 'Ysbrydoli'.

O ran darparu gwasanaethau, fe'u defnyddiwyd fel pwynt cyfeirio yn ein gwaith o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth. Mae'r gwerthoedd hyn yn ganolog i'r hyn a wnawn.



Gofalgar

Rydym bob amser yn garedig, yn gefnogol, yn hawdd mynd atom ac yn dangos tosturi at bawb.



Parchus

Rydym yn ceisio deall safbwyntiau pobl eraill. Rydym bob amser yn agored ac yn dryloyw.



Atebol

Rydym bob amser yn cymryd cyfrifoldeb personol am beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

Rydym yn gwerthfawrogi ein staff ac yn cydnabod eu bod yn flaenoriaeth allweddol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn llwyddiannus. Ein nodau, felly, yw parhau i ddatblygu ein gweithlu trwy:

- Gefnogi llwybrau gyrfa
- Datblygu sgiliau arwain ein staff
- Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen ar ein staff yn awr ac yn y dyfodol
- Cefnogi llesiant ein staff
- Cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth ein staff fel rhan o ddiwylliant dwyieithog a sicrhau bod yr holl staff yn gallu bod yn nhw eu hunain a gweithio mewn amgylchedd sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi gwahaniaeth.

Mae ein huchelgeisiau strategol yn adeiladu ar ein sylfaen gref fel cyflogwr da ac maen nhw'n hanfodol i gyflawni ein cynlluniau gwasanaeth ar gyfer GCF a GGC.



Symud i Flwyddyn 2 o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028, gan adeiladu ar y cynllun blaenorol a nodi gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb mewn cyflogaeth a darparu gwasanaethau.



Gweledigaeth Ein Gweithlu: Dod yn Gyflogwr o Ddewis:

Pobl Fedrus a Datblygedig: cyflogwr o ddewis i staff sydd eisoes yn cael eu cyflogi gennym, sy'n dechrau eu gyrfa yn y GIG neu'n chwilio am rôl a fydd yn cyflawni eu huchelgeisiau proffesiynol ac yn bodloni eu dyheadau personol.

Pobl wedi'u Cynllunio a'u Cynnal: bod â'r bobl iawn sydd â'r gwerthoedd, yr ymddygiad, yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder iawn i ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chefnogi llesiant cleifion a rhoddwyr.

Pobl Iach ac Ymgysylltiedig: o fewn diwylliant o wir gynwysoldeb, tegwch, a chydaddoldeb ar draws y gweithlu. Gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth, y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol poblogaeth Cymru.

Dros y 12 mis diwethaf, mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Gwreiddio ein model gofal fesul cam ar gyfer gofal a chymorth seicolegol a chynyddu lefel y gefnogaeth, gan Wasanaeth Llesiant Staff yr Ymddiriedolaeth a chan bartneriaid eraill yr ydym yn cyfeirio staff atynt lle bo'n berthnasol.
- Cwblhau dwy flynedd o Brosiect Llesiant a ariannwyd gan Elusennau'r GIG Gyda'i Gilydd a oedd yn ein galluogi i sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Llesiant a darparu cefnogaeth mewn perthynas â'r menopos.
- Adolygiad o'n Gwasanaeth Llesiant a amlygodd gryfderau'r ddarpariaeth ac effaith gadarnhaol ei chael ar waith.
- Cyflawni gwelliannau yn sgoriau Arolwg Staff y GIG ar gyfer boddhad staff gyda gwerthusiadau, o ganlyniad i brosiect strwythuredig i ddiweddarau'r polisi, hyfforddiant ac adrodd Adolygiadau Gwerthuso a Datblygu (PADR) ar gyfer staff yr Agenda ar gyfer Newid.
- Symud i Flwyddyn 2 o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028, gan adeiladu ar y cynllun blaenorol a nodi gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb mewn cyflogaeth a darparu gwasanaethau.
- Cyflawni Lefel 3 Hyderus o ran Anabledd fel mesur o'n harferion recriwtio a chyflogi sy'n ymwneud â phobl ag anableddau.

Trwy weithredu'n llwyddiannus y themâu craidd a amlinellwyd yn strategaeth gweithlu'r Ymddiriedolaeth, byddwn yn gallu hwyluso'r broses o drosglwyddo ein pobl ar draws ein holl feysydd allweddol y gellir eu cyflawni. Bydd hyn yn ein helpu i greu a chynnal Gweithlu Iach ac Ymgysylltiedig, Medrus a Datblygedig a Chynllunedig a Chynaliadwy.

Ein Hamcanion Cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid yr Ymddiriedolaeth ac i greu sefydliad cynaliadwy. Strategaeth yr Ymddiriedolaeth: Mae Cychfan 2033, ynghyd â strategaethau cysylltiedig ar gyfer Gwasanaethau Canser a Gwaed a Thrawsblannu arbenigol ar gyfer 2023 – 2034 wedi'u cymeradwyo. Mae gan y strategaethau hyn ffocws cryf ar gynaliadwyedd ac maent yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i gyflawni'r rhagoriaeth yr ydym wedi ymrwymo iddo.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru ganolbwyntio ar gyflawni nodau llesiant tymor hir mewn modd cynaliadwy. Er ein bod wedi gwneud cynnydd wrth ymgorffori'r Ddeddf ar draws y sefydliad, gwyddom fod yn rhaid i ni wneud llawer mwy. Mae'r Ddeddf arloesol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfle cyffrous i arwain y ffordd yn rhyngwladol ac yn amlinellu ein hamcanion cynaliadwyedd gan alluogi gweithredu go iawn i greu newid cadarnhaol ac arwyddocaol.

Felly, rydym yn gyffrous ein bod yn gallu nodi ein taith tuag at gynaliadwyedd a'r manteision y bydd yn eu gwredu dros y blynyddoedd nesaf. Mae ein Strategaeth Gynaliadwyedd yn amlinellu 10 Thema Allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau:

Thema 1	Creu Gwerth Ehangach: Ymagwedd ein sefydliad
Thema 2	Modelau Gofal Cynaliadwy
Thema 3	Di-garbon
Thema 4	Seilwaith Cynaliadwy
Thema 5	Pontio i Ddyfodol o Ynni Adnewyddadwy
Thema 6	Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau
Thema 7	Cysylltu â Natur
Thema 8	Gwneud Ein Cludiant a'n Teithio yn Wyrdd
Thema 9	Addasu i Newid Hinsawdd
Thema 10	Ein Pobl fel Asiantau dros Newid

Further detail on the above Key Themes is given in the following section.

Rhoddir rhagor o fanylion am y Themâu Allweddol uchod yn yr adran ganlynol.

Fel sefydliad angori yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd yn ein sefydliad ein hunain a dod yn esiampl i eraill ddod i ddysgu gyda ni, ac oddi wrthym. Rydym wedi ymrwymo i roi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn ac i wneud y mwyaf o'r manteision y gallwn eu darparu i bobl ledled Cymru.

Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth: Mae Rhagoriaeth Cynaliadwyedd wedi creu map trywydd i ni gyfrannu at ein cymunedau a lleihau ein heffaith ar y blaned wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'n rhoddwyr, cleifion a gofalwyr.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddolen i Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth 2023 - 2033 .

⁵ <https://velindre.nhs.wales/destination-2033/how-we-will-achieve-our-vision/sub-strategies/sustainability-strategy1/>

Strategaeth Gynaliadwyedd

Trosolwg o Berfformiad Cynaliadwyedd

Mae'r cysylltiad rhwng yr hinsawdd ac iechyd yn bwysicach nag erioed, gydag effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur yn dod yn fwyfwy amlwg, a'r alwad glir i weithredu gan COP28 a Llywodraeth Cymru, mae ein Hymddiriedolaeth yn parhau i arwain trwy integreiddio cynaliadwyedd ar draws pob rhan o'n sefydliad. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein perfformiad, ein cyflawniadau, a chyfeiriad ein gwaith cynaliadwyedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan y canlynol:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sy'n gofyn am feddwl mewn modd hirdymor, integredig, ac ataliol
- **Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru** – sy'n gosod targed ar gyfer allyriadau sero net yn 2030
- **System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015** – sicrhau sicrwydd allanol a gwelliant parhaus
- **Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth a Chyrchfan 2033** – a lywiodd y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd



Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth cynaliadwyedd, rydym wedi nodi amcanion clir a gefnogir gan ddeg thema Rhagoriaeth Cynaliadwyedd.



Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth cynaliadwyedd, rydym wedi nodi amcanion clir a gefnogir gan ddeg thema Rhagoriaeth Cynaliadwyedd. Mae'r themâu hyn yn darparu'r ffocws ar gyfer cyflawni ar draws yr Ymddiriedolaeth ac yn galluogi cynaliadwyedd i gael ei wreiddio wrth wneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau a diwylliant sefydliadol.

Caiff y strategaeth ei gyrru gan Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau bod ein dull yn gwella canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth gyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r enghreifftiau a nodir isod yn tynnu sylw at rywfaint o'r cynnydd a'r gweithgaredd sydd ar y gweill o fewn pob thema. Nid ydynt yn gynhwysfawr; mae gwaith sylweddol yn digwydd ar draws gwasanaethau, safleoedd a phartneriaethau, gan adlewyrchu dull cydlynol, ar draws y sefydliad cyfan o sicrhau Rhagoriaeth Cynaliadwyedd sy'n dwyn buddion i gleifion, rhoddwyr, staff, cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Thema 1 – Creu Gwerth Ehangach: Ein Dull Sefydliadol

Mae cynnydd o dan y thema hon wedi canolbwyntio ar gryfhau llywodraethu, arweinyddiaeth a phartneriaethau er mwyn cyflawni cynaliadwyedd yn gyson ar draws yr Ymddiriedolaeth. Cyflwynwyd strwythur llywodraethu cynaliadwyedd newydd, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd, sy'n darparu goruchwyliaeth strategol, atebolrwydd ac aliniad â blaenoriaethau corfforaethol.

Mae camau ymarferol wedi ategu gwelliannau llywodraethu, gan gynnwys casglu sbwriel rheolaidd ar draws safleoedd a gyflawnir mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM). Mae'r gweithgareddau hyn yn dangos arweinyddiaeth weladwy, yn cryfhau cydweithio ac yn cefnogi gwelliant amgylcheddol ac ymgysylltiad staff.

Thema 2 – Modelau Gofal Cynaliadwy

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar wreiddio cynaliadwydd yn y ffordd y darperir gofal a gwasanaethau, a gefnogir trwy sefydlu timau amlddisgyblaethol cynaliadwydd clinigol. Mae'r timau amlddisgyblaethol hyn yn galluogi clinigwyr, staff gweithredol ac arweinwyr cynaliadwydd i gydweithio i nodi a gweithredu newidiadau sy'n lleihau effaith ar yr amgylchedd wrth wella profiad cleifion.

Un enghraifft yw'r newid o roi Nivolumab yn fewnwythiennol i'w roi'n isgroenol lle bo'n briodol yn glinigol. Cynhyrchodd y driniaeth IV flaenorol tua 1,194g o wastraff plastig fesul triniaeth, gydag effaith carbon sy'n cyfateb i'r ynni a ddefnyddir wrth ferwi tua 150 tegell. Mae'r dewis arall isgroenol yn lleihau gwastraff plastig i ryw 47g fesul triniaeth, sy'n cyfateb i ryw chwe thegell, gan greu arbedion amgylcheddol sylweddol ochr yn ochr â llai o amser yn y gadair a gwell profiad i gleifion.

Gwnaed cynnydd pellach trwy lwybrau rhoi gwaed Hemocromatosis Genetig (GH), gan alluogi gwaed a fyddai wedi'i daflu o'r blaen i gael ei ddefnyddio i gefnogi cleifion y mae angen trallwysiad arnynt. Mae clinigau a ddarperir yn nes at y cartref ac ar adegau mwy cyfleus yn lleihau teithio, yn rhyddhau cadeiriau gofal dydd ysbytai ac yn rhyddhau capasiti staff clinigol, gan ddarparu buddion ledled y system.

Thema 3 – Dileu Carbon

Dengys cynnydd o dan y thema hon gamau ymarferol i leihau allyriadau carbon ar draws gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i gyflawni 100% o oleuadau LED, gan arbed ynni sylweddol. Mae gwelliannau ychwanegol, gan gynnwys synwryddion golau dydd a symudiad, yn cael eu gweithredu i gwtogi ymhellach ar yr ynni a ddefnyddir wrth gynnal amgylcheddau gwaith diogel.

Hefyd, mae arloesedd o fewn gwasanaethau wedi dwyn buddion carbon mesuradwy. Enillodd Gwasanaeth Gwaed Cymru wobwr "Cynnyrch y Flwyddyn" yng Ngwobrau Cynaliadwydd GIG Cymru 2025 am Brosiect ELSA, a gyflwynodd ddyfeisiau oeri carbon isel, amlbro ar gyfer blychau cludo gwaed, gan gymryd lle iâ sych untro. Mae'r fenter hon wedi lleihau allyriadau carbon, lleihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd gweithredol.





Thema 4 – Seilwaith Cynaliadwy

Mae cynaliadwyedd yn parhau i gael ei wreiddio wrth gynllunio, cynnal a chadw a datblygu cyfalaf ystadau i sicrhau gwydnwch a pherfformiad amgylcheddol hirdymor.

Yn Nhonysguboriau, mae egwyddorion seilwaith cynaliadwy wedi'u gwreiddio i ddatblygiad y safle, gan gefnogi defnydd mwy effeithlon o ynni ac adnoddau wrth wella'r profiad i gleifion, rhoddwyr a staff.

Mae CGFn yn cynrychioli newid mawr mewn seilwaith gofal iechyd cynaliadwy. Bydd yr ôl troed cyffredinol yn cynyddu o ryw 17,700m² i 31,945m², ond mae modelu'n dangos 73% o ostyngiad yn y galw am wresogi dŵr domestig a dŵr poeth fesul metr sgwâr a 45% o ostyngiad yn y defnydd o ynni a reoleiddir fesul metr sgwâr, gan adlewyrchu dyluniad ynni-effeithlon a systemau carbon isel modern.

Thema 5 – Pontio i Ddyfodol o Ynni Adnewyddadwy

Mae cynnydd o dan y thema hon yn canolbwyntio ar leihau dibyniaeth ar adnoddau cyfyngedig a gwreiddio atebion carbon isel i seilwaith newydd a phresennol.

Mae CGFn yn integreiddio technolegau adnewyddadwy a charbon isel ar y safle, gan gynnwys paneli ffotofoltäig, toeau gwyrdd, a phympiau gwres o'r aer, gan leihau'r galw am ynni, cefnogi bioamrywiaeth a gwella cynaliadwyedd tymor hir.

Yn Nhonysguboriau, mae datblygu seilwaith yn archwilio ymgorffori pypiau gwres o'r aer a chanolfan ynni ar y safle, gan gefnogi cynhyrchu a dosbarthu ynni effeithlon.

Thema 6 – Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau

Mae gwaith o dan y thema hon wedi canolbwyntio ar leihau plastig untro a mabwysiadu dewisiadau amgen mwy cynaliadwy. Yn Nhonysguboriau, cyflwynwyd cwpanau papur newydd i leihau gwastraff plastig.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflawni prosiect ailgylchu cymhorthion cerdded mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Gwasanaeth Prawf, er mwyn adfer, adnewyddu ac aildefnyddio cymhorthion. Mae hyn yn lleihau gwastraff, yn lleihau'r galw am gynhyrchion newydd ac yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach trwy gydweithio.

Thema 7 – Cysylltu â Natur

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod gwerth natur wrth gefnogi llesiant a bioamrywiaeth. Hyrwyddir teithiau cerdded llesiant staff i'w hannog i ddefnyddio mannau awyr agored a chefnogi iechyd meddwl a chorfforol.

Gosodwyd cartrefi cynefin, gan gynnwys cartrefi draenogod a gwestai pryfed, ar draws pob safle, gan wella bioamrywiaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau â'i phartneriaeth â Ray of Light Cancer Support, gan gynnig gweithgareddau a chefnogaeth sy'n seiliedig ar natur i unrhyw un y mae canser wedi effeithio arno. Rydym hefyd wedi partneru ag Elusen Gwarchod Gloynnod Byw i gynnig saffaris bywyd gwyllt i staff. Yn



Nhonysguboriau, mae cwch gwenyn newydd wedi'i osod i gefnogi peillwyr ac iechyd ecosystemau.

Thema 8 – Gwneud Ein Teithio a'n Trafnidiaeth yn Wyrdd

Mae gweithredu o dan y thema hon yn cefnogi dewisiadau teithio iachach, carbon is i staff ac ymwelwyr. Ehangwyd cynllun Beicio i'r Gwaith i weithredu drwy gydol y flwyddyn, gan gynyddu hygyrchedd a chwalu rhwystrau tymhorol rhag cyfranogiad.

Ategwyd hyn gan weithgarwch ymgysylltu staff wedi'i dargedu, gan gynnwys sesiynau gyda Dr Bike, gan ddarparu cymorth ymarferol fel archwiliadau beiciau, cyngor cynnal a chadw a magu hyder i annog newid ymddygiad parhaus. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi llofnodi'r Siarter Teithio Llesol, gan atgyfnerthu ei hymrwymiad i deithio egniol a chynaliadwy. Ochr yn ochr â hynny, mae seilwaith gwefru cerbydau trydan (EV) wedi'i osod ar draws safleoedd yr Ymddiriedolaeth, gan gefnogi'r newid i gerbydau allyriadau isel a diogelu'r ystâd at y dyfodol.

Mae canlyniadau Arolwg Teithio'r Ymddiriedolaeth 2025, o'i gymharu â 2024, yn awgrymu symudiad graddol tuag at ddulliau cymudo mwy cynaliadwy, er bod defnyddio ceir yn parhau i fod yn drechaf. Yn arbennig, cynyddodd cymudo ar drenau i 6% yn 2025 o 1% yn 2024, tra bod cyfran y staff a oedd yn beicio i'r gwaith wedi dyblu o 4% i 8%. Gostyngodd cymudo mewn teithiau ceir gyrrwr yn unig o 82% yn 2024 i 74% yn 2025, sy'n dynodi symudiad cynnar ond cadarnhaol tuag at ymddygiadau teithio mwy cynaliadwy.

Thema 9 – Addasu i Newid Hinsawdd

Mae cynnydd o dan y thema hon wedi canolbwyntio ar gryfhau gwydnwch sefydliadol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda rheolwyr cynaliadwyedd ar draws GIG Cymru i ddatblygu set gyffredin o risgiau lefel uchel sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gefnogi cynllunio addasu cyson a chydlynol ar draws y system.

Mae ystyriaethau addasu i'r hinsawdd hefyd yn cael eu gwreiddio fwyfwy mewn cynlluniau cyfalaf, gyda phrosiectau'n ystyried gorboethi, llifogydd, rheoli dŵr a gwydnwch tymor hir yn rhan o ddylunio a chyflenwi.

Thema 10 – Ein Pobl fel Asiantau dros Newid

Mae ein pobl yn parhau i fod yn ganolog i Ragoriaeth Cynaliadwyedd. Mae rhaglen Celfyddydau mewn Iechyd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi llesiant wrth gynnwys staff, cleifion a chymunedau mewn cynaliadwyedd mewn ffyrdd creadigol a hygyrch.

Mae allgymorth cymunedol, gan gynnwys Jamborïau Cynaliadwy, wedi digwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae gweithgareddau fel adeiladu gwestai adar i'w defnyddio gartref, printio blodau a gweithdai creadigol eraill yn offeryn addysgol effeithiol, gan gynyddu ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd, bioamrywiaeth ac ailddefnyddio wrth gefnogi llesiant a chysylltiad cymunedol.

Mae cydymffurfedd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amgylcheddol yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn gyson uchel ac wedi cynyddu i **94.59%** yn 2025-2026.





Tasglu ar Ddatgeliad Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd nodi, asesu a rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi egwyddorion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) ac mae wedi ymrwymo i wella ei datgeliadau ariannol cysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â pholisi cenedlaethol, canllawiau GIG Cymru ac argaeledd data.

Mae'r datganiad hwn yn darparu trosolwg lefel uchel o ddull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin â TCFD, gan ganolbwyntio ar Lywodraethu a Metrigau a Thargedau, wedi'i adrodd ar sail cydymffurfio neu egluro gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael o brosesau adrodd presennol. Mae **Atodiad 2** yn rhoi mwy o fanylion am gydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth â'r argymhellion.

Llywodraethu

Mae dull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin â newid hinsawdd a chynaliadwyedd wedi'i wreiddio yn ei strwythurau llywodraethu a rheoli risg presennol.

• Goruchwyliaeth y Bwrdd a'r Weithrediaeth

Goruchwylir newid hinsawdd, datgarboneiddio a chynaliadwyedd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, gydag atebolrwydd arweinyddiaeth weithredol wedi'i aseinio trwy'r Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â risgiau strategol, ariannol a gweithredol.


• Integreiddio Strategol

Mae ystyriaethau hinsawdd wedi'u hintegreiddio i Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth, y Cynllun Tymor Canolig Integredig, Amcanion Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a gofynion cynllunio ehangach GIG Cymru. Mae hyn yn cefnogi aliniad rhwng cynaliadwyedd amgylcheddol, gwydnwch gwasanaeth tymor hir, cynaliadwyedd ariannol a chanlyniadau iechyd y boblogaeth.

• Rheoli Risg a Sicrwydd

Ystyrir risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys risgiau ffisegol (megis tywydd eithafol) a risgiau pontio (megis newidiadau polisi, rheoleiddio ac ariannol), drwy brosesau rheoli risg sefydledig yr Ymddiriedolaeth. Lle bo'n briodol, adlewyrchir y risgiau hyn mewn cofrestr risg corfforaethol a chyfarwyddiaeth ac maent yn cael eu huwchgyfeirio trwy fecanweithiau sicrwydd presennol.

Cefnogir dull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin â newid hinsawdd a chynaliadwyedd gan drefniadau llywodraethu clir a chymesur sy'n darparu goruchwyliaeth strategol, cyflawniad gweithredol a sicrwydd.



Mae'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn darparu goruchwyliaeth strategol ar weithredu ynglŷn â'r hinsawdd a datgarboneiddio, gan sicrhau cysondeb â Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth, blaenoriaethau cenedlaethol GIG Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Bwrdd yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu ehangach yr Ymddiriedolaeth ac yn rhoi sicrwydd i'r uwch arweinwyr ynghylch cynnydd, risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â newid hinsawdd.

Cefnogir y Bwrdd Gweithredu ar Hinsawdd gan amryw o grwpiau gweithredol a thematig, sy'n gyfrifol am symud y ddarpariaeth ymlaen ar lefel ymarferol. Mae rhain yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Grŵp Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015, sy'n cefnogi gweithredu a gwelliant parhaus system rheoli amgylcheddol yr Ymddiriedolaeth;
- tîm amlddisgyblaethol y Celfyddydau mewn Iechyd, sy'n cyfrannu at ddulliau cynaliadwy, ataliol ac ystyriol o lesiant o fewn yr amgylchedd clinigol a gofal; a
- thimau amlddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol, sy'n dwyn ynghyd arbenigedd clinigol a gweithredol i ymgorffori cynaliadwyedd a lleihau carbon mewn llwybrau clinigol, dylunio gwasanaethau a gweithgaredd gwella ansawdd.
- yr Arosfannau Cynaliadwyedd, sef sesiynau galw heibio misol sy'n cefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad staff, a gynhelir bob mis yng Nghanolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru Tonysguboriau, yn ogystal ag ar-lein er mwyn cyrraedd ein safleoedd ledled Cymru. Cefnogir y rhwydwaith gan weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys blwch derbyn e-bost cynaliadwyedd pwrpasol, sy'n helpu i rannu dysgu, casglu syniadau a gwreiddio arferion cynaliadwy ar draws yr Ymddiriedolaeth.

“Mae organogramau clir wedi’u datblygu ar gyfer y Bwrdd Gweithredu ar Hinsawdd a’i grwpiau ategol, gan nodi rolau, cyfrifoldebau a llinellau adrodd.

Mae organogramau clir wedi’u datblygu ar gyfer y Bwrdd Gweithredu ar Hinsawdd a’i grwpiau ategol, gan nodi rolau, cyfrifoldebau a llinellau adrodd. Ategir y trefniadau hyn gan Gylch Gorchwyl ffurfiol, sy’n diffinio cwrpas, atebolrwydd a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau. Adolygir y Cylch Gorchwyl yn flynyddol, neu’n amlach lle bo gofyn, er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas at y diben ac yn adlewyrchu disgwyliadau sefydliadol a chenedlaethol sy’n esblygu.

Drwy’r model llywodraethu strwythuredig hwn, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn sicrhau arweinyddiaeth, cydlynu a sicrwydd effeithiol ar gyfer gweithgaredd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd , gan gefnogi nodi a rheoli hinsawdd risgiau a chyfleoedd cysylltiedig â’r hinsawdd yn unol ag egwyddorion TCFD.

Metrigau a Thargedau

Ar hyn o bryd, mae’r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar ystod o fetrigau cynaliadwyedd amgylcheddol a dynnwyd o ofynion adrodd sefydledig GIG Cymru a’r sector cyhoeddus.

Metrigau

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	Adrodd ar allyriadau carbon Cwrpas 1, 2 a 3 drwy brosesau cyfrifyddu carbon cenedlaethol GIG Cymru ac adrodd ar ystadau. Adroddwyd drwy Net Sero. Cyflwynir adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.
Defnydd o Ynni	Monitro defnydd ynni ar draws yr ystâd, gan gefnogi mentrau effeithlonrwydd a lleihau allyriadau. Wedi’i adrodd drwy’r Fframwaith Rheoli Perfformiad (PMF) misol ac yn flynyddol drwy’r Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.
Gwastraff a Defnydd Adnoddau	Adrodd ar feintiau gwastraff a gwahanu gwastraff, gan gynnwys gwastraff clinigol ac anghlinigol, wedi’i lywio gan adroddiadau statudol a gweithredol. Wedi’i adrodd drwy’r Fframwaith Rheoli Perfformiad (PMF) misol ac yn flynyddol drwy’r Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.
Teithio a Chludiant	Mae’r Ymddiriedolaeth yn monitro agweddau ar deithio busnes a defnyddio fflyd, ac adroddir amdano drwy Adroddiadau Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cynnal Arolwg Teithio staff blynyddol.

Targedau

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyd-fynd ag uchelgeisiau datgarboneiddio GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y taflwybr hirdymor tuag at sero net, ac yn cydnabod bod newid hinsawdd yn risg strategol i ddarparu gwasanaethau, iechyd y boblogaeth a chynaliadwyedd ariannol.

Nodir dull yr Ymddiriedolaeth o gyrraedd targedau drwy ei Strategaeth Gynaliadwyedd, sydd wedi'i strwythuro o amgylch deg maes thema sy'n cwmpasu cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Gyda'i gilydd, mae'r themâu hyn yn darparu fframwaith strategol ar gyfer gweithredu ar draws y sefydliad, gan wreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd wrth wneud penderfyniadau, cynllunio gwasanaethau, ystadau, gweithlu, ymchwil a phartneriaethau.

O fewn y fframwaith hwn:

- Trafodir datgarboneiddio a lleihau effaith amgylcheddol ochr yn ochr â themâu ehangach fel effeithlonrwydd adnoddau, ystadau cynaliadwy, teithio a thrafnidiaeth, caffael, bioamrywiaeth, ymgysylltu â'r gweithlu a diwylliant.
- Mae'r Strategaeth yn cefnogi lleihau allyriadau tymor hir drwy gysylltu blaenoriaethau cynaliadwyedd â buddsoddiad cyfalaf, trawsnewid digidol, ailgynllunio gwasanaethau a datblygu'r gweithlu, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar fentrau amgylcheddol annibynnol.

Ar hyn o bryd, mae targedau penodol sy'n ymwneud â newid hinsawdd a lleihau allyriadau yn cael eu sbarduno'n bennaf drwy:

- Fframweithiau a safonau cenedlaethol, gan gynnwys cynlluniau datgarboneiddio GIG Cymru a pholisi Llywodraeth Cymru
- Strategaethau ystadau a seilwaith, gan gynnwys rhaglenni effeithlonrwydd ynni a chynlluniau cyfalaf carbon isel
- Buddsoddiad cyfalaf ac achosion busnes, sy'n ymgorffori ystyriaethau effaith carbon a chynaliadwyedd lle bo gofyn

Ar hyn o bryd, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gosod targedau TCFD penodol ar wahân i'r Ymddiriedolaeth, fel targedau ariannol cysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u mesur neu fetrigau risg pontio annibynnol. Mae hyn yn adlewyrchu cam presennol aeddfedrwydd data, cysondeb methodolegol ar draws y GIG, a'r dull cenedlaethol sy'n esblygu o weithredu TCFD.

Fodd bynnag, mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd yn darparu map llwybr clir ar gyfer datblygu metrigau a thargedau mwy pendant dros amser. Wrth i ansawdd data wella ac wrth i ganllawiau cenedlaethol esblygu, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu:

- Cryfhau'r cysylltiad rhwng ei deg thema cynaliadwyedd a chanlyniadau mesuradwy
- Gwellu cysondeb a chwmpas data defnyddio adnoddau a charbon, gan gynnwys meysydd fel allyriadau Cwmpas 3
- Gwellu'r gallu i fonitro cynnydd yn erbyn yr amcanion datgarboneiddio a gwydnwch tymor hir
- Alinio gosod targedau yn y dyfodol yn fwy penodol gyda datgeliadau TCFD a argymhellir ar sail cydymffurfio neu egluro



Drwy'r dull hwn, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn anelu at sicrhau bod ei thargedau'n realistig, dan arweiniad tystiolaeth ac wedi'u hintegreiddio i gynllunio strategol ehangach, gan gefnogi darpariaeth gofal iechyd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Ymddiriedolaeth wrth iddi drawsnewid i CGFn a pharhau i ddatblygu seilwaith yn Nhonysguboriau. Mae'r buddsoddiadau sylweddol hyn yn gyfle i ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gwydnwch a dylunio carbon isel i amgylcheddau gofal iechyd modern o'r cychwyn cyntaf, gan gefnogi cynaliadwyedd gwasanaeth tymor hir a phrofiad gwell i gleifion a staff.

Ochr yn ochr â'r trawsnewidiad hwn mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i wella ansawdd, cwmpas a chysondeb data cynaliadwyedd a chysylltiedig â'r hinsawdd dros amser. Mae gwelliant diweddar i uwchraddio'r holl oleuadau ar draws yr ymddiriedolaeth i LED yn enghraifft o'r ymrwymiad hwn, ac mae monitro parhaus o'r defnydd o ynni yn dangos gostyngiad mawr.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gydweithio â phartneriaid GIG Cymru a rhaglenni cenedlaethol i wella adrodd sy'n cydreded â TCFD, gan gydnabod bod galluoedd, methodoleg a systemau data ar draws y GIG yng Nghymru yn dal i aeddfedu. Mae'r dull hwn yn cefnogi gwelliant parhaus gan sicrhau bod datgeliadau'n parhau i fod yn gymesur, yn gywir ac yn ystyrlon.

Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd cynhwysfawr, wedi'i gyfieithu, ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

Perfformiad Ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd ei phedwar targed ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Gweler ein set lawn o Gyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026 yn Rhan 3 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Hysbysiadau System Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys (PES): Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o unrhyw hysbysiadau PES yn ystod y cyfnod adrodd.



Rheoliadau'r Gymraeg a Chydymffurfedd

Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gymraeg 2025-2026

Cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Gymraeg 2025-2026

Gallwn gadarnhau cynnydd mewn cydymffurfiaeth ar draws pob maes a nodwyd yn adroddiad blynyddol 2024-2025 gyda gwaith parhaus yn canolbwyntio ar feysydd fel recriwtio a chynllunio'r gweithlu. Y nifer fach o safonau'r Gymraeg sy'n parhau i fod yn fwy heriol yw safonau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyfathrebu. Fodd bynnag, diweddarwyd ein proses recriwtio ac yn 2026-2027 byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r broses hon yn ymwneud â chynnydd uniongyrchol mewn staff sydd â sgiliau gwell yn y Gymraeg.

Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn parhau i fod yn sail i'n dull gweithredu a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd yn 2026-2027. Mae'r egwyddor hon wrth wraidd ein darpariaeth ddwyieithog ac yn cefnogi cyflawni Safonau'r Gymraeg a fframwaith Mwy na geiriau.

Yn ystod 2025, cryfhaodd ein camau gweithredu'r dull hwn drwy gynyddu hyfforddiant staff a datblygu sgiliau. Fe wnaethom hefyd ddatblygu ein llwybr cleifion mewnol drwy gyflwyno Cynllun Clinigol newydd sy'n canolbwyntio ar ymgynghoriadau yn y Gymraeg i gleifion a rhoddwyr.

Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i symleiddio ein prosesau teleffoni, gan gynnwys o fewn cynlluniau ar gyfer CGFn. O fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru, rydym wedi datblygu gwaith i gryfhau trefniadau dwyieithog ar gyfer rhoi gwaed. Eleni, fe wnaethom gytuno ar lwybr teleffoni Cymraeg symlach a'i weithredu, sy'n cyd-fynd â'n dull gweithredu Saesneg. O ganlyniad, rydym bellach yn cynnig gwasanaeth sgrinio rhoddwyr cwbl ddwyieithog dros y ffôn, gan ddarparu mynediad cyfartal o'r cychwyn cyntaf.

Fe wnaethon ni hefyd gryfhau prosesau cefnogi drwy ddiweddarau ein gweithdrefn gwyno i gynnwys adran fwy manwl yn y Gymraeg. Yn ogystal, adnewyddwyd ein proses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod anghenion a hawliau'r Gymraeg yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl.

Sgiliau a Hyfforddiant staff

Ers mis Mawrth 2026, rydym yn cydymffurfio 96% o ran cofnodi'r tair lefel cymhwysedd yn y Gymraeg o fewn ESR.


Mae ein cydymffurfedd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg hefyd yn uchel, sef 93% ledled yr Ymddiriedolaeth.

Mae ein partneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a'r sefydliad cenedlaethol, Dysgu Cymraeg, yn parhau i dyfu. Yn sgil y bartneriaeth, bu tiwtor Cymraeg ar gael i ni ac rydym wedi gallu cynnig hyfforddiant iaith am ddim i staff ar wahanol lefelau. Byddwn yn parhau i gryfhau hyn dros y blynyddoedd nesaf.



Yn ystod 2025, cryfhaodd ein camau gweithredu'r dull hwn drwy gynyddu hyfforddiant staff a datblygu sgiliau. Fe wnaethom hefyd ddatblygu ein llwybr cleifion mewnol drwy gyflwyno Cynllun Clinigol newydd sy'n canolbwyntio ar ymgynghoriadau yn y Gymraeg i gleifion a rhoddwyr.





Mae dealltwriaeth staff o’r gefnogaeth sydd ar gael wedi cynyddu ac mae trafodaethau ynghylch codi hyder ac anghenion staff yn digwydd yn rheolaidd. Mae’r bartneriaeth â Choleg Gwent, Aneurin Bevan a Dysgu Cymraeg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, a bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau â’i hymdrechion i gynyddu’r cyfleoedd dysgu hyn i gefnogi amcanion fframwaith ‘Mwy na Geiriau’ Llywodraeth Cymru. Dechreuodd ein partneriaeth dan arweiniad tiwtoriaid ym mis Awst 2025 ac mae ein ffigurau hyfforddi, er eu bod yn fach, yn galonogol.

Staff sy’n siarad Cymraeg y nodwyd bod ganddynt sgiliau lefelau 3-5, y sgiliau sydd eu hangen i gyfathrebu’n hyderus â chleifion a rhoddwyr, ym mis Mawrth 2026 yw:

Staff sy’n siarad Cymraeg y nodwyd bod ganddynt sgiliau lefelau 3-5

	3 - Canolradd	%	4 - Uwch	%	5 - Hyfedredd	%	Cyfanswm
IAITH y GIG Gwrando / Siarad Cymraeg	57	29%	58	30%	80	41%	195
IAITH y GIG Darllen Cymraeg	50	26%	60	32%	80	42%	190
IAITH y GIG Ysgrifennu Cymraeg	47	29%	42	26%	73	45%	162
Cyfanswm	154	28%	160	29%	233	43%	547

Adrodd ar sgiliau iaith ledled yr Ymddiriedolaeth
(gwasanaethau craidd yn unig)

Cymraeg (Gwrandu/Siarad) 31-Mawrth-2026

Cymraeg (Gwrandu/Siarad)	Nifer	Nifer y bobl	%
0 - Dim Sgiliau	1385	1984	69.81%
1 - Mynediad	258	1984	13.00%
2 - Sylfaen	80	1984	4.03%
3 - Canolradd	58	1984	2.92%
4 - Uwch	58	1984	2.92%
5 - Hyfedredd	80	1984	4.03%
Gallu a Nodwyd	1919	1984	96.72%
Heb Nodi	65	1984	3.28%
Cyfanswm Terfynol	1984	1984	100%

Mae gwybod sgiliau ein gweithlu yn ein galluogi i gynllunio yn unol â hynny ar gyfer swyddi gwag. Mae'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â phob Bwrdd Iechyd arall, yn defnyddio'r Cofnod Staff Electronig i gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg. Eleni rydym wedi ymgorffori'r angen i gofnodi'r sgiliau hyn ac ar hyn o bryd mae gennym gyfradd gydymffurfio dros 96%. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i nodi meysydd ar gyfer recriwtio ac anghenion iaith ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Dull recriwtio

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	2
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	113
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	2
Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	7

Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2025 - 31/03/2026 124

Gwasanaeth Gwaed Cymru 2025-2026

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	92
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd.	0
Nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	2

Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2025 - 31/03/2026 94

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	1
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	175
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd 0	
Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	3

Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2025 - 31/03/2026 179



Mae ein ffigurau recriwtio yn parhau i ddangos ffocws ar 'Dymunol' ac er bod ein proses recriwtio yn dangos gwell dealltwriaeth o asesu iaith, nid yw eto'n trosi'n newidiadau sy'n cael eu gwneud ar lefel penderfyniadau recriwtio.

Rydym yn cydnabod bod angen canolbwyntio ar asesiadau iaith ac asesu eu llwyddiant cyn hysbysebu ac yn y dyfodol byddwn yn ymchwilio i bosibilrwydd gwneud hyn yn rhan o'r broses TG.

Eleni rydym wedi gweithio'n agos gyda'r adrannau i ymgorffori dealltwriaeth ddyfnach o ofynion iaith, a byddwn yn parhau i gryfhau'r ddealltwriaeth a'r broses hon, trwy ddarparu canllawiau a chefnogaeth i reolwyr recriwtio a dysgu gan ein partneriaid ar draws y GIG.



yn cydymffurfio
93%
o ran y nifer sy'n
manteisio ar hyfforddiant
ymwybyddiaeth o'r
Gymraeg a gyflwynwyd
gan Lywodraeth Cymru.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Rydym yn falch o nodi bod yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn cydymffurfio 93% o ran y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein rhaglen ymsefydlu 'Croeso' yn parhau i roi cyfle i staff newydd ddeall anghenion gwasanaethau dwyieithog. Rhwir cyfle i drafod safonau'r Gymraeg a gwreiddio'r Gymraeg a'i diwylliant ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae ein holl hyfforddiant a ddarperir trwy'r system Cofnod Staff Electronig ar gael yn y Gymraeg a gall ein staff ddewis defnyddio eu hiaith ar draws y system yn Genedlaethol.

Cyfieithu

Mae'r tîm cyfieithu yn parhau i asesu'r broses gyfieithu'n ddiwyd ac edrych ar ffyrdd o wella'r gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon rydym yn fwy rhagweithiol byth, gan weithio gyda thimau penodol i sicrhau bod amseroedd cyfieithu'n cael eu cadw o fewn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a gwella'r amserlenni hynny drwy dargedu cyfieithiadau rheolaidd fel cyfathrebu allanol a phostiadau cyfryngau cymdeithasol.


Mae ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi ein galluogi i leihau ein ffigurau cyfieithu yn sylweddol. O'r naill flwyddyn i'r llall, bydd hyn yn golygu llai o gost i'r Ymddiriedolaeth a dull mwy trefnus o ymdrin â'r broses gyfieithu.

Bydd ffigurau cyfieithu yn gostwng gan fod y broses bellach yn nodi cyfieithiadau'r gorffennol ac felly mae llawer llai o bethau sydd angen eu cyfieithu. Mae'n system y byddwn yn ei pharhau yn 2026-2027.



Ystadegau ar gyfer cyfieithu eleni

Nifer y Geiriau a Gyfieithwyd



Roedd nifer yr ymweliadau â thudalennau Cymraeg yn y flwyddyn adrodd hon yn

2,380

Pryderon a Chwynion

Yn dilyn ffocws mwy cadarn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar sut i wneud cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth archwiliad o'i phroses bresennol.

Mynychodd swyddogion cwynion sesiynau ymwybyddiaeth ar-lein y Comisiynydd a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac ynghyd â thîm y Gymraeg fe wnaethom gyfrannu at y broses genedlaethol newydd a diweddarau ein gwybodaeth ar y Rhyngwrdd a'r Fewnwrdd.

Yn 2025-2026 cafodd yr Ymddiriedolaeth un gŵyn ynghylch gwasanaeth casglu rhoddwyr yn y Gymraeg. Cafodd y gŵyn sylw o dan y broses Gweithio i Wella a'i datrys.

Dyma nifer yr ymweliadau â'n gwefan:

Roedd nifer yr ymweliadau â thudalennau Cymraeg yn y flwyddyn adrodd hon yn 2,380 neu 1.48% o gyfanswm yr ymweliadau.

Mae edrychiadau Gwasanaeth Gwaed Cymru yn 436,907 ac o'r rheini mae 3,756 yn y Gymraeg sef 0.86% o'r edrychiadau. Gobeithiwn y bydd y newidiadau a wnaed i gynhwysiant y wefan yn arwain at fwy o ymweliadau yn y dyfodol.

Roedd gwaith partneriaeth fewnol cryf yn golygu bod y problemau wedi'u datrys yn gyflym gan ein galluogi i sicrhau bod gwybodaeth i gleifion a rhoddwyr ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Rydym yn parhau i fonitro hygyrchedd i gleifion ac yn edrych ymlaen at wreiddio newidiadau i deleffoni yn 2026-27 yn natblygiad y Ganolfan Ganser newydd yn 2029.

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cael 4.6% o'i alwadau gan roddwyr yn y Gymraeg gyda'r gallu i ddarparu ymateb dwyieithog i'r galwadau hyn. Ar draws yr Ymddiriedolaeth, mae staff yn ymwybodol o'r angen i ymateb yn ddwyieithog, ac mae nifer o ddogfennau canllaw wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo a chefnogi staff.



Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cael

4.6%

o'i alwadau gan roddwyr yn y Gymraeg



Mae Ehangu Mynediad, gan ddarparu cyfleoedd i hyrwyddo a chwrdd â staff posibl y GIG yn y dyfodol, yn rhoi llwyfan arall inni rannu cyfleoedd yr Ymddiriedolaeth.



Gweithgaredd Hyrwyddo

Eleni, drwy ein cwrs sefydlu 'Croeso' rydym wedi ymgysylltu â 326 o aelodau staff newydd eu penodi. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyflwyno staff i'r Ymddiriedolaeth a'i gwerthoedd, gan gynnwys pwysigrwydd gofal dwyieithog.

Mae gweithgareddau hyrwyddo'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi staff ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Bu'n flwyddyn lwyddiannus gyda phresenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau mewnol ac allanol.

Roedd ein presenoldeb yn yr Eglwys Genedlaethol gyda phartneriaid y GIG yng Nghymru yn darparu llwyfan eithriadol ar gyfer rhannu arferion gorau ac amlygu gwaith yr Ymddiriedolaeth.

Dros yr wythnos mynychodd y Gweinidog Iechyd y gweithgareddau, a chynhaliwyd digwyddiadau gennym i lansio agweddau ar fframwaith 'mwy na geiriau' a Dysgu Cymraeg yn y gwaith. Roedd hefyd yn gyfle inni hyrwyddo gwaith ein his-adrannau.

Mae Ehangu Mynediad, gan ddarparu cyfleoedd i hyrwyddo a chwrdd â staff posibl y GIG yn y dyfodol, yn rhoi llwyfan arall inni rannu cyfleoedd yr Ymddiriedolaeth. Eleni, aethom i nifer o ffeiriau Gyrfaedd a buom yn siarad â phobl ifanc am yr Ymddiriedolaeth a sut olwg sydd ar yrfa yn y GIG. Hyd yn hyn rydym wedi cyfathrebu â thros 4,000 o bobl ifanc mewn ysgolion a thros 3,000 mewn Prifysgolion a Cholegau.

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi eleni gyda chwis staff ar-lein a bwydlen ddathlu yn GCF.

Eleni rydym wedi datblygu cyfres o fideos mewnol ar gyfer staff yn llwyddiannus. Nod y fideos yw hysbysu staff am y gwaith i gefnogi darpariaeth ddwyieithog yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cleifion a rhoddwyr.

Wedi'i sbarduno gan Wasanaeth Gwaed Cymru, y pedwerydd fideo hyrwyddo oedd 'Cwrdd â'r tîm cyfieithu'. Hyrwyddwyd hyn ar fewnryd yr Ymddiriedolaeth a chynigiodd gyfle i staff gyfarfod â'r tîm a dysgu o'u proses gyfieithu. Bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i edrych ar ffyrdd eraill o hyrwyddo'r gwasanaethau yn rhan o'i ymgyrch i gefnogi staff.



Mae'r blaenoriaethau o 2026 ymlaen yn cynnwys:

- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Choleg Gwent a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu hyfforddiant i staff yn rhad ac am ddim, gan gryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog drwy gynyddu hyder staff a gwreiddio dull cadarnhaol o ran sgiliau Cymraeg ar bob lefel. Bydd hyn hefyd yn cefnogi uchelgais Mwy na Geiriau i bob aelod o staff yn y GIG gael dealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer swydd tiwtor Cymraeg i gynnal hyfforddiant penodol i'r Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn genedlaethol.
- Archwilio'r ddarpariaeth hyfforddiant terminoleg glinigol i staff casglu rhoddwyr, i gefnogi'r broses o ddarparu ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwreiddio Cynllun Ymgynghori Clinigol yr Ymddiriedolaeth yn elfen ganolog o osod blaenoriaethau'r Gymraeg. Mae ein partneriaeth barhaus â Chomisiynydd y Gymraeg wedi cefnogi datblygiad cynllun gweithredu realistig ac y gellir ei gyflawni mewn perthynas â Safon 110; bydd hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Bydd is-adrannau'n cefnogi'r ddarpariaeth drwy eu grwpiau Cymraeg.
- Gwreiddio ein proses recriwtio newydd i gefnogi darparu gwasanaethau dwyieithog a sicrhau bod y sgiliau cywir ar waith ar draws rolau a lleoliadau.
- Cynnal cynlluniau gweithlu ar gyfer sgiliau Cymraeg, gan gynnwys cynnal cyfradd sgiliau Cymraeg ein staff uwchlaw 90% er mwyn llywio'r capasiti presennol ac anghenion y dyfodol. Byddwn yn datblygu cynllun gweithlu sy'n integreiddio ymwybyddiaeth, recriwtio a hyfforddiant o ran y Gymraeg, yn unol ag anghenion clinigol ein gwasanaethau.
- Monitro trefniadau mewnol drwy alwadau siopwr dirgel yn unol â Safonau'r Gymraeg a chefnogi gweithgorau is-adrannol i ddatblygu uchelgeisiau ar gyfer ddarpariaeth ddwyieithog gyson ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Rydym yn parhau i symud o ddull adweithiol o ddarparu dwyieithog tuag at gynllunio rhagweithiol, wedi'i gefnogi gan waith partneriaeth cryfach. Bydd ymgysylltu parhaus â Chomisiynydd y Gymraeg a chydredeg â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn parhau i lywio'r ddarpariaeth wrth i ni edrych ymlaen at 2026-2027.




Casgliad ac Edrych Ymlaen

Mae'r adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn nodi perfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer 2025-26. Mae'n disgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi pwyslais cryf ar ei threfniadau rheoli perfformiad a sut mae hyn yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod 2025–2026, rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ffocws cryf ar gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol gan hefyd gryfhau'r sylfeini sefydliadol sy'n ofynnol i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2026–2029. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd ar raglenni galluogi mawr ar draws seilwaith, systemau digidol, cynllunio'r gweithlu a thrawsnewid gwasanaethau. Mae datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn – gan gynnwys gweithgaredd parodrwydd ar gyfer CGFn, cynnydd ar Raglen Seilwaith Tonysguboriau, caffael System Gyfrifiadurol newydd y Sefydliad Gwaed, a pharatoi ar draws y system ar gyfer mabwysiadu therapïau datblygedig – wedi gosod yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa dda i drawsnewid yn gynaliadwy wrth barhau i ddarparu gofal o safon i gleifion a rhoddwyr.

Dros y tair blynedd nesaf, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a chomisiynwyr yr Ymddiriedolaeth, bydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn gwreiddo datblygiad cyffrous wrth i'r gwasanaethau craidd yn GCF symud i'r CGFn yn yr Eglwys Newydd a bwrw ymlaen â datblygu cyfleusterau newydd a modern ar gyfer ein Gwasanaeth Gwaed.

Bydd y newidiadau seilwaith mawr hyn yn cefnogi ein huchelgais i ddarparu gwasanaethau o'r Radd Flaenaf i'n cleifion a'n rhoddwyr a chynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i wella effeithlonrwydd ac ystod y triniaethau a'r gwasanaethau sydd ar gael i'n cleifion a'n rhoddwyr.



Atodiad 1

Trosolwg o Berfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer 2025-2026

Parth Ansawdd	Cerdyn Sgorio Diogelwch ar draws yr Ymddiriedolaeth			Perfformiad ym mis Mawrth 2026			Cydymffurfedd yn erbyn y Targed neu'r Safon	
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Llinell Sylfaen Mawrth 23	Targed	Gwirione -ddol	Sefyllfa yn ystod y Mis	Tuedd data cronnol
Diogel	Cyfanswm yr Heintiau a Gaffaelwyd yn Felindre (VAI) ar draws pob math o facteremia (targed CIC 2024 (38)) Cronnus 25/26 yn erbyn 24/25	Cenedlae -thol	Bob mis	23/24 Sylfaen 13	<13 24/25	3 25/26	✓	→
	Meincnod Marwolaethau 30 Diwrnod SACT	Iachael	Bob mis	2.00%	2.00%	0.172% Tach	✓	→
	Marwolaethau Clefion Mewnol Targed yn cael ei ddatblygu/i'w gytuno	Clefion Mewnol	Bob mis	N/A	N/A	4 Tach	✓	→
	Nifer y Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol	Cenedlae -thol	Bob mis	0	0	0	✓	✓
	Adweithiau a Digwyddiadau Anffafriol Difrifol yn ymwneud â Gwaed (SABRE) Gwasanaeth Gwaed Cymru a adroddwyd i'r rheoleiddiwr / awdurdod trwyddedu	Lleol	Bob mis	0	-	3	✗	↓
	Camau Gweithredu Hwyr o gamau gweithredu agored Adweithiau a Digwyddiadau Anffafriol Difrifol yn ymwneud â Gwaed (SABRE) / Adweithiau neu Ddigwyddiadau Anffafriol Difrifol (SAEAR)	Lleol	Bob mis	Newydd	<5%	8.6%	✗	↓
	Nifer y digwyddiadau sy'n sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd	Cenedlae -thol	Bob mis	0	0	0	✓	→
Allwedd Symbolau: Yn ystod y Mis = Cydymffurfio ✓ Heb gydymffurfio ✗ Tuedd data cronol (15 mis) = Yn gwell a ↑ sefydlog → yn amrywio ↗ yn dirywio ↓								

Parth Ansawdd	Cerdyn Sgorio Amseroldeb ar draws yr Ymddiriedolaeth			Perfformiad ym mis Mawrth 2026			Cydymffurfedd yn erbyn y Targed neu'r Safon	
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Llinell Sylfaen Mawrth 23	Targed	Gwirion -eddol	Sefyllfa yn ystod y Mis	Tuedd data cronnol
Amserol	Cleifion Radiotherapi Wedi'u Trefnu sy'n cael eu Trin 80% o fewn 14 Diwrnod a 100% o fewn 21 Diwrnod	Cenedlae -thol	Bob mis	29% 47%	80% 100%	N/A 82%	✗	↑
	Cleifion Radiotherapi Rheoli Symptomau Brys sy'n cael eu Trin 80% o fewn 2 ddiwrnod a 100% o fewn 7 diwrnod	Cenedlae -thol	Bob mis	6% 50%	80% 100%	N/A 69%	✗	↑
	Cleifion Radiotherapi Brys sy'n cael eu Trin 80% o fewn 1 diwrnod a 100% o fewn 2 ddiwrnod	Cenedlae -thol	Bob mis	94% 100%	80% 100%	100% 100%	✓	→
	Amseroedd Cwblhau Gwasanaeth Gwaed Cymru – cynenedigol	Arfer Gorau	Bob mis	96%	90%	92.1%	✓	↓
	Amseroedd Cwblhau Gwasanaeth Gwaed Cymru – Seroleg Cyfeirio Celloedd Coch	Cenedlae -thol	Bob mis	70%	90%	97%	✓	↓
	Amseroedd Cwblhau Gwasanaeth Gwaed Cymru – Sgrinio RHD Ffetws	Arfer Gorau	Bob chwarter	Newydd	90%	100%	✓	→

Allwedd Symbolau: Yn ystod y Mis = Cydymffurfio ✓ Heb gydymffurfio ✗ Tuedd data cronol (15 mis) = Yn gwella ↑ sefydlog → yn amrywio ↕ yn dirywio ↓

Parth Ansawdd	Cerdyn Sgorio Effeithiolrwydd ar draws yr Ymddiriedolaeth			Perfformiad ym mis Mawrth 2026			Cydymffurfedd yn erbyn y Targed neu'r Safon	
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Llinell Sylfaen	Targed	Gwirion -eddol	Sefyllfa yn ystod y Mis	Tuedd data cronnol
Effeithiol	Nifer yr Achosion o Oedi ar Lwybr Gofal Canser	Cenedlae -thol	Bob mis	1	0	3	✗	→
	Galw clinigol am gelloedd coch wedi'i fodloni (% wedi'i gynhyrchu hyd at gyhoeddi)	Arfer Gorau	Bob mis	104%	100%	97%	✗	→
	Galw clinigol am blatennau wedi'i fodloni (% wedi'i gynhyrchu hyd at gyhoeddi)	Arfer Gorau	Bob mis	133%	100%	112%	✓	↓
	Gwirfoddolwyr bôn-gelloedd newydd	Cenedlae -thol	Bob mis	3341	333	770	✓	↑
	Rhoddwyr Afferesis Newydd	Lleol	Bob chwarter	21	14	14	✓	↓

Allwedd Symbolau: Yn ystod y Mis = Cydymffurfio ✓ Heb gydymffurfio ✗ Tuedd data cronol (15 mis) = Yn gwella ↑ sefydlog → yn amrywio ↕ yn dirywio ↓

Parth Ansawdd	Cerdyn Sgorio Effeithiolrwydd ar draws yr Ymddiriedolaeth			Perfformiad ym mis Mawrth 2026			Cydymffurfedd yn erbyn y Targed neu'r Safon	
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Llinell Sylfaen Mawrth 23	Targed	Gwirion- eddol	Sefyllfa yn ystod y Mis	Tuedd data cronnol
Effeithlon	% amser gweithredu systemau digidol hanfodol (% argaeledd yn ôl gwasanaeth, ac eithrio ffenestri cynnal a chadw wedi'u cynllunio)	Lleol	Bob mis	N/A	99%	N/A	✓	↕
	Balans Ariannol – cyflawni rhagolwg yr Ymddiriedolaeth (£k) yn unol â'r proffil gwariant refeniw	Cenedlae- thol	Bob mis	£0	£0	£33k	✓	↕
	Gwariant yr Ymddiriedolaeth (£k) ar staff Banc ac Asiantaeth yn erbyn proffil targed y gyllideb	Cenedlae- thol	Bob mis	£180k	£180k	£337k	✗	↑
Allwedd Symbolau: Yn ystod y Mis = Cydymffurfio ✓ Heb gydymffurfio ✗ Tuedd data cronno1 (15 mis) = Yn gwella ↑ sefydlog → yn amrywio ↕ yn dirywio ↓								

Parth Ansawdd	Cerdyn Sgorio Effeithiolrwydd ar draws yr Ymddiriedolaeth			Perfformiad ym mis Mawrth 2026			Cydymffurfedd yn erbyn y Targed neu'r Safon	
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Llinell Sylfaen Mawrth 23	Targed	Gwirion -eddol	Sefyllfa yn ystod y Mis	Tuedd data cronnol
Teg	Amrywiaeth y Gweithlu – % Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	Lleol	Bob chwarter	5.18%	6%	7.81%	✓	↑
	Amrywiaeth y Gweithlu – % y Bobl ag Anabledd o fewn y gweithlu	Lleol	Bob chwarter	4.63%	22%	7.56%	✗	↑
	% o'r Gweithlu sydd wedi datgan y gallu i Wrando/Siarad Cymraeg	Cenedlae -thol	Bob chwarter	89.37%	100%	96.72%	✗	↑
Allwedd Symbolau: Yn ystod y Mis = Cydymffurfio ✓ Heb gydymffurfio ✗ Tuedd data cronrol (15 mis) = Yn gwella ↑ sefydlog → yn amrywio ⇅ yn dirywio ↓								

Parth Ansawdd	Cerdyn Sgorio Profiad ar draws yr Ymddiriedolaeth			Perfformiad ym mis Mawrth 2026			Cydymffurfedd yn erbyn y Targed neu'r Safon	
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Llinell Sylfaen Mawrth 23	Targed	Gwirion-eddol	Sefyllfa yn ystod y Mis	Tuedd data cronol
Canolbwyntio ar yr unigolyn	% o Gleifion sy'n Graddio Profiad yn GCF fel da neu dda iawn	Safon Proffesiynol	Bob mis	95	85%	98%	✓	→
	% o bryderon 'ffurfiol' ynghylch GCF yr ymatebwyd iddynt o fewn 30 diwrnod gwaith	Lleol	Bob mis	100	85%	75%	✗	→
	Rhoddwyr gwaed cyflawn sy'n graddio eu profiad fel un rhagorol	Gwasanae -thau Gwaed y DU	Bob mis	95%	85%	91%	✓	↑
	Datrys pryderon ffurfiol Gwasanaeth Gwaed Cymru o fewn amserlen rheoliadau 'Gweithio i Wella'	Cenedlae -thol	Bob mis	100%	100%	100%	✓	→
	% y cydymffurfedd ag Adolygiadau Gwerthuso Datblygiad Personol (AGDP) gyda'r gwerthusiad wedi'i gynnal gan reolwyr	Safon Proffesiynol	Bob mis	73%	85%	84%	✗	↕
	% Cyfartaledd treigl lefelau Absenoldeb Salwch Staff	Cenedlae -thol	Bob mis	6.22%	3.54% 4.70%	5.54%	✗	↑
	Nifer y digwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol yn erbyn staff ar draws yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2025/26	Lleol	Bob mis	N/A	27 25/26	5 Hyd 30 cum	✗	↓

Allwedd Symbolau: Yn ystod y Mis = Cydymffurfio ✓ Heb gydymffurfio ✗ Tuedd data cronol (15 mis) = Yn gwella ↑ sefydlog → yn amrywio ↕ yn dirywio ↓



Atodiad 2

Datganiad Datgeliad Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd 2025-2026

1) Llywodraethu

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir a) Disgrifiwch oruchwyliaeth y bwrdd o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	Wrth ddisgrifio goruchwyliaeth y bwrdd o faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, dylai sefydliadau ystyried cynnwys trafodaeth o'r canlynol:				
	prosesau a pha mor aml y mae'r bwrdd a/neu bwyllgorau'r bwrdd (e.e., pwyllgor archwilio, risg, neu bwyllgorau eraill) yn cael gwybod am faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd;		Adrodd rheolaidd drwy brosesau CDS, ac Adrodd Sero Net i Lywodraeth Cymru. Adroddiad Uchafbwyntiau Rheolaidd ac Adroddiadau Fframwaith Rheoli Perfformiad.	Asesiadau risg adrannol yn seiliedig ar newid hinsawdd ac addasu.	Tîm Cynaliadwyedd
	a yw'r bwrdd a/neu bwyllgorau'r bwrdd yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wrth adolygu ac arwain strategaeth, cynlluniau gweithredu mawr, polisiau rheoli risg, cyllidebau blynyddol, a chynlluniau busnes yn ogystal â gosod amcanion perfformiad y sefydliad, monitro gweithrediad a pherfformiad, a goruchwyllo gwariant cyfalaf mawr, caffaeliadau, a gwarediadau; a		Mae gan yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Ymddiriedolaeth, gydag amcan strategol sy'n ymroddedig i gynaliadwyedd, a Strategaeth Alluogi sy'n ymroddedig i fap trywydd manwl ar gyfer Strategaeth Gynaliadwyedd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lansio'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd i oruchwyllo materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.	- Parhau i weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (a ddatblygwyd i gyflawni pob un o'r deg thema yn y Strategaeth Gynaliadwyedd) - Roedd y Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn cynnwys amrywiaeth o gydweithwyr, gan gynnwys Digidol, Cynllunio Cyfalaf, Cyllid a Chaffael. - Bydd ffocws ar Gynllunio Addasu i'r Hinsawdd – gan fapio rhaglenni cyfredol i nodi bylchau mewn cynllunio addasu a lliniaru.	- Tîm Cynaliadwyedd - Aelodau'r Bwrdd
	sut mae'r bwrdd yn monitro ac yn goruchwyllo cynnydd yn erbyn nodau a thargedau i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.		Adrodd yn rheolaidd trwy Adroddiadau Uchafbwyntiau, Fframwaith Rheoli Perfformiad. Yn ogystal â hyn, mae cyfathrebu a digwyddiadau'n cael eu dosbarthu'n rheolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lansio'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd i oruchwyllo materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd, ac mae hwn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol. Aelod Annibynnol ar gyfer Cynaliadwyedd wedi'i enwi. Wedi'i gyhoeddi ar y dudalen we gyhoeddus ac mae aelod annibynnol o'r Bwrdd wedi'i recriwtio i fod yn hyrwyddwr.	- Archwilio cyfleoedd ar gyfer Sesiwn Datblygu'r Bwrdd - Parhau i fod yn weladwy trwy adrodd. - Briffiau rheolaidd i'r Aelod Annibynnol ar gyfer Cynaliadwyedd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r holl waith.	- Tîm Cynaliadwyedd - Aelodau'r Bwrdd - Aelod Annibynnol ar gyfer Cynaliadwyedd

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir b) Disgrifiwch rôl y rheolwyr wrth asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	Wrth ddisgrifio rôl rheolwyr sy'n gysylltiedig ag asesu a rheoli materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, dylai sefydliadau ystyried cynnwys y wybodaeth ganlynol:				
	a yw'r sefydliad wedi neilltuo cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i swyddi neu bwyllgorau lefel rheoli; ac, os felly, a yw'r swyddi neu'r pwyllgorau rheoli hynny'n adrodd i'r bwrdd neu i bwyllgor o'r bwrdd ac a yw'r cyfrifoldebau hynny'n cynnwys asesu a/neu reoli materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd;		Paratôdd yr Ymddiriedolaeth y Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd i fonitro gweithrediad y Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth. Mae'r ailstrwythuro llywodraethu hwn (a oedd yn cael ei fonitro'n flaenorol trwy'r Grŵp Rheoli Ystadau) yn ceisio rhoi mwy o sicrwydd a chraffu ar effeithiau a phrosiectau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Y Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau yw'r arweinydd Gweithredol dros Gynaliadwyedd. Papurau rheolaidd a geir gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol gan gynnwys Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau, Adroddiadau Rheoli Perfformiad ac adroddiadau blynyddol ar allyriadau ac adroddiadau eraill sy'n ymwneud â'r hinsawdd.		- Tîm Cynaliadwyedd - Cyfarwyddwr Trawsnewid
	disgrifiad o'r strwythur(au) sefydliadol cysylltiedig;		Mae llywodraethu hinsawdd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei arwain gan y Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd, sy'n darparu goruchwyliaeth strategol o weithredu ar newid hinsawdd a datgarboneiddio yn unol â'r Strategaeth Gynaliadwyedd a blaenoriaethau cenedlaethol. Cefnogir y Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd gan nifer o grwpiau gweithredol, gan gynnwys Grŵp Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015, tîm amlddisgyblaethol y Celfyddydau mewn lechyd, a Thimau Amlddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol, sy'n cefnogi cyflawni a gwreiddio cynaliadwyedd mewn ymarfer gweithredol a chlinigol. Sefydlwyd siartiau sefydliadol clir ar gyfer y Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd a'i grwpiau cefnogol, wedi'u cefnogi gan Gylch Gorchwyl ffurfiol a adolygir yn flynyddol, neu yn ôl y gofyn, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn addas at y diben.	Adolygiad Blynyddol [neu pan fo angen]	Tîm Cynaliadwyedd
	prosesau lle mae rheolwyr yn cael gwybod am faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd; a		Gwybodaeth a gafwyd drwy Bapurau'r Bwrdd a digwyddiadau cyfathrebu ac ymgysylltu.		
	sut mae rheolwyr (trwy swyddi penodol a/neu bwyllgorau rheoli) yn monitro materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.		Gwybodaeth a gafwyd drwy Bapurau'r Bwrdd a digwyddiadau cyfathrebu ac ymgysylltu.		

2) Strategaeth

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir a) Disgrifiwch y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r sefydliad wedi'u nodi dros y tymor byr, canolig a hir.	Dylai sefydliadau ddarparu'r wybodaeth ganlynol:				
	- disgrifiad o'r hyn y maent yn ei ystyried yn orwelion amser perthnasol tymor byr, canolig a hir, gan ystyried oes ddefnyddiol asedau neu seilwaith y sefydliad a'r ffaith bod materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn aml yn dod i'r amlwg dros y tymor canolig a'r tymor hwy		Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd. Wedi'i gynnwys yn y cynllunio ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, Canolfan Loeren Radiotherapi, a Phrosiect Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau.		- Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol - Cymorth Ystadau - Tîm Cynaliadwyedd
	- disgrifiad o'r materion penodol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a allai godi ym mhob cyfnod amser (tymor byr, canolig a hir) a allai gael effaith ariannol sylweddol ar y sefydliad		Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, sy'n cael eu hintegreiddio i'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (sydd wedi'u costio).		- Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol - Cymorth Ariannol - Tîm Cynaliadwyedd
	- disgrifiad o'r broses/prosesau a ddefnyddir i benderfynu pa risgiau a chyfleoedd a allai gael effaith ariannol sylweddol ar y sefydliad		Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu Gwaith Addasu i'r Hinsawdd wedi'i integreiddio i'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd wedi'u costio.	Bydd yn Adroddiad Blynyddol Gofynion Cynaliadwyedd v0.1 15.04.2026.docx	- Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol - Cymorth Risg - Tîm Cynaliadwyedd
	Dylai sefydliadau ystyried darparu disgrifiad o'u risgiau a'u cyfleoedd yn ôl sector a/neu ddaeyryddiaeth, yn ôl yr angen. Wrth ddisgrifio materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, dylai sefydliadau gyfeirio at Dablau A1.1 ac A1.2 (tud.(au) 75–76).		Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, sy'n cael eu hintegreiddio i'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (sydd wedi'u costio).	Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu	- Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol - Cymorth Risg - Tîm Cynaliadwyedd
Datgeliad a Argymhellir b) Disgrifiwch effaith risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar fusnesau, strategaeth, a chynllunio ariannol y sefydliad.	Gan adeiladu ar ddatgeliad a argymhellir (a), dylai sefydliadau drafod sut mae materion a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi effeithio ar eu busnesau, eu strategaeth, a'u cynllunio ariannol.		Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, sy'n cael eu hintegreiddio i'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (sydd wedi'u costio).	Integreiddio i gynlluniau BCEP	- Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol - Cymorth Risg - Tîm Cynaliadwyedd
	Dylai sefydliadau ystyried cynnwys yr effaith ar eu busnesau, eu strategaeth, a'u cynllunio ariannol yn y meysydd canlynol: - Cynhyrchion a gwasanaethau - Cadwyn gyflenwi a/neu'r gadwyn werth - Gweithgareddau addasu a lliniaru		Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, sy'n cael eu hintegreiddio i'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (sydd wedi'u costio).		Mewnbwn gan staff o bob rhan o'r sefydliad

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
	- Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu - Gweithrediadau (gan gynnwys mathau o weithrediadau a lleoliad cyfleusterau) - Caffaeliadau neu werthiannau - Mynediad at gyfalaf		Bydd grwpiau amlddisgyblaethol, fel y Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd a'r Tîm Amlddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol, yn cefnogi adolygiad o'r meysydd a amlinellwyd. Wedi'i drin gan waith Fframwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n parhau yn ystod 2025-26		
	Dylai sefydliadau ddisgrifio sut mae materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn gwasanaethu fel mewnbwn i'w proses gynllunio ariannol, y cyfnod(au) amser a ddefnyddir, a sut mae'r risgiau a'r cyfleoedd hyn yn cael eu blaenoriaethu. Dylai datgeliadau sefydliadau adlewyrchu darlun cyfannol o'r rhyngddibyniaethau ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar eu gallu i greu gwerth dros amser.		Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd cydweithwyr Cyllid a Chynllunio Cyfalaf yn mynychu Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd i roi cipolwg ar gyllid		Cymorth ariannol
	Dylai sefydliadau ddisgrifio effaith materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar eu perfformiad ariannol (e.e., refeniw, costau) a'u sefyllfa ariannol (e.e., asedau, rhwymedigaethau). Os defnyddiwyd senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i lywio strategaeth a chynllunio ariannol y sefydliad, dylid disgrifio senarios o'r fath.		Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.	Gweithio gyda chyllid i ddeall yr effaith ar berfformiad ariannol	Cymorth ariannol
	Dylai sefydliadau sydd wedi gwneud ymrwymïadau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n gweithredu mewn awdurdodaethau sydd wedi gwneud ymrwymïadau o'r fath, neu sydd wedi cytuno i fodloni disgwyliadau buddsoddwyr ynghylch lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ddisgrifio eu cynlluniau ar gyfer newid i economi carbon isel, a allai gynnwys targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gweithgareddau penodol sydd wedi'u bwriadu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn eu gweithrediadau a'u cadwyn werth neu i gefnogi'r newid fel arall.		Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio (DAP) cymeradwy - wedi'i integreiddio i'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (SIP) - a Strategaeth Gynaliadwyedd – dogfen gyhoeddus.	Gofynion i'w croesgyfeirio yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd i sicrhau eu bod wedi'u cynnwys	Tîm cynaliadwyedd

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir c) Disgrifiwch wydnwch strategaeth y sefydliad, gan ystyried gwahanol senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys senario o 2°C neu is.	Dylai sefydliadau ddisgrifio pa mor wydn yw eu strategaethau i risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan ystyried newid i economi carbon isel sy'n gyson â senario 2°C neu is a, lle bo'n berthnasol i'r sefydliad, senarios sy'n gyson â risgiau ffisegol cynyddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.		Wedi'i ystyried a'i ymgorffori mewn cyfres o strategaethau, gan gynnwys y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r Strategaeth Ymddiriedaeth alluogi. Addasu i'r hinsawdd a lliniaru hinsawdd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau cyfalaf mawr gan gynnwys Seilwaith Tonysguboriau, Canolfan Ganser newydd Felindre, ac Uned Loeren Radiotherapi. Cyflwynir diweddariadau ar Addasu i'r Hinsawdd i Lywodraeth Cymru bob chwe mis.		
	Dylai sefydliadau ystyried trafod: - Lle maen nhw'n credu y gallai risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd effeithio ar eu strategaethau; - sut y gallai eu strategaethau newid i fynd i'r afael â'r risgiau a'r cyfleoedd posibl hynny; - effaith bosibl materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar berfformiad ariannol (e.e., refeiwi, costau) a sefyllfa ariannol (e.e., asedau, rhwymedigaethau); 27 a - y senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r gorwel(ion) amser cysylltiedig a ystyriwyd.		Wedi'i ystyried a'i ymgorffori mewn cyfres o strategaethau, gan gynnwys y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r Strategaeth Ymddiriedaeth alluogi. Addasu i'r hinsawdd a lliniaru hinsawdd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau cyfalaf mawr gan gynnwys Seilwaith Tonysguboriau, Canolfan Ganser newydd Felindre, ac Uned Loeren Radiotherapi.	Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu	Mewnbwn gan staff o wahanol adrannau
	Cyfeiriwch at Adran D yn adroddiad y Tasglu am wybodaeth ar gymhwyso senarios i ddadansoddiad sy'n edrych tua'r dyfodol.				



3) Rheoli Risg

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir a) Disgrifiwch brosesau'r sefydliad ar gyfer nodi ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	Dylai sefydliadau ddisgrifio eu prosesau rheoli risg ar gyfer nodi ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Agwedd bwysig ar y disgrifiad hwn yw sut mae sefydliadau'n pennu arwyddocâd cymharol risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn perthynas â risgiau eraill.		Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu Risgiau lefel uchel wedi'u cyflwyno erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, wedi'u datblygu'n rhan o ddull Cymru Gyfan. Rheoli risg gweithredu'r Strategaeth Gynaliadwyedd drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd		• Tîm Cynaliadwyedd • Cymorth Risg
	Dylai sefydliadau ddisgrifio a ydynt yn ystyried gofynion rheoleiddio presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd (e.e., terfynau ar allyriadau) yn ogystal â ffactorau perthnasol eraill a ystyriwyd.		Monitro a rheoli Deddfwriaeth Amgylcheddol trwy System Reoli ISO14001:2015.		• Tîm Cynaliadwyedd • Cymorth Risg
	Dylai sefydliadau hefyd ystyried datgelu'r canlynol: • prosesau ar gyfer asesu maint a chwmpas posibl risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a • diffiniadau o derminoleg risg a ddefnyddir neu gyfeiriadau at fframweithiau dosbarthu risg presennol a ddefnyddir.		Datblygu asesiad risg lefel uchel, wedi'i groesgyfeirio â sgoriau risg Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, cynhelir asesiadau risg pwrpasol gan adrannau.	• Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu • Risgiau lefel uchel i'w cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru • Bydd System Reoli ISO14001:2026 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi'r gwaith • Cynllun pontio wedi'i ddatblygu ar gyfer symud o ISO14001:2015 i ISO14001:2026	• Tîm Cynaliadwyedd • Cymorth Risg
Datgeliad a Argymhellir b) Disgrifiwch brosesau'r sefydliad ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	Dylai sefydliadau ddisgrifio eu prosesau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau i liniaru, trosglwyddo, derbyn, neu reoli'r risgiau hynny. Yn ogystal, dylai sefydliadau ddisgrifio eu prosesau ar gyfer blaenoriaethu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys sut mae penderfyniadau perthnasedd yn cael eu gwneud o fewn eu sefydliadau.		Datblygu asesiad risg lefel uchel, wedi'i groesgyfeirio â sgoriau risg Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, cynhelir asesiadau risg pwrpasol gan adrannau.	• Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu • Risgiau lefel uchel i'w cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru • Bydd yn cael ei fonitro a'i reoli drwy'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd	• Tîm Cynaliadwyedd • Cymorth Risg

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
	Wrth ddisgrifio eu prosesau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, dylai sefydliadau fynd i'r afael â'r risgiau a gynhwysir yn Nhablau A1.1 ac A1.2 (tud.(au) 75–76), fel y bo'n briodol.			• Bydd System Reoli ISO14001:2026 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi'r gwaith	
Datgeliad a Argymhellir c) Disgrifiwch sut mae prosesau ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u hintegreiddio i reolaeth risg gyffredinol y sefydliad.	Dylai sefydliadau ddisgrifio sut mae eu prosesau ar gyfer nodi, asesu, a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u hintegreiddio i'w rheolaeth risg gyffredinol.		Wedi datblygu asesiad risg lefel uchel, gan weithio ar draws GIG Cymru i greu asesiadau Cymru Gyfan. Yn dilyn hyn, gweithio gydag adrannau i integreiddio i gynlluniau Parhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfwng.	• Bydd yn cael ei fonitro a'i reoli drwy'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd • Bydd System Reoli ISO14001:2015 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi gwaith. • Bydd methodoleg yn cael ei hymgorffori yn y Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd, a bydd diweddariadau a chynnydd yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw. • Integreiddio Addasu i'r Hinsawdd a Lliniaru Hinsawdd yn llawn i Gynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd	• Tîm cynaliadwyedd • Adrannau ar draws yr Ymddiriedolaeth



4) Metrigau a thargedau

Argymhellion datgeliad metrigau a thargedau		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir a) Datgelwch y metrigau a ddefnyddir gan y sefydliad i asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â'i strategaeth a'i broses rheoli risg.	Dylai sefydliadau ddarparu'r metrigau allweddol a ddefnyddir i fesur a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, fel y disgrifir yn Nhablau A1.1 ac A1.2 (tud.(au) 75–76), yn ogystal â metrigau sy'n gyson â'r categorïau metrigau traws-ddiwydiant sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a ddisgrifir yn Nhabl A2.1 (tud. 79). Dylai sefydliadau ystyried cynnwys metrigau ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n gysylltiedig â dŵr, ynni, defnydd tir, a rheoli gwastraff lle bo'n berthnasol ac yn gymwys.		Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd yn amlinellu targedau uchelgeisiol, a ddatblygwyd trwy adolygu targedau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.	Yn destun monitro a chraffu drwy'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd	Tîm Cynaliadwyedd
	Lle mae materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn berthnasol, dylai sefydliadau ystyried disgrifio a yw metrigau perfformiad cysylltiedig yn cael eu hymgorffori mewn polisïau tâl, a sut.		Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd yn amlinellu targedau uchelgeisiol, a ddatblygwyd drwy adolygu targedau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat a sicrhau bod terfynau amser deddfwriaeth yn cael eu hystyried.	Yn destun monitro a chraffu drwy'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd	Tîm Cynaliadwyedd
	Lle bo'n berthnasol, dylai sefydliadau ddarparu eu prisiau carbon mewnol yn ogystal â metrigau cyfle sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd megis reffeniw o gynhyrchion a gwasanaethau a gynlluniwyd ar gyfer economi carbon isel.		Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
	Dylid darparu metrigau ar gyfer cyfnodau hanesyddol er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddi tueddiadau. Lle bo'n briodol, dylai sefydliadau ystyried darparu metrigau sy'n edrych tua'r dyfodol ar gyfer y categorïau metrigau traws-ddiwydiant, sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a ddisgrifir yn Nhabl A2.1 (tud. 79), yn gyson â'u gorwelion amser busnes neu gynllunio strategol. Yn ogystal, lle nad yw'n amlwg, dylai sefydliadau ddarparu disgrifiad o'r methodolegau a ddefnyddir i gyfrifo neu amcangyfrif metrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.		Angen ymchwilio ymhellach	Wedi'i adolygu drwy'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd i benderfynu a yw'n newid Cynlluniau Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd	Tîm Cynaliadwyedd
Datgeliad a Argymhellir b) Datgelu allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) Cwmpas 1, Cwmpas 2, ac, os yw'n briodol, Cwmpas 3, a'r risgiau cysylltiedig	Dylai sefydliadau ddarparu eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1 a Chwmpas 2 yn annibynnol ar asesiad perthnasedd, ac, os yw'n briodol, allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 3 a'r risgiau cysylltiedig. Dylai pob sefydliad ystyried datgelu allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 3.		Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob mis Medi yn ôl yr angen.	Parhau i gyflwyno cyflwyniadau amserol	Tîm Cynaliadwyedd

Argymhellion datgeliad metrigau a targedau		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir c) Disgrifiwch y targedau a ddefnyddir gan y sefydliad i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r perfformiad yn erbyn targedau.	Dylid cyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â methodoleg y Protocol nwyon tŷ gwydr er mwyn caniatáu ar gyfer cydgrynhoi a chymharu ar draws sefydliadau ac awdurdodaethau. Fel y bo'n briodol, dylai sefydliadau ystyried darparu cymarebau effeithlonrwydd nwyon tŷ gwydr cysylltiedig, sy'n benodol i'r diwydiant ac sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol.		Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob mis Medi yn ôl yr angen.	Defnyddio Adroddiad Sero Net	Tîm Cynaliadwyedd
	Dylid darparu allyriadau nwyon tŷ gwydr a metrigau cysylltiedig ar gyfer cyfnodau hanesyddol er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddi tueddiadau. Yn ogystal, lle nad yw'n amlwg, dylai sefydliadau ddarparu disgrifiad o'r methodolegau a ddefnyddir i gyfrifo neu amcangyfrif y metrigau.		Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob mis Medi yn ôl yr angen.	Defnyddio Adroddiad Sero Net	Tîm Cynaliadwyedd
	Dylai sefydliadau ddisgrifio eu targedau allweddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd megis y rhai sy'n gysylltiedig ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd dŵr, defnydd ynni, ac ati, yn unol â'r categorïau metrigau traws-ddiwydiant sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn Nhabl A2.1 (tud. 79), lle bo'n berthnasol, ac yn unol â gofynion rheoleiddio disgwyltiedig neu gyfyngiadau'r farchnad neu nodau eraill. Gallai nodau eraill gynnwys nodau effeithlonrwydd neu ariannol, goddefiannau colled ariannol, allyriadau nwyon tŷ gwydr a osgoir drwy gydol cylch oes y cynnyrch, neu nodau refferiw net ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau a gynlluniwyd ar gyfer economi carbon isel.		Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr: Mae'r targedau o ostwng 16% erbyn 2025 a gostwng 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, heb fod yn benodol i Ymddiriedolaeth.	- Ymchwilio i'r hyn sy'n ofynnol i ddatblygu targedau penodol i'r sefydliad. - Bydd System Reoli ISO14001:2015 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi gwaith. - Cynllun pontio wedi'i ddatblygu ar gyfer symud o ISO14001:2015 i ISO14001:2026	Tîm Cynaliadwyedd
	Wrth ddisgrifio eu targedau, dylai sefydliadau ystyried cynnwys y canlynol: - a yw'r targed yn absoliwt, neu'n seiliedig ar ddwysedd; - y cyfnodau y mae'r targed yn berthnasol iddynt; - y flwyddyn sylfaen y mesurir cynnydd ohoni; a - dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir i asesu cynnydd yn erbyn targedau.		Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr: Mae'r targedau o ostwng 16% erbyn 2025 a gostwng 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, heb fod yn benodol i Ymddiriedolaeth.	- Bydd System Reoli ISO14001:2026 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi'r gwaith - Cynllun pontio wedi'i ddatblygu ar gyfer symud o ISO14001:2015 i ISO14001:2026	Tîm Cynaliadwyedd

Argymhellion datgeliad metrigau a thargedau		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
	Dylai sefydliadau sy'n datgelu targedau tymor canolig neu hirdymor hefyd ddatgelu targedau interim cysylltiedig yn gyfanredol neu fesul llinell fusnes, lle bo modd.		Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr: Mae'r targedau o ostwng 16% erbyn 2025 a gostwng 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, heb fod yn benodol i Ymddiriedolaeth.		Tîm Cynaliadwyedd
	Lle nad yw'n amlwg, dylai sefydliadau ddarparu disgrifiad o'r methodolegau a ddefnyddir i gyfrifo targedau a mesurau		Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr: Mae'r targedau o ostwng 16% erbyn 2025 a gostwng 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, heb fod yn benodol i Ymddiriedolaeth.	Nid oes angen gweithredu	Tîm Cynaliadwyedd


Atodiad 3

Atodiad - Rhestr Termau

ATMP	Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Datblygedig	MSSA	Staffylococws Awrëws sy'n sensitif i Fethisilin
BECS	System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed	MRSA	Staffylococws Awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin
BREEAM	Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu	NICE	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.
CDPS	Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol	NMDP	Rhaglen Rhoddwyr Môr Genedlaethol
C. DIFF	Haint clostridioides difficile	NWJCC	Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru
CCLG	Grŵp Arweinyddiaeth Cancer Cydweithredol	nVCC	Canolfan Ganer newydd Felindre
DCW	Cymunedau Digidol Cymru	PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	PTL	Rhestr Orlhain Cleifion
E.COLI	Escherichia coli	RBC	Celloedd Coch y Gwaed
EAP	Rhaglen Gymorth i Weithwyr	RT	Radiotherapi
ESR	Cofnod Staff Electronig	RSU	Uned Loeren Radiotherapi
Gram Neg	Bacteria Gram-negatif	SACT	Therapi Gwrth-ganser Systemig
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru	TCS	Trawsnewid Gwasanaethau Cancer
HTW	Technoleg Iechyd Cymru	GCF	Gwasanaeth Cancer Felindre
IPC	Atal a Rheoli Heintiau	GGC	Gwasanaeth Gwaed Cymru
IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig	WCP	Porth Clinigol Cymru
IQPD	Cyflenwi Ansawdd a Chynllunio Integredig	WMDA	Cymdeithas Rhoddwyr Môr y Byd
LfER	Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau	WNCR	Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
Linac	Cyflymydd Llinol	WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
JACIE	Cyd-bwyllgor Achredu	WRP	Cronfa Risg Cymru
		WTAIl	Labordy Trawsblannu ac Imiwnogeneteg Cymru

2

Atebolrwydd Adrodd 2025/26





Cwmpas Yr Adroddiad Atebolrwydd

Diben yr Adroddiad Atebolrwydd, sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, yw adrodd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gofynion atebolrwydd allweddol.



Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Fawrhydi, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cynhyrchu Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer cyfnod adrodd ariannol 2025-2026.

Diben yr Adroddiad Atebolrwydd, sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, yw adrodd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gofynion atebolrwydd allweddol.

Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â Gwasanaethau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaeth Canser Felindre wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd hwn ac mae wedi'i llofnodi a'i dyddio gan Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sef y Prif Weithredwr. Mae'r Adroddiad yn cynnwys y tair adran ganlynol:

- **Yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol:** mae'r adroddiad hwn yn egluro cyfansoddiad a threfniadaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'i strwythurau llywodraethu a sut maent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae iddo dair prif ran; Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu.
- **Yr Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff:** mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am dâl uwch reolwyr fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifon cyfredol GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys uwch reolwyr a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth graidd a Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG). Mae'r adroddiad yn manylu ar gyflogau a thaliadau eraill, polisi Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr, ac a oedd unrhyw daliadau ymadael neu ddyfarniadau arwyddocaol eraill i uwch reolwyr presennol neu gyn-reolwyr. Mae hefyd yn nodi aelodaeth Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, a gwybodaeth staff o ran niferoedd, cyfansoddiad ac absenoldeb oherwydd salwch, ynghyd â gwariant ar ymgynghoriaeth a gwariant oddi ar y gyflogres.
- **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru:** mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am faterion fel rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a thaliadau, ac Adroddiad Archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol.

2a – Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ystod 2025-2026. Mae'n cynnwys:

- **Adroddiad y Cyfarwyddwyr:** mae hwn yn rhoi manylion y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn. Darperir peth o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei dangos yma fel arfer mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Blynyddol a thynnir sylw at hyn lle bo'n berthnasol.
- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr:** mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Atebol, y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gadarnhau eu cyfrifoldebau wrth baratoi'r datganiadau ariannol a bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys, ac yn ddealladwy; a'r
- **Y Datganiad Llywodraethu:** mae hwn yn egluro'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu o fewn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac yn dwyn ynghyd sut mae'r sefydliad yn rheoli llywodraethu, risg a rheolaeth.



Adroddiad y Cyfarwyddwyr



Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn dwyn ynghyd wybodaeth am aelodau Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, cyfansoddiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ac elfennau eraill o'i strwythur llywodraethu a rheoli risg. Mae hefyd yn cynnwys y datgeliadau a gofynion adrodd sy'n ofynnol gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn perthynas â gweithrediadau busnes beunyddiol yr Ymddiriedolaeth.



Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn dwyn ynghyd wybodaeth am aelodau Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, cyfansoddiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ac elfennau eraill o'i strwythur llywodraethu a rheoli risg. Mae hefyd yn cynnwys y datgeliadau a gofynion adrodd sy'n ofynnol gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn perthynas â gweithrediadau busnes beunyddiol yr Ymddiriedolaeth.


Mae Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, sy'n weithwyr i'r Ymddiriedolaeth, ac Aelodau Annibynnol, a benodwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol drwy broses benodi gyhoeddus agored a chystadleuol. Prif rôl y Bwrdd yw ychwanegu gwerth at y sefydliad trwy arfer arweinyddiaeth a rheolaeth gref, gan gynnwys: gosod cyfeiriad strategol y sefydliad; sefydlu a chynnal fframwaith llywodraethiant ac atebolrwydd y sefydliad, gan gynnwys ei gwerthoedd a'i safonau ymddygiad, a sicrhau y cyflawnir nodau ac amcanion y sefydliad trwy herio a chraffu'n effeithiol ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ar draws pob maes gweithgaredd.

Bwrdd Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre



Sara Moseley

Cadeirydd
Chair
(Pleidleisio)



Lindsay Foyster

Is-gadeirydd
Vice Chair
(Pleidleisio)



Gareth Jones

Aelod Annibynnol
Independent Member
(Pleidleisio)



Hilary Jones

Aelod Annibynnol
Independent Member
(Pleidleisio)



Vicky Morris

Aelod Annibynnol
Independent Member
(Pleidleisio)



Professor Andrew Westwell

Aelod Annibynnol
Independent Member
(Pleidleisio)



John Union

Aelod Annibynnol
Independent Member
(Voting)



Ceri Doyle

Aelod Annibynnol
Independent Member
(Pleidleisio)



Carl James

Prif Swyddog Weithredwr
Chief Executive Officer
(Pleidleisio)



Dr. Jacinta Abraham

Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/
Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol
Executive Medical Director/
Deputy Chief Executive
(Pleidleisio)



Matthew Bunce

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Executive Director of Finance
(Pleidleisio)





Sarah Jenkins

Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol
(Dros Dro)
Executive Director of People & Organisational
Development (Interim)
(Pleidleisio)



Gillian Knight

Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol
Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd (Dros Dro)
Executive Director of Nursing, AHPs & Health Science
(Interim)
(Pleidleisio)



Non Gwilym

Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (Dros Dro)
Director of Corporate Governance (Interim)
(Dim Pleidlais)



Anne Carey

Prif Swydddog Gweithredol
Chief Operating Officer
(Dim Pleidlais)



Lauren Fear

Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau
Director of Place, Portfolio and Partnerships
(Dim Pleidlais))



Victoria Oxley

Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
(Dros Dro)
Director of Strategy, Planning and Performance
(Interim)
(Dim Pleidlais)



Carl Taylor

Prif Swydddog Digidol
Chief Digital Officer
(Dim Pleidlais)

Sefydliadau Sy'n Cael Eu Lletya (nad ydynt yn aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth)

Technoleg Iechyd Cymru



Keith Lloyd
Cadeirydd
Technoleg Iechyd Cymru
(Penodwyd 1 Ebrill 2025)



Dr Susan Myles
Cyfarwyddwr
Technoleg Iechyd Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru



Tracy Myhill OBE
Cadeirydd
Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau
GIG Cymru



Neil Frow OBE
Rheolwr Gyfarwyddwr
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Therapiau Datblygedig Cymru



Dr John Lewis EngD
Pennaeth Rhaglenni
Therapiau Datblygedig Cymru



Newidiadau i Aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn Ystod 2024-2025

Aelodau Annibynnol:

- Gadawodd yr Athro Donna Mead OBE, Cadeirydd ar 31 Gorffennaf 2025
- Penodwyd Sara Moseley, Cadeirydd, ar 1 Medi 2025.
- Daeth tymor Stephen Harries, Is-gadeirydd, i ben ar 30 Ebrill 2025.
- Penodwyd Stephen Harries, Aelod Annibynnol (Cyllid) ar 12 Mai 2025 tan 31 Awst 2025.
- Penodwyd Lindsay Foyster, Is-gadeirydd, ar 1 Mai 2025.
- Ailbenodwyd yr Athro Andrew Westwell, Aelod Annibynnol (Prifysgol) ar 10 Awst 2025.
- Penodwyd John Union, Aelod Annibynnol (Cyllid) ar 1 Hydref 2025.
- Penodwyd Ceri Doyle, Aelod Annibynnol (Generig) ar 27 Hydref 2025.

Aelodau o'r Tîm Gweithredol

- Gadawodd David Donegan, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol ar 18 Tachwedd 2025.
- Penodwyd Carl James, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol, yn Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro ar 18 Tachwedd 2025.
- Penodwyd Victoria Oxley, Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad ar 1 Ebrill 2026.
- Penodwyd Dr Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, yn Ddirprwy Brif Weithredwr ar 18 Rhagfyr 2025.
- Penodwyd Lauren Fear, Cyfarwyddwr Dros Dro Trawsnewid, yn Gyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau ar 1 Medi 2025.
- Gadawodd Sarah Morley, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu, ar 31 Hydref 2025.
- Penodwyd Sarah Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Pobl a Datblygu Sefydliadol, ar 1 Hydref 2025.
- Gadawodd Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd ar 6 Ebrill 2026.
- Penodwyd Gillian Knight, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd ar 9 Ebrill 2026.

O ran cyfansoddiad y Bwrdd, fel y nodwyd uchod, yn ystod 2025-2026, gadawodd David Donegan, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, ar 18 Tachwedd 2026. Tra bod y gwaith o recriwtio olynydd parhaol yn cael ei gwblhau, mae trefniadau dros dro wedi'u rhoi ar waith i sicrhau parhad busnes a threfniadau llywodraethu effeithiol. Parhaodd trefniadau o'r fath i gefnogi'r Ymddiriedolaeth i gynnal sefydlogrwydd a sicrhau y gellid cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd yn ystod cyfnod absenoldeb deiliad parhaol swydd.

Ni fu unrhyw effaith andwyol ar gydbwysedd y Bwrdd a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd. Ceir rhagor o fanylion am benodiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth ar dudalen 144.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-2026, daeth penodiad Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i ben ym mis Gorffennaf 2025, gyda'r ymgeisydd llwyddiannus, Sara Moseley, yn dechrau yn ei swydd ar 1 Medi 2025. Daeth penodiad dau Aelod Annibynnol i ben ym mis Medi 2025 gyda John Union

yn dechrau fel Aelod Annibynnol (Cyllid) ar 1 Hydref 2026 a Ceri Doyle yn dechrau fel Aelod Annibynnol (Generig) ar 27 Hydref 2026.

Penodwyd Keith Lloyd yn Gadeirydd Panel Gwerthuso Technoleg Iechyd Cymru ar 1 Ebrill 2025.

Datganiad o Fuddiannau Cyhoeddus

Mae'n ofynnol i bob Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gwblhau datganiad buddiant cyhoeddus a adolygir bob chwe mis ac a gyflwynir i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth, ac maen nhw wedi gwneud hynny.

Mae holl Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Uwch Reolwyr o fewn yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y sefydliadau sy'n cael eu lletya, wedi datgan unrhyw fuddiannau mewn cwmnïau neu faterion a allai arwain at wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli. Mae [cofrestr lawn o fuddiannau](#) ar gyfer 2025-2026 ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

Datganiadau Datgelu

Llywodraethu Gwybodaeth:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth i gyflawni ei rhwymedigaethau gorfodol a statudol a safonau eraill yn ymwneud â deddfwriaeth berthnasol. Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddeddfwriaeth sy'n cefnogi egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Rhyddid 2012, Deddf Diogelu Data 2018 (yn cynnwys Rheoliadau Cyffredinol yr UE ar Ddiogelu Data 679/2016 (GDPR y DU) a gedwir), Deddf Data (Defnyddio a Mynediad) 2025, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Dyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gyffredin a Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990.

Cefnogir y ddeddfwriaeth hon gan ganllawiau anneddfwriaethol megis; Cod Ymarfer Camerâu Diogelwch 2021, Egwyddorion Caldicott a'r Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 sydd ynddo'i hun yn seiliedig ar God Ymarfer Rheoli Gwybodaeth Adran 46 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr Ymddiriedolaeth yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n gyfrifol am risg gwybodaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Warcheidwad Caldicott hefyd, sef Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae gan Wasanaeth Cancer Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru Warcheidwad Caldicott ar waith. Mae seiberddiogelwch, sy'n elfen annatod o Ddiogelwch Gwybodaeth, yn rhan o bortffolio Prif Swyddog Digidol yr Ymddiriedolaeth

Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth o dan [Erthygl 37\(1\)\(a\)](#) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y Deyrnas Unedig benodi Swyddog Diogelu Data. Y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth fel arweinydd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth yw Swyddog Diogelu Data penodedig yr Ymddiriedolaeth. Mae tasgau'r Swyddog Diogelu Data wedi'u cynnwys yn [Erthygl 39](#) o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, sef sicrhau bod rheolaethau a mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio



Yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-2026, daeth penodiad Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i ben ym mis Gorffennaf 2025, gyda'r ymgeisydd llwyddiannus, Sara Moseley, yn dechrau yn ei swydd ar 1 Medi 2025.





Fel Ymddiriedolaeth, rydym wedi ymrwymo i Strategaeth Ddigidol uchelgeisiol sy'n cynnwys datblygu i fod yn sefydliad â data yn ei lywio.



â'i rhwymedigaethau Gorfodol a Statudol yn ogystal â chefnogi gallu staff trwy ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i gydymffurfio ag egwyddorion a gweithdrefnau sylfaenol Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, y Prif Swyddog Digidol, y Swyddog Diogelu Data a Gwarcheidwaid Caldicott yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn mabwysiadu ymagwedd gyflawn at Lywodraethu Gwybodaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i reoli'r risg gyffredinol sydd wedi parhau i leihau. Law yn llaw â'r asesiad hwn y mae gwaith cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn barhaus i asesu risg Gwybodaeth a Seiber, ymchwilio i ddigwyddiadau llywodraethu gwybodaeth gan nodi themâu cyffredin a gweithredu gweithgarwch i fynd i'r afael â'r themâu hynny. Gwneir hynny trwy ddarparu cyngor, canllawiau a hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr newydd a gweithwyr presennol yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys cynnal gweithdai arbenigol lle bo angen i fynd i'r afael â risg a'i lliniaru.

Darperir hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn rhan o becyn sefydlu ar gyfer yr holl staff sy'n ymuno â'r Ymddiriedolaeth. Mae'r pecyn yn cynnwys deddfwriaeth, rheoli cofnodion, diogelwch gwybodaeth a seiberddiogelwch. Derbynnir adroddiadau bob mis sy'n galluogi'r Swyddog Diogelu Data i dargedu grwpiau ac unigolion lle mae cydymffurfiaeth yn isel.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddefnyddio Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan sy'n darparu tystiolaeth o feysydd gwelliant a gyflawnwyd ac yn nodi camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth dri adolygiad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn 2025/26 y gofynnodd aelodau'r cyhoedd amdanynt.

Adroddwyd am bedwar toriad data i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod 2025/26.

Adroddwyd am y pedwar digwyddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae dau ddigwyddiad wedi'u cau heb unrhyw gamau pellach wedi'u cymryd yn erbyn yr Ymddiriedolaeth, mae un achos yn parhau gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth a disgwylir ymateb i'r adroddiad cychwynnol. Trafodwyd y digwyddiad sy'n weddill gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae rhagor o weithgarwch ymchwilio ar y gweill. Yn ogystal, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth un adroddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Reoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth 2018 fel mesur rhagofalus mewn perthynas â digwyddiad nad yw'n seiber. Cafodd y digwyddiad ei ddatrys heb effaith bellach ar yr Ymddiriedolaeth.

Ansawdd Y Data:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ansawdd a chadernid ei data, ac mae gwiriadau rheolaidd yn eu lle i sicrhau y gellir dibynnu ar gywirdeb yr wybodaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir bod lluosogrwydd systemau a mewnbynnwyr data ar draws y sefydliad yn golygu bod posibilrwydd o amrywiaeth mewn ansawdd yn bodoli bob amser, felly mae lle i wella bob amser. Mae gennym ddull gwella ansawdd data parhaus sy'n asesu ansawdd ein data ar draws systemau clinigol allweddol yn rheolaidd. Mae data clinigol o ansawdd da yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o reoli ein gwasanaethau. Ymddiriedolaeth GIG

Prifysgol Felindre sydd â'r sgôr cwblhau ac ansawdd uchaf ar gyfer codio clinigol yng Nghymru. Mae data wedi'i godio yn sail i lawer o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG ac fe'i defnyddir i gefnogi cynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, ac asesu effeithiolrwydd triniaethau. Gall hefyd fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer llawer o archwiliadau clinigol.

Fel Ymddiriedolaeth, rydym wedi ymrwymo i [Strategaeth Ddigidol](#) uchelgeisiol sy'n cynnwys datblygu i fod yn sefydliad â data yn ei lywio. Rydym yn gwella ansawdd ein data drwy: Gwella ein technolegau digidol, gan eu gwneud yn haws ac yn gyflymach i'w defnyddio; Democrateiddio a chynyddu ein defnydd o'r data ar gyfer gwneud penderfyniadau bob dydd, fel bod ein timau clinigol a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn cael mwy o fudd o ba mor gyflawn a chywir ydyw; a Gwella gwybodaeth, sgiliau a hyder digidol a data ein timau ym mhob adran o'r Ymddiriedolaeth. Mae hon yn daith ac felly lle mae unrhyw bryderon ynghylch ansawdd data ar hyn o bryd, mae data a ddarperir i'r Bwrdd wedi'i nodi'n glir yn unol â hynny gyda chafeatau ar gyfer ei ddefnydd.

Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol:

Mae Strategaeth yr Ymddiriedolaeth '[Cyrchfan 2033](#)' yn amlinellu uchelgais clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod; darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn darparu gwerth ehangach i'n cymunedau. Mae Strategaeth yr Ymddiriedolaeth, Cyrchfan 2033, yn nodi cyfeiriad clir ac uchelgeisiol ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd nesaf: darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o safon, sy'n lleihau effaith amgylcheddol wrth greu gwerth ehangach i'n cymunedau. Mae hyn yn her gyffrous, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth barhau i anelu at ragoriaeth mewn gwasanaethau clinigol gan hefyd gyfrannu at gyfoeth, iechyd a ffyniant Cymru.

Yn rhan o'r gyfres o Strategaethau Galluogi i gyflawni Cyrchfan 2033, mae Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth yn darparu map trywydd clir ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Mae'n cefnogi cyfraniadau ystyrlon i'n cymunedau, yn lliniaru effaith amgylcheddol, ac yn sicrhau bod gwasanaethau o'r radd flaenaf yn parhau i gael eu darparu i roddwyr, cleifion a gofalwyr. Mae'r Strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch deg thema gydgyssylltiedig, sy'n deillio o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gyda'i gilydd, mae'r themâu hyn yn cefnogi cyflawniad Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth.

Er mwyn goruchwyllo cyflawni'r Strategaeth Gynaliadwyedd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu'r Bwrdd Gweithredu ar Newid Hinsawdd. Mae'r Bwrdd hwn yn darparu goruchwyliaeth strategol o Gynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (SIP) ar safleoedd, sydd wedi'u cynllunio i wreiddio cynaliadwyedd ar draws holl weithgareddau'r Ymddiriedolaeth, cryfhau perfformiad sefydliadol, a gwella enw da'r Ymddiriedolaeth. I gefnogi'r uchelgais hon, mae Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd manwl wedi'u datblygu, sy'n cydreded â Chynllun Datgarboneiddio Strategol Llywodraeth Cymru ac yn ymgorffori gwelliannau bioamrywiaeth o dan Adran 6 o Deddf yr Amgylchedd (Cymru), ochr yn ochr â mentrau teithio llesol. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried risgiau, cyfleoedd a heriau cynaliadwyedd sy'n dod i'r amlwg a rhai cyfoes, gan gynghori'r Ymddiriedolaeth ar gamau gweithredu priodol. Gan adlewyrchu cwpas eang cynaliadwyedd, mae ei gylch gwaith yn cynnwys gwerth cymdeithasol, diwylliant ac ymgysylltiad cymunedol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob



Mae Strategaeth yr Ymddiriedolaeth '[Cyrchfan 2033](#)' yn amlinellu uchelgais clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod; darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn darparu gwerth ehangach i'n cymunedau.



chwarter ac yn goruchwyllo cyflawniad y Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd a Rhaglen Hefyd, sy'n cwmpasu'r Celfyddydau mewn Iechyd, Presgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd, Plant a Phobl Ifanc, a Buddion ac Ymgysylltu Cymunedol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo, lle bo'n rhesymol ymarferol, i fodloni gofynion deddfwriaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ategir yr ymrwymiad hwn gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datgarboneiddio a datblygu cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â Strategaeth Datgarboneiddio Strategol GIG Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro a rheoli ei hól troed carbon. Mae camau ymarferol eisoes yn cael eu cymryd drwy welliannau seilwaith ar raddfa fechan ond ag effaith uchel, gan gynnwys y rhaglen barhaus i ddisodli goleuadau confensiynol â systemau LED ynni effeithlon ar draws safleoedd yr Ymddiriedolaeth, gan gefnogi gostyngiadau yn y defnydd o ynni ac allyriadau cysylltiedig.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau uchelgeisiol yn strategol ac yn weithredol i addasu i newid hinsawdd a rheoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre, y Ganolfan Loeren Radiotherapi a phrosiect uwchraddio seilwaith Tonysguboriau. Cynllunnir pob datblygiad cyfalaf gan ddefnyddio data hinsawdd rhagamcanedig i sicrhau gwydnwch drwy gydol oes yr asedau, gan ystyried cynnydd disgwylidig mewn tymheredd a digwyddiadau tywydd eithafol. Mae'r dull hwn yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod ffabrig a systemau adeiladu yn parhau i fod yn effeithiol, yn wydn ac yn addas at y diben.

Ochr yn ochr â'r buddsoddiadau cyfalaf hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi newid ymddygiad yn weithredol drwy addysgu ac ymgysylltu â staff drwy weithgareddau a digwyddiadau wedi'u targedu i hybu ymwybyddiaeth. Un enghraifft allweddol yw cyflawni ar draws yr Ymddiriedolaeth yr Wythnos Werdd Fawr, sef rhaglen ymgysylltu flynyddol sydd ar agor i'r holl staff. Daw'r digwyddiad hwn ynghyd ag amrywiaeth o themâu cynaliadwyedd, gan gynnwys teithio llesol, gyda MOTs beiciau am ddim a ddarperir gan Dr Bike; ymgysylltu â bioamrywiaeth, fel saffaris bywyd gwyllt a ddarperir mewn partneriaeth â Gwarchod Gloynnod Byw; ac effeithlonrwydd adnoddau a lleihau defnydd, a hyrwyddir trwy fentrau rhyngweithiol gan gynnwys Bingo Arbed Ynni. Mae'r rhaglen hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar lesiant staff, gan ymgorffori gweithgareddau Celfyddydau mewn Iechyd a chysylltu'n uniongyrchol â phartneriaid Presgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd, gan gynnwys Ray of Light, gan gefnogi llesiant meddwl ochr yn ochr ag amcanion amgylcheddol.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflawni gwelliannau bioamrywiaeth pendant ar draws ei hystâd. Mae hyn yn cynnwys prosiectau plannu a gyflawnir ar y cyd â Llysgenhadon Ifanc Felindre, gan gefnogi addysg a datblygu sgiliau wrth wella bioamrywiaeth y safleoedd. Yn ogystal, gosodwyd cartrefi cynefin a nodweddion bioamrywiaeth ar draws holl safleoedd yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, gan wella cysylltedd ecolegol a chefnogi bywyd gwyllt lleol, yn unol â dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 yr Ymddiriedolaeth.

Wedi'i sbarduno gan ei Strategaeth Gynaliadwyedd, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ei hamcanion ac yn parhau i gynllunio, asesu risg a monitro cynnydd i sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf Newid

Hinsawdd a gofynion adrodd ar addasu i'r hinsawdd. Bydd perfformiad yn destun adrodd o hyd drwy ddull seiliedig ar risg drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Mae Adroddiad Blynyddol Tân, Risg, Cynaliadwyedd ac Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2025/2026 i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 9 Gorffennaf 2026.

Cod Llywodraethu Corfforaethol ar Gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da 2017:

Er nad oes unrhyw ofyniad i gydymffurfio â holl elfennau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cynnal asesiad yn ôl y prif egwyddorion fel y maent yn berthnasol i sefydliad sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i adolygu'n barhaus a cheisio rhagoriaeth wrth sicrhau llywodraethu da. Yn ystod 2025-26, penderfynodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gynnal adolygiad o ddatblygu a llywodraethu ei Fwrdd i gryfhau ei drefniadau presennol, gan gynnwys adolygiad o strwythur pwyllgorau'r Bwrdd. Yn ogystal, mae pob un o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal Adolygiad Blynyddol o'i Effeithiolrwydd, gan fynd ati i chwilio am gyfleoedd pellach ar gyfer datblygiad a gwelliant parhaus gan sicrhau y cynhelir llywodraethu da. Er mwyn cefnogi llywodraethu da a chryfhau sicrwydd i'r Bwrdd, mae'r Grŵp Aelodau Annibynnol yn parhau i gyfarfod bob deufis.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod lle bo'n berthnasol, yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol, ac yn cyflawni ei busnes yn agored ac mewn modd tryloyw yn unol â'r Cod. Ni adroddwyd am unrhyw wyriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn y Gig:

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau'r cyflogwr sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun oll yn digwydd yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni y manylir arnynt yn y Rheoliadau..

Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru:

Mae rhestr o Gyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Nid yw pob Cyfarwyddyd Gweinidogol a geir gan Fyrddau Iechyd yn berthnasol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu'r rhai sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth fel y bo'n briodol yn ystod y cyfnod adrodd a cheir manylion amdanynt yn Atodiad 5 ar dudalen 127. Yn ychwanegol, mae Cylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu logio gan y Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol a'u neilltuo i Arweinydd/ Arweinyddion Gweithredol i asesu'r effaith ar yr Ymddiriedolaeth, ac i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol fel sy'n briodol. Mae cofrestr a log gweithredu yn cael eu cynnal gan y Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol. Mae rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi'u rhestru yn Atodiad 5 ar dudalen 127. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gylchlythyrau Iechyd Cymru i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.



Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau uchelgeisiol yn strategol ac yn weithredol i addasu i newid hinsawdd a rheoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.



Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod holl oblygiadau'r sefydliad o dan ddeddfwriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu bodloni.

Mae'r mesurau rheoli'n cynnwys:

- Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol yr Ymddiriedolaeth
- Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol yr Ymddiriedolaeth
- Adroddiadau Cydraddoldeb I'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ar Amcanion a Chamau Gweithredu'r Ymddiriedolaeth o ran Cydraddoldeb
- Adroddiadau i ymholiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Adroddiad i Dîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.
- Asesiad Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb

“

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn brif sbardunau effaith sefydliadol.

”

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn brif sbardunau effaith sefydliadol. Mae ein dull yn blaenoriaethu adeiladu gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, gan alluogi gwell penderfyniadau, arloesedd a chanlyniadau i gleifion. Byddwn yn canolbwyntio ar allu arwain cynhwysol, piblinellau talent teg ac ymyriadau sy'n seiliedig ar ddata i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol. Drwy alinio prosesau cynllunio, recriwtio a datblygu'r gweithlu â'n hamcanion strategol, byddwn yn creu gwelliannau cynaliadwy o ran cynrychiolaeth, profiad a datblygiad. Awn ati i ddathlu amrywiaeth yn ei hamryfal agweddau a hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan hanfodol o weithlu cynhwysol, sy'n ddiwylliannol gymwys. Mesurir llwyddiant drwy ymgysylltiad gwell gan staff, llai o anghydraddoldeb mewn canlyniadau gyrfa a chysylltiadau amlwg rhwng amrywiaeth y gweithlu a pherfformiad gwasanaeth.



Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo y dylai'r Prif Weithredwr fod yn Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (VUNHST).

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau, hyd y gŵyr ef neu hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r crebwyll sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Llofnodwyd gan:



Carl James
Prif Swyddog Gweithredol
Dyddiad: 25 Mehefin 2026



Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Mewn Perthynas â'r Cyfrifon

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac o incwm a gwariant Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys,
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiad.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd Arwyddwyd:



Sara Moseley

Cadeirydd

Dyddiad: 25 Mehefin 2026



Carl James

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 25 Mehefin 2026



Matthew Bunce

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Dyddiad: 25 Mehefin 2026



Datganiad Llywodraethu

Cwmpas Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre, gan Gynnwys Cyrff sy'n cael eu Lletya

Mae Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn gyfrifol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol ar gyfer y gwasanaethau hynny a reolir yn uniongyrchol a'r rhai a reolir trwy drefniadau lletya. Fel y Swyddog Atebol, mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol, ynghyd â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdanynt yn bersonol. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Cyfrifyddu GIG Cymru. Mae cyfarwyddwyr y sefydliadau sy'n lletya wedi'u rhwymo gan Ddatganiad Cydymffurfedd Llywodraethu a rennir gyda Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac yn unol â'r cytundebau lletya unigol gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mae Adroddiad Blynnyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi parhau i weithio'n fewnol a gweithio gyda phartneriaid i ymateb i anghenion gofal iechyd ein poblogaeth. Mae'n egluro trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu yn cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru a ble a sut y ceisiwyd ac y darparwyd sicrwydd. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn adrannau'r Adroddiad Atebolrwydd, ond y bwriad oedd lleihau dyblygu lle bo modd.

Drwy gydol 2025-2026, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi parhau i addasu ei fframwaith llywodraethu er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw wrth gynnal trefniadau llywodraethu da.

Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn manylu ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cyflawni cyfrifoldeb y Prif Weithredwr i reoli adnoddau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-2026.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu gwasanaethau drwy ei rhaglenni a'i sefydliadau sy'n cael eu lletya – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), Technoleg Iechyd Cymru (HTW) a Therapiau Datblygedig Cymru (ATW).

Mae Rheolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) a Chyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru wedi llofnodi a chyflwyno Datganiadau Cydymffurfedd Llywodraethu, yn manylu ar drefniadau llywodraethu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac yn datgan cydymffurfedd â nhw. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno i Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i roi sicrwydd bod polisiau, systemau a phrosesau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu dilyn i gefnogi llywodraethu da.

Nid oes gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ddyletswydd statudol i gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ond mae'n gwneud hynny, fel mater o lywodraethu da, i roi sicrwydd i bartneriaid ac, yn benodol, i'r Ymddiriedolaeth, fel ei sefydliad lletya, mewn perthynas â'i threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd.

Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol PCCG yn manylu ar y trefniadau sydd ar waith yn ystod 2025-26 i Reolwr Gyfarwyddwr PCCG gyflawni ei gyfrifoldebau a rheoli ei adnoddau yn rhinwedd ei swydd yn Swyddog Atebol o fewn y fframwaith llywodraethiant ac atebolrwydd sydd ar waith drwy gydol y flwyddyn a thrwy drefniant lletya gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth).

Cyflawni Cyfrifoldebau

Cyfansoddwyd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i gydymffurfio â Gorchymyn Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Sefydlu) 1993 Rhif 2838 a Gorchymynion Diwygio dilynol (1995 Rhif 2492, 1999 Rhif 808, 1999 Rhif 826, 2002 Rhif 442 (W.57) a 2002 Rhif 2199 (W.219, 2009 Rhif 2059, 2012 Rhif 1261 (W.156), 2015 Rhif 22, 2017 Rhif 912, 2018 Rhif 887 (W176), 2021 Rhif 232 (W.58)). Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd sydd wedi'u cyflwyno yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni nifer o swyddogaethau hyrwyddo hefyd, ac yn gweithredu fel llysgenhadon dros y materion hyn (y manylir arnynt ar dudalennau 64-70).

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac yn canolbwyntio ar strategaeth, perfformiad ac ymddygiad. Mae Aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am y cyfeiriad strategol ac am ddarparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn gyfrifol am annog diwylliant agored gyda'r nod o sicrhau safonau uchel.

Mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am bob penderfyniad ac yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro perfformiad y sefydliad a sicrhau ei fod yn ymatebol i anghenion ei gymunedau.

Caiiff Aelodau Annibynnol eu cefnogi gan drafodaeth arfarnu datblygiad flynyddol gyda'r Cadeirydd.

Caiiff perfformiad y Cadeirydd ei asesu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol tra bod perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu gan y Cadeirydd gyda mewnbwn gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru.

Trefniadau Uwchgyfeirio Ac Ymyrryd

O dan y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd, mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Grŵp Triphlyg) ddwywaith y flwyddyn i drafod yr asesiad cyffredinol o bob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig mewn perthynas â'r trefniadau. Caiiff ystod eang o wybodaeth a deallusrwydd eu hystyried i nodi unrhyw broblemau a llywio'r asesiad. Mae gan y fframwaith bum lefel uwchgyfeirio:

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac yn canolbwyntio ar strategaeth, perfformiad ac ymddygiad.

- Lefel 1 - Trefniadau Arferol
- Lefel 2 - Maes sy'n Peri Pryder
- Lefel 3 - Monitro Uwch
- Lefel 4 - Ymyrraeth wedi'i Thargedu
- Lefel 5 - Mesurau Arbennig

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth yn Lefel 1, trefniadau arferol, ar gyfer 2025-26.

Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

Mae Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu haddasu o Reolau Sefydlog Enghreifftiol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, ac maent wedi cael eu dylunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn *Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990 (1990/2024)* yn arferion gweithredu beunyddiol. Gyda'i gilydd, mae cynllun y materion a neilltuwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth; y cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill; a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynnal busnes yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir hyn ymhellach gan y ffaith y gofynnir am ddatganiadau o fuddiannau cyn dechrau holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau.

Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau sydd wedi cael eu gosod gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn llunio'r Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd.

Amrywiad i Reolau Sefydlog Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre

Pan fo angen amrywio'r Rheolau Sefydlog, neu pan fo angen cyflawni dyletswyddau'n wahanol, mae angen i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth graffu ar y penderfyniadau hyn a chânt eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfodydd a'r logiau gweithredu priodol yn ôl yr angen.

Yn ystod 2025-2026, mae'r Rheolau Sefydlog wedi cael eu diweddarau bob hyn a hyn i ystyried newidiadau. Cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth set ddiwygiedig o Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes er mwyn sicrhau bod y materion canlynol yn cael eu datrys:

- **Mawrth 2025:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, yn deillio o ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a Chwad a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yn dilyn gwneud Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

Daeth Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 i rym ar 20 Ionawr 2025.





Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau drwy ei Bwyllgorau, a restrir yn y tabl isod, a'i Gynllun Dirprwyo, a nodir yn ei Reolau Sefydlog.



Roedd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009, Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 a Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017.

Diweddarwyd Rheolau Sefydlog Enghreifftiol yr Ymddiriedolaeth, Cadw a Dirprwyo Pwerau i adlewyrchu'r gwelliannau.

- **Gorffennaf 2025:** Diwygiadau i Atodlen 3 Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, yn deillio o'r adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu mewn perthynas ag Is-bwyllgor Craffu Prosiect a Fforwm Partneriaeth Lleol y Ganolfan Ganser Felindre (CGFn) newydd.
- **Medi 2025:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 1 Cynllun Enghreifftiol ar gyfer Cadw a Dirprwyo Pwerau sy'n ymwneud ag Ad-dalu Incwm Ad-daliadau Fferyllfeydd.
- **Medi 2025:** Diwygiadau dros dro i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 2.1 Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol sy'n ymwneud â Phennod 11 – Caffael a Chontractio, yn dilyn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC 2025/012 – Diweddariadau i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog GIG Cymru ar gyfer diwygiadau caffael cyhoeddus.
- **Medi 2025:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 3, yn deillio o'r Adolygiad Blynyddol o'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu mewn perthynas â'r Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.
- **Mawrth 2026:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 5, yn dilyn diwygiadau i Atodiad 5 o Reolau Sefydlog Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau – Proses ar gyfer Dewis, Penodi a Therfynau Cadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau.

Mae'r holl bapurau perthnasol ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau drwy ei Bwyllgorau, a restrir yn y tabl isod, a'i Gynllun Dirprwyo, a nodir yn ei Reolau Sefydlog.

Drwy gydol 2025-2026, cyfarfu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn bersonol gyda chyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw trwy webinar Microsoft Teams i barhau i alluogi mynediad cynhwysol i'r cyfarfodydd gan aelodau'r cyhoedd. Mae darllediad byw o'r cyfarfod yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynnal cyfarfodydd o'r fath mewn modd agored a thryloyw ac fe'i cefnogir gan agenda a phapurau cyfarfod sydd ar gael ymlaen llaw trwy wefan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg ar gael ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd. Gwahoddir y cyhoedd i bob cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd a chyhoeddir hysbysiadau cyhoeddus ar wefan a sianeli digidol yr Ymddiriedolaeth. Mae recordiadau digidol o gyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

Cyhoeddir holl bapurau Pwyllgorau cyhoeddus ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r holl Bwyllgorau cyhoeddus yn darparu eu hagendâu a'u cofnodion ar gyfer pob cyfarfod. Cyflwynir adroddiadau uchafbwyntiau i'r Bwrdd i gyfrannu at ei asesiad o sicrwydd ac i graffu ar gyflawni amcanion.

Mae saith Pwyllgor/Fforwm Partneriaeth yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, a gefnogir gan Is-bwyllgorau/grwpiau wrth gyflawni'r swyddogaethau a amlinellir isod:

Pwyllgor, Grŵp Cyngori a Fforwm	Is-bwyllgor
Pwyllgor Archwilio (Ymddiriedolaeth)	N/A
Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cynghorol	N/A
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau
Fforwm Partneriaeth Lleol	N/A
Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	N/A
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad	- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (ar gyfer gweithgaredd Ymchwil a Datblygu) - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) (ar gyfer cyflawni ysbyty newydd)
Pwyllgor Datblygu Strategol	- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (ar gyfer gweithgaredd Strategol / Arloesi) - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) (ar gyfer gosod cyfeiriad i'r dyfodol)

Nodir y dyddiadau y cyfarfu Bwrdd a Phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2025-2026 yn Atodiad 3 ar dudalen 134.

Gweithgarwch Pwyllgorau

Yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, mae pob Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ei waith yn ystod y flwyddyn yn manylu ar y busnes, y gweithgareddau, y presenoldeb a'r prif faterion y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â nhw yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae copïau o Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2025-2026, sy'n amlinellu gweithgarwch pob un o'r Pwyllgorau, ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#). Yn ogystal, mae pob cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau ar y prif bwyntiau sy'n amlinellu'r materion a'r gweithgaredd a ystyriwyd ac a gafodd sylw gan bob Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd, o dan y penawdau canlynol:

-  Rhybudd / Uwch-Gyfeirio
-  Rhoi Cyngor
-  Sicrhau
-  Hysbysu

Cyflwynir Adroddiad Uchafbwyntiau pob Pwyllgor i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor. Ac maent ar gael o fewn papurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar Wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau yn flynyddol yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, neu'n amlach os yw'r Pwyllgor neu Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu bod angen hynny. Mae Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Mae'r prif uchafbwyntiau a'r materion a ystyriwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i Bwyllgorau yn ystod 2025-2026 yn cael eu cynnwys yn Atodiad 1 y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 121.

Mae cofnodion a phapurau holl gyfarfodydd cyhoeddus Bwrdd a Phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Yn ystod 2025-2026, penderfynodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth adolygu ei drefniadau llywodraethu a Phwyllgorau Bwrdd yn rhan o'i raglen datblygu Bwrdd ehangach. Un o ystyriaethau allweddol y gwaith hwn yw'r angen i sicrhau bod strwythurau llywodraethu yn parhau i fod yn addas at y diben, yn gymesur, ac yn cyd-fynd ag uchelgeisiau strategol, proffil risg a chymhlethdod gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r gwaith yn cael ei lywio gan:

- brofiad o weithredu'r fframwaith pwyllgorau presennol;
- heriau a chyfleoedd strategol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys datblygiadau cyfalaf mawr, trawsnewid gwasanaethau ac arloesi; a'r
- angen i gryfhau sicrwydd, egluro atebolrwydd, a lleihau dyblygu ar draws fforymau llywodraethu yn unol â safonau Llywodraeth Cymru a disgwyliadau'r cyhoedd.

Yn ystod 2025-2026, roedd prif agweddau ar fusnes a materion Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Archwilio er ystyriaeth a chynghor, gan gynnwys y camau a gymerwyd, yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Cytuno ar y Cynlluniau Archwilio Mewnol ac Allanol ar gyfer y flwyddyn.
- Derbyn Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol, a monitro cynnydd wedi hynny yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Archwilio. Mae'r Traciwr Argymhellion Camau Gweithredu Archwilio, sy'n olrhain gweithredu argymhellion Archwiliadau, yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.
- Cytuno ar y Cynllun Atal Twyll Blynyddol a monitro gweithgareddau atal twyll.
- Adolygu'r Gofrestr Datganiadau Buddiannau a Rhoddion, Lletygarwch, Nawdd a Honoraria a'r Gofrestr Gyfreithiol a Chydymffurfedd.
- Monitro datblygiad Adroddiad Atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth.
- Monitro Trefniadau Llywodraethu ar draws y sefydliad.
- Monitro'r broses rheoli risg gyffredinol drwy adolygu Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mhob cyfarfod.

Ceir rhagor o fanylion am weithgarwch y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2025-2026 yn llawn ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Camau Gweithredu Brys y Cadeirydd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu system o ddefnyddio **Camau Brys y Cadeirydd** ar gyfer amgylchiadau eithriadol y tu allan i'r cylch cyfarfodydd ffurfiol. Adroddir manylion yr holl benderfyniadau i gyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i ddefnyddio 'Agenda Caniatâd' ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau fel y gellir prosesu unrhyw eitemau, pan fo'n briodol, heb eu rhoi ar y



prif agenda er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser cyfarfodydd. Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd ofyn am ystyried eitemau ar yr 'Agenda Caniatâd' ar brif agenda'r cyfarfod i'w trafod.

Ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Lleol

I gefnogi Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd Fforwm Partneriaeth Lleol, a gyfarfu deirgwaith yn ystod 2025-2026, gyda Chyd-gadeiryddion a enwebir o blith cynrychiolwyr Undebau Llafur a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Rôl y Fforwm Partneriaeth Lleol yw sicrhau cydweithio, trafodaeth ac ymgysylltiad rhwng arweinwyr a rheolwyr yr Ymddiriedolaeth a'n cydweithwyr undebau llafur, gyda phwyslais ar ddod i gonsensws wrth ddatblygu cynlluniau'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r gweithlu. Nid yw hyn yn cynnwys gweithwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n gweithio mewn sefydliadau sy'n cael eu lletya.

Mae esiamplau o ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2025-2026 yn cynnwys:

- Adolygiad parhaus o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, hyfforddiant Statudol a Gorfodol a chydymffurfedd ag AGDP
- Ymgynghoriad ac Adborth ar y strwythur newydd o fewn Gwasanaeth Cancer Felindre
- Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25
- Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhywedd 2024/2025
- Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024/2025
- Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol
- Cynllun Gweithlu Strategol yr Ymddiriedolaeth
- Risgiau'r Gweithlu
- Gwobrau Staff
- Diwylliant a Chynhwysiant
- Gwasanaethau Llesiant Staff
- Diweddariadau Canolfan Ganser Felindre Newydd

Strwythur Gorchymyn a Rheoli Digwyddiadau Mawr

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu strwythur gorchymyn a rheoli digwyddiadau mawr yn ôl y gofyn. Yn ystod 2025-2026, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth ei strwythur gorchymyn a rheoli digwyddiadau mawr mewn ymateb i rybudd tywydd garw ddechrau mis Ionawr 2026, a gafodd ei ddiddymu wedi hynny pan ddaeth y tarfu posibl ar wasanaethau i ben.

Diben y System Rheolaeth Fewnol

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad amcanion y sefydliad, ac mae'n gyfrifol am roi trefniadau ar waith i gael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y system gyffredinol honno.

Fel Swyddog Atebol, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad. Mae'r adolygiad

o'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith yr archwilyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac ar sylwadau gan yr archwilyr allanol yn eu llythyr archwilio ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg. Dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi ynghylch effeithiolrwydd, felly, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol a darbodus.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu ehangach a osodwyd ar gyfer GIG Cymru, a'i bod yn ymgorffori'r safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer GIG Cymru (fel y'u diffinnir yn yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd a'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru), ynghyd â'i fframweithiau cynllunio a rheoli perfformiad.

Dangosir crynodeb cyffredinol o Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth isod:



Statudol, Cyhoeddus				
Bwrdd yr Ymddiriedolaeth				
Pwyllgorau				
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (Bob yn ail fis)	Pwyllgor Datblygu Strategol (Bob yn ail fis)	Y Pwyllgor Archwilio (Chwarterol)	Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (Chwarterol/Deufisol)	Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Chwarterol)
Perfformiad a Sicrwydd Cydymffurfedd a Safonau Rheoli Risg Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth Monitro Cynllun Blynyddol/IMTP Gwrandao a Dysgu Y Gweithlu Cyflawni Digidol Llywodraethu GwybodaethPlan	Strategaeth ar gyfer Comisiynu Arloesedd Gosod Cyfeiriad Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn y Dyfodol a Rhaglenni Mawr eraill Strategaethau'r Ymddiriedolaeth. Datblygu Cynllun Tymor Canolog Integredig (IMTP) Partneriaethau (y Byd Academiaidd / Diwydiant / y Trydydd Sector) Datblygiadau Digidol Datblygu Sefydliadol	Llywodraethu a Risg Cyfrifon Archwilio Mewnol Archwilio Allanol Atal Twyll Traciwr Archwilio	Amcanion Swyddogion Gweithredol Perfformiad Swyddogion Gweithredol Gohebiaeth Anhysbys Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS)	Llywodraethu a Risg Strategaeth a Pherfformiad Adroddiadau Ariannol Buddsoddi Gweithgarwch Codi Arian Radiotherapi Datblygedig Bwrdd y Rhaglen
Is-bwyllgor: Craffu ar Brosiect CGFn Adroddiad ar y Prif Bwyntiau Risgiau a Materion	Is-bwyllgor: Craffu ar Brosiect CGFn Gosod Cyfeiriad y Dyfodol CGFn Camau Gweithredu Arfaethedig i'w datblygu			Is-bwyllgor: Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol Adolygu Perfformiad a Strategaeth ar gyfer y Portffolio Buddsoddi
Is-bwyllgor: YDA Adroddiad ar y Prif Bwyntiau Cynnydd yn erbyn Ymddiriedaeth Cynllun Gweithredu Blynyddol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi	Is-bwyllgor: YDA Diweddariadau Strategaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi'r Ymddiriedolaeth Diweddariadau'r Grŵp Llywio			Is-bwyllgor: YDA Cydweddu â Strategaeth a Chyllid

Grwpiau Cyngchori a Fforymau:

Fforwm Partneriaeth Lleol / Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cyngchorol / Bwrdd Partneriaeth Academiaidd / Grŵp Aelodau Annibynnol

Pwrpas: Gwella Bywydau

Gweledigaeth: Gofal Ardderchog; Dysgu Ysbrydoledig; Pobl Iachach

Gwerthoedd: Gofalgar; Parchus; Atebol

Llywodraethu'r Cronfeydd Elusennol

Penodwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn Ymddiriedolwr Corfforaethol y Cronfeydd Elusennol yn rhinwedd Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) Rhif 2838 a ddaeth i fodolaeth ar 1 Rhagfyr 1993, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gwasanaethu fel ei asiant yn y broses o weinyddu'r cronfeydd elusennol a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth.

Yr Ymddiriedolaeth, fel Ymddiriedolwr Corfforaethol, sy'n atebol yn y pen draw am Gronfeydd Elusennol a roddir i Elusen Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Er mwyn hwyluso'r broses o weinyddu a rheoli'r cronfeydd hyn, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Pwyllgor Cronfeydd Elusennol i roi cyngor ac argymhellion i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sicrhau ei hun fod llywodraethu ariannol a diogelwch pob digwyddiad codi arian a gynhelir gan yr Elusen yn briodol.

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor bob tri mis ac fel arall, yn ôl cyfarwyddyd Cadeiryddion y Pwyllgorau. Mae'n rhaid i o leiaf dau aelod ddod i'r cyfarfodydd, i sicrhau bod digon o bobl yn bresennol yn y Pwyllgorau.

Cefnogir y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gan Uwch Grŵp Arwain y Cronfeydd Elusennol sy'n cwrdd bob mis. Fe'i cefnogir hefyd gan Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau, i oruchwylio'r buddsoddiadau a wneir gan yr Elusen.

Gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu'r eithriad IFRS10 i gydgrynhoi'r Cyfrifon Elusennol.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cronfeydd Elusennol ar gael yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Systemau Rheolaeth Fewnol a Sicrwydd - Sefydliadau sy'n Cael eu Lletya

Mae sefydliadau sy'n cael eu lletya yn defnyddio Strwythur Pwyllgorau presennol yr Ymddiriedolaeth (Fframwaith Atebolrwydd a Llywodraethiant) a ddangosir ar dudalen 84 y Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) yn cynnal Pwyllgor Archwilio ar wahân i ystyried materion sy'n ymwneud yn benodol â'r trefniadau llywodraethu yn PCGC ac sydd â'r un Cadeirydd ac Aelodau Annibynnol â Phwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae Datganiad Llywodraethu Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC i Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn rhoi amlinelliad o drefniadau llywodraethu PCGC ac mae ar gael gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ar gais.

Mae gan PCGC Bwyllgor Partneriaeth Cydwasaethau (PPC) a sefydlwyd yn 2012 i gydymffurfio â Rheoliadau Cydwasaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Cymru) 2012 (2012/1261 (W156)). Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Felindre) gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasaethau (y Pwyllgor Partneriaeth). Mae Rheolau Sefydlog Pwyllgor y Partneriaeth Cydwasaethau hwn yn ffurfio Atodiad i Reolau Sefydlog Felindre ei hun ac yn cael effaith fel pe baent wedi'u hymgorffori ynddynt. Fe'u cynlluniwyd i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau

Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Cymru) 2012 (2012/1261 (W.156)) a Rheol Sefydlog 3 Felindre yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Mae gan Bwyllgor PCGC aelodau o bob corff statudol o fewn GIG Cymru, a chaiff ei gadeirio gan Gadeirydd Annibynnol. Mae Pwyllgor PCGC yn adrodd i Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac i bob Bwrdd corff ieched arall yng Nghymru drwy ei aelod cynrychioladol ar y Pwyllgor. Mae gan PCGC ei Rheolau Sefydlog ei hun sydd wedi'u hatodi i Reolau Sefydlog Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel Atodlen 5.

Ar hyn o bryd, gall sefydliadau sy'n cael eu lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gysylltu â Phwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a Grwpiau Rheoli lle bo hynny'n briodol i sicrhau bod sicrwydd yn cael ei roi ynghylch y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys cydymffurfedd statudol ar gyfer y meysydd sy'n aros o fewn maes cyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth.

Rhoddir sicrwydd statudol a rheoleiddiol o safbwynt gweithgareddau PCGC trwy Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth.

Yn unol â'r trefniadau ar gyfer Pwyllgor Archwilio Felindre ar gyfer PCGC, llunnir adroddiad ar y prif bwyntiau ar wahân ar gyfer yr adran hon o'r Pwyllgor, a rhennir hwn gyda Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i roi sicrwydd.

Ym mis Ebrill 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau atebolrwydd a llywodraethu PCGC, gan gydnabod bod ei gylch gwaith wedi esblygu ers ei sefydlu yn 2012. Dechreuodd yr adolygiad yn fuan wedi hynny a daeth i ben yn haf 2025.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd PCGC ym mis Rhagfyr 2025.

Gwnaeth yr adroddiad a gyhoeddwyd gyfres o argymhellion gyda'r bwriad o gryfhau eglurder atebolrwydd, trefniadau sicrwydd, ac effeithiolrwydd strwythurau llywodraethu allweddol, gan gynnwys y berthynas waith rhwng PCGC a'r Ymddiriedolaeth yn ei rôl yn sefydliad lletya statudol. Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r argymhellion gan Lywodraeth Cymru, yn amodol ar ystyriaeth bellach.

Ers ei gyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull Grŵp Gweithredu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, PCGC, yr Ymddiriedolaeth a byrddau ieched, i oruchwylio a chydlynu'r gwaith o gyflawni'r argymhellion a dderbyniwyd. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Chwefror.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, PCGC a swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydweithio i ddatblygu cynllun y prosiect ac i fapio'r argymhellion yn ffrydiau gwaith gwahanol. Mae'r rhain yn cwmpasu:

- argymhellion dan arweiniad Llywodraeth Cymru
- argymhellion dan arweiniad PCGC
- argymhellion dan arweiniad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Mae pob argymhelliad wedi cael blaenoriaeth, ac mae gwaith ar y gweill i ddiffinio'r cwmpas cysylltiedig, yr allbynnau, y llwybrau adrodd, y tasgau lefel uchel a'r amserlenni ar gyfer eu cyflawni.



Yr Ymddiriedolaeth, fel Ymddiriedolwr Corfforaethol, sy'n atebol yn y pen draw am Gronfeydd Elusennol a roddir i Elusen Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.



Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion allweddol ar draws themâu gan gynnwys:

- Adolygu'r broses ar gyfer penodi, rôl a goruchwylio perfformiad Cadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, gan gynnwys cyfranogiad Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Egluro'r broses ar gyfer cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) PCCG, cyfranogiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn cyfarfodydd atebolrwydd PCCG
- Egluro'r broses ar gyfer ychwanegu gwasanaethau newydd at PCCG
- Adolygu a chryfhau'r fframwaith llywodraethu clinigol sy'n ymwneud â gwasanaethau PCCG
- Adolygu'r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y ddogfennaeth letya



Mae'r sefydliadau a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnal ac yn rheoli eu cofrestrau risg eu hunain ac yn cydymffurfio â phrosesau uwchgyfeirio'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o unrhyw risgiau sylweddol perthnasol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy Gofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth yn ôl yr angen.



Bu cynnydd yn destun adroddiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, a bydd yn parhau felly, gyda swyddogion yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru, PCCG, Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol i gryfhau'r trefniadau presennol.

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adolygiad ac ymateb Llywodraeth Cymru ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Y Gallu i Ddelio â Risg

Mae'r sefydliadau a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnal ac yn rheoli eu cofrestrau risg eu hunain ac yn cydymffurfio â phrosesau uwchgyfeirio'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o unrhyw risgiau sylweddol perthnasol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy Gofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth yn ôl yr angen.

Dim ond pan fydd materion sy'n cael effaith amlwg ac uniongyrchol ar yr Ymddiriedolaeth y bydd risgiau sy'n ymwneud â sefydliadau a letyir yn cael eu huwchgyfeirio i gofrestr risg Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a pherfformiad yn fater i sefydliadau sy'n cael eu lletya eu cael, eu rheoli a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen i'r corff noddi perthnasol.

Ceir gwybodaeth am y risgiau a gafodd eu rheoli a'u lliniaru yn ystod 2025-2026 yng Nghofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a geir gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae papurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Rheoli Risg

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Risg a Sicrwydd cymeradwy a pholisïau cysylltiedig ar waith. Mae'r polisïau'n manylu ar broses gadarn o asesu risg i nodi, asesu a rheoli risgiau sefydliadol, a adroddir ar gofrestr risg i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn unol â lefelau parodrwydd i dderbyn risg a bennir gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae Polisi Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn darparu dogfen gyffredinol a strategol ar gyfer fframwaith rheoli risg yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Ochr yn ochr â'r Polisi Rheoli Risg, mae Llawlyfr Gweithdrefnau Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth, sy'n cefnogi cymhwyso'r Polisi Rheoli Risg ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Adolygwyd Polisi Risg yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2025-26 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd yn hydref 2026.

Mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg. Mae'n gosod y 'cywair ar y brig' ar gyfer diwylliant rheoli risg drwy osod archwaeth risg ac ystyried risg yn benodol wrth ddatblygu neu ddiweddarau'r strategaeth, neu wrth ystyried perfformiad a/neu raglenni newid mawr.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith risg ac yn adrodd ar sicrwydd i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fod y gofrestr risg yn adlewyrchu'n briodol y risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad. Mae'n ystyried risg o safbwynt Ansawdd a Diogelwch, priodoldeb y fframwaith rheoli sydd ar waith ac effeithiolrwydd y camau gweithredu i reoli risg.

Mae Pwyllgorau eraill yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fod adrannau penodol Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu'n briodol y risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad, yn unol â'u cwrmpas.

Mae Cyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli Gweithredol yn cefnogi ac yn hyrwyddo rheoli risg. Maent yn sicrhau bod rheoli risg wedi'i integreiddio i bob gweithgarwch.

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer fframwaith risg yr Ymddiriedolaeth.

I grynhoi, mae fframwaith rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn:

- yn hyrwyddo cysondeb a thryloywder drwy fynegi fframwaith trosfwaol ar gyfer rheoli risg a sefydlu iaith risg gyffredin ar draws yr Ymddiriedolaeth;
- esbonio sut mae'r tair llinell amddiffyn yn gweithredu;
- esbonio sut mae rheoli risg yn cyd-fynd â'r strwythurau llywodraethu ar draws y sefydliad;
- diffinio rolau a chyfrifoldebau rheoli risg ar gyfer unigolion a thimau o fewn VUNHST;
- sicrhau bod prosesau rheoli risg yn cefnogi ac yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, y mae ein hymrwymiad i ansawdd a diogelwch yn llinyn aur drwyddi, gan sicrhau ein bod yn rhoi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn;
- cydnabod bod monitro, adolygu, cyfathrebu ac adrodd ar risg yn amserol ac yn gywir yn hanfodol i ddarparu:
 - mecanweithiau rhybuddio cynnar ar gyfer rheoli digwyddiadau risg yn effeithiol
 - sicrwydd i'n cleifion a'n rhoddwyr
 - sicrwydd drwy strwythurau llywodraethu i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac i'n partneriaid/rhanddeiliaid megis Rheoleiddwyr a chyrrff Arolygu
 - llwyfan cadarn ar gyfer gwydnwch sefydliadol
 - cefnogi gwneud penderfyniadau trwy wybodaeth yn seiliedig ar risg; ac yn
 - cefnogi datblygiad parhaus diwylliant lle mae rheoli risg yn rhagweithiol wedi'i integreiddio i holl fusnes yr Ymddiriedolaeth.

Risgiau Strategol

Yn rhan o Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2025-28, cytunwyd ar naw risg strategol gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2026.

Refreshed BAF strategic risks – April 2026

- | | |
|----|--|
| 01 | Mae risg strategol y bydd cymhlethdod a galw cynyddol ar draws ein gwasanaethau arbenigol - canser a gwaed - yn amharu ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau cenedlaethol amserol, diogel a chynaliadwy, gan effeithio ar ganlyniadau cleifion, gwasanaethau rhoddwyr, ansawdd clinigol ac enw da'r sefydliad. |
| 02 | Mae risg strategol y gellir effeithio'n andwyol ar ansawdd canlyniadau a/neu brofiad cleifion/rhoddwyr/y boblogaeth ar draws y gwasanaethau a reolir gan yr Ymddiriedolaeth os na all yr Ymddiriedolaeth gyflawni ei rhaglenni newid uchelgeisiol. |
| 03 | Mae risg strategol nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu cyflawni Strategaethau Ymchwil Gwasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru ac na fydd yn ymgorffori gweithgareddau arloesi yn llawn yn unol â'r Fframwaith Arloesi cenedlaethol. Byddai hyn yn lleihau effeithiolrwydd clinigol a chanlyniadau gofal; yn lleihau enw da cenedlaethol a rhyngwladol; ac yn gwanhau'r gallu i ddenu partneriaeth ariannu ymchwil a staff medrus iawn, gan danseilio cyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth yn y pen draw. |
| 04 | Mae yna risg strategol y bydd yr Ymddiriedolaeth yn anghynaliadwy yn ariannol os na fydd yn sicrhau digon o gyllid ar gyfer darparu gwasanaethau ac nad yw'n gwneud y defnydd gorau o'i hadnoddau. Gallai amrywiad direswm effeithio ar werth ac effeithiolrwydd y gofal y mae ein cleifion a'n rhoddwyr yn ei dderbyn. |
| 05 | Mae risg strategol y bydd yr Ymddiriedolaeth yn methu â gwreiddio ei rôl yn effeithiol fel sefydliad cynaliadwy - y tu allan i'r prif seilwaith a gweithgaredd penodol a arweinir yn ganolog - gan arwain at fethiant i wella iechyd y boblogaeth a wasanaethwn a diffyg cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| 06 | Mae risg strategol na fydd ein pobl yn teimlo ymdeimlad o berthyn, na fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau, na fyddant yn deall sut maent yn cyfrannu at lwyddiant sefydliadol, ac na fyddant yn gallu siarad yn gyfrinachol, gan arwain at effaith negyddol ar brofiad staff os na fyddwn yn meithrin diwylliant cydlynol yn unol â gwerthoedd ein sefydliad. |
| 07 | Mae risg strategol y bydd diffyg buddsoddiad, capasiti a gallu i gynnal, disodli a defnyddio systemau a seilwaith digidol yn effeithiol yn arwain at fethiannau system, gwendidau seiberddiogelwch a thrawsnewid digidol cyfyngedig, gan arwain at amharu ar wasanaethau clinigol, llai o ansawdd ac effeithlonrwydd gofal a gwneud penderfyniadau cyfyngedig, systemau y mae'r Ymddiriedolaeth yn methu eu hystyried yn ddigonol, gan fethu optimeiddio'r cyfleoedd a rheoli risgiau technolegau newydd a phresennol yn effeithiol, gan gynnwys ystyriaethau Deallusrwydd Artiffisial a Diogelwch Gwybodaeth. |
| 08 | Mae yna risg strategol nad yw'r trefniadau llywodraethu sefydliadol a chlinigol yn darparu mecanweithiau a diwylliant priodol i gyflawni ein hamcanion tymor canolig i hir. |
| 09 | Mae yna risg strategol y gall y trosglwyddiad i nVCC o VCC a threfniadau rhedeg dwbl eraill a'r newidiadau sydd eu hangen ar y model clinigol fod heb eu cynllunio ac eu gweithredu'n dda, gan arwain at y potensial o wasanaeth cymwysedig isel neu ohiriog, effaith ar ansawdd y gwasanaethau clinigol a ddarparwyd, y risg wleidyddol / cyhoeddusrwydd negyddol a adeiladwyd, cyflawniad ymrwymadau masnachol gan y Ymddiriedolaeth heb eu cwrdd, a chostau cynyddol. |

Cofrestrau Risg yr Ymddiriedolaeth

Gellir gweld proffil risg y sefydliad trwy Gofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth. Mae'r risgiau'n cael eu nodi ar ddechrau gweithgareddau newydd neu'r rhai sy'n cael eu diwygio a thrwy adolygu risgiau presennol yn barhaus. Cynhelir asesiadau risg i asesu'r effaith ar y gwasanaeth ac ar randdeiliaid eraill.

Mae pob risg yn cael ei hasesu ac yn cael sgôr, sy'n ymwneud â'r effaith y gallai'r risg ei chael a'i thebygolrwydd. Mae risgiau'n cael eu huwchgyfeirio, ac mae'r risgiau ar y lefel uchaf yn cael eu cyfeirio at Fwrdd Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'w gwerthuso cyn eu cynnwys ar gofrestr risg yr Ymddiriedolaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad cyn Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Caiff risgiau newydd eu cyrchu drwy'r cylch llywodraethu; caiff risgiau newydd eu hadolygu gan Uwch Dimau Arwain/Uwch Dimau Rheoli is-adrannol, pan fydd risg yn cael ei derbyn, ei gwrthod neu ei chau. Arweinir rheolaeth o'r pwynt hwnnw gan yr arweinydd risg, ar y cyd â pherchennog y risg, a lle mae'r lefel yn gyfryw (graddfa risg dros 15 neu dros 12 ar gyfer risgiau diogelwch) rhoddir gwybod am y risg drwy'r cylch llywodraethu a nodir isod.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth dair lefel o hyfforddiant risg:

Lefel 1 – Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei wneud gan holl staff yr Ymddiriedolaeth trwy gyfrwng e-ddysgu. Mae'r hyfforddiant yn nodi sut i adnabod risg ac adrodd am risg, trwy'r system Datix trwy'r ffurflen fewnbwn gyntaf.

Lefel 2 – Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu at arweinwyr risg, gan ddarparu gwybodaeth am reoli risg, i ddechrau drwy ail ffurflen fewnbwnnu, gan gynnwys asesiadau risg, pam a sut rydym yn rheoli risg, disgrifiadau o risg a graddfeydd risgiau. Prif amcan hyfforddiant lefel dau yw rheoli risg a dilyn y cylch risg, mesurau lliniaru, cynlluniau gweithredu a rheolaeth reolaidd.

Lefel 3 – Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar lywodraethu a rolau unigol Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr o ran risg.

Mae'r risgiau a gafodd y sgôr uchaf ar ddiwedd mis Mawrth 2026, a lywiwyd drwy Bwyllgor mis Mawrth a chylch Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi'u crynhoi isod. I gael gweld manylion llawnach, gan gynnwys camau lliniaru a rheolaethau, adolygwch Bapur Risg Bwrdd yr Ymddiriedolaeth Mawrth 2026 [yma](#). Nid yw risgiau sy'n ymwneud â sefydliadau sy'n cael eu lletya wedi'u cynnwys yn y rhestr hon.



Math o Risg	Is-adran	Teitl	Sgôr (Cyfredol)
Perfformiad a Chynaliadwyedd y Gwasanaeth	Corfforaethol	Mae risg y bydd dyddiad mynd yn fyw WLIMS 2.0 yn cael ei ohirio oherwydd oediadau yn amserlen y rhaglen genedlaethol yn effeithio ar wireddu canlyniadau prosiectau a galw ychwanegol am ddatblygu systemau etifeddol presennol ymhellach.	20
Ansawdd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i System Gwybodaeth Labordy (SERIF) sydd wedi heneiddio, sy'n arwain at RCI a Phrofion Awtomataidd yn methu gweithredu gwasanaeth diogel.	16
Ansawdd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i Ansawdd a Pherfformiad o ganlyniad i wallau adrodd a hygyrchedd cyfyngedig adroddiadau oherwydd diffyg rhyngwynebau rhwng System TG D y Ffetws (FEDIS) a Chymwysiadau Digidol GIG Cymru, gan arwain at ofal cynenedigol is-optimaidd.	16
Perfformiad a Chynaliadwyedd y Gwasanaeth	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i Berfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaeth sgrinio DNA ffetws di-gelloedd o ganlyniad i lithriad amserlen cam 2 FEDIS yn erbyn yr amserlenni oherwydd problemau annisgwyl a nodwyd yn ystod y cyfnod profi, gan arwain at ansicrwydd ynghylch cadarnhad gan IGDC ar ddilysu pendant a dyddiadau mynd yn fyw. Gallai amserlenni newid ar fyr rybudd os bydd problemau'n codi.	16
Parthau Risg Lluosog	Corfforaethol	Mae risg i feysydd Ansawdd, Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaeth, a'r Gweithlu am fod y galw am waith ar wasanaethau digidol newydd yn fwy na chapasiti tîm digidol yr Ymddiriedolaeth a chapasiti'r Ymddiriedolaeth i ymgymryd â rheoli newidiadau busnes, gan arwain at fethu cyflawni mentrau gwasanaeth blaenoriaeth a alluogir gan y digidol yn llwyddiannus, straen a diffygiad i'r tîm digidol a blaenoriaethau sy'n newid yn rheolaidd.	16
Perfformiad a Chynaliadwyedd y Gwasanaeth	Corfforaethol	Mae risg i ansawdd llywodraethu clinigol a chorfforaethol oherwydd y trefniadau sicrwydd ac adrodd presennol ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu lletya.	16
Parthau Risg Lluosog	Corfforaethol	Mae risg i Ansawdd a Pherfformiad a Sefydlogrwydd Gwasanaethau o ganlyniad i fethu cyflawni Rhaglenni Digidol Cenedlaethol a reolir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) o fewn amser/cost/ansawdd i'w defnyddio gan Ymddiriedolaeth Felindre, gan arwain at amharu ar y model clinigol a'r cynllun i drosglwyddo gwasanaethau i Ganolfan Ganser newydd Felindre. Y rhaglenni IGDC cenedlaethol sy'n peri pryder i'r Ymddiriedolaeth yw RISP/WLIMS/EPMA.	16
Diogelwch	Gwasanaeth Cancer Felindre	Mae risg i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i alw cynyddol ar y tîm archebu sy'n arwain at oedi wrth drefnu triniaethau Therapi Gwrth-ganser Systemig a thoriadau posibl.	15
Diogelwch	Gwasanaeth Cancer Felindre	Mae risg i ddiogelwch staff wrth roi Therapi Gwrth-ganser Systemig heb ddefnyddio dyfeisiau system trosglwyddo cyffuriau caeedig, gan arwain at effaith bosibl ar iechyd o ganlyniad i amlygiad sytotocsig dro ar ôl tro.	15
Perfformiad a Chynaliadwyedd y Gwasanaeth	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg colli perfformiad a chynaliadwyedd o ganlyniad i golli cyflenwad trydanol, gan arwain at golli gwasanaeth a chynhyrchiant yng Ngwasanaethau Gwaed Cymru Llantrisant.	15
Diogelwch	Gwasanaeth Cancer Felindre	Mae risg i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i gapasiti annigonol o fewn y gwasanaeth achosion dydd Therapi Gwrth-ganser Systemig (SACT) sy'n arwain at oedi cyn i gleifion gael triniaeth SACT.	12
Ansawdd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i ansawdd, o ganlyniad i brosesau cyn ac ôl-archwilio ar gyfer pob prawf sy'n cynhyrchu canlyniadau cleifion, gan arwain at effaith andwyol bosibl ar ofal cleifion.	12
Ansawdd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i gofnodi ac awdurdodi canlyniadau annibynnol sy'n arwain at adrodd ar ganlyniadau anghywir ar glaf.	12
Ansawdd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i ddiogelwch cleifion a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data o ganlyniad i aildefnyddio rhifau samplau sy'n arwain at adrodd ar ganlyniadau cleifion anghywir.	12
Ansawdd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i Ansawdd o ganlyniad i osod nodau data i gefnogi monitro tymheredd dwy rewgeall fawr newydd, gan arwain at amharu ar wasanaethau arferol a rheoli llif cleifion.	12
Parthau Risg Lluosog	Corfforaethol	Mae risg i Ansawdd a Pherfformiad a Sefydlogrwydd Gwasanaethau o ganlyniad i ddiffyg capasiti Iechyd a Gofal Digidol Cymru i integreiddio systemau digidol VUNHST i'r Bensaerniaeth Genedlaethol mewn pryd, gan arwain at oedi yng ngallu'r Ymddiriedolaeth i gyflwyno systemau digidol newydd i gefnogi ei hamcanion strategol. Yn benodol, bu'n rhaid uwchgyfeirio integreiddio ar gyfer prosiectau'r IRS, WHAIS, a FEDIS i Weithrediaeth IGDC i'w ddatrys.	12

Datganiad o’r Parodrwydd i Dderbyn Risg

Mae’r Ymddiriedolaeth yn wynebu ystod eang o risgiau sy’n adlewyrchu ei chyfrifoldebau. Gall y risgiau sy’n deillio o’i chyfrifoldebau fod yn sylweddol. Mae’r risgiau hyn yn cael eu rheoli trwy brosesau manwl sy’n pwysleisio pwysigrwydd uniondeb, ymholiad deallus, cynnal staff o safon uchel ac atebolrwydd i’r cyhoedd.

Mae Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg yr Ymddiriedolaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn rhan o adolygiad ehangach o Bolisi Risg yr Ymddiriedolaeth a’r gweithdrefnau cysylltiedig. Mae’n ystyried y risgiau mwyaf arwyddocaol y mae’r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt. Mae’n rhoi amlinelliad o’r dull o reoli’r risgiau hyn. Mae’n rhaid i bob cynllun strategol a busnes ar gyfer meysydd gweithredol fod yn gyson â’r Datganiad hwn. O ystyried ystod gweithgareddau a chyfrifoldebau’r Ymddiriedolaeth, nid yw’n briodol gwneud un datganiad trosfwaol am agwedd yr Ymddiriedolaeth at risg. Yn hytrach, mae ystod o ddatganiadau am barodrwydd i dderbyn risg sy’n codi o wahanol feysydd ein gwaith wedi cael eu datblygu a’u cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y meysydd canlynol: Mae’r dull o gategoreiddio Parodrwydd i Dderbyn Risg wedi’i seilio ar Fatrics Parodrwydd i Dderbyn Risg ar gyfer Sefydliadau’r GIG y Sefydliad Llywodraethu Da (GGI):

Maes / Categori Risg	Lefel	Parodrwydd Dderbyn Risg
Diogelwch	1	Lleiaf
Ansawdd	2	Pwyllog
Cydymffurfio	2	Pwyllog
Ymchwil a Datblygu	2	Pwyllog
Enw da	2	Pwyllog
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	2	Pwyllog
Cynaliadwyedd Ariannol	2	Pwyllog
Cyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	3	Ar agor
Partneriaethau ac Arloesi	4	Ceisio
Llywodraethu Gwybodaeth	2	Pwyllog
Amgylcheddol	3	Ar agor

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (a elwid gynt yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth)

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) yn galluogi’r Bwrdd i nodi a deall y prif risgiau i gyflawni ei amcanion strategol; cael sicrwydd bod rheolaethau addas ar waith i reoli’r risgiau hyn, a lle mae angen gwelliannau, bod cynlluniau gweithredu addas ar waith ac yn cael eu cyflawni; a darparu asesiad o’r risg i gyflawni’r amcan cysylltiedig.

Cafodd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ei gymeradwyo a’i weithredu yn wreiddiol ym mis Medi 2020 ynghyd â’r lefelau Parodrwydd i Dderbyn Risg a Goddefiant Risg. Adolygwyd y Fframwaith yn ffurfiol yn rhan o ystyriaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth o’r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2025 ac eto ym mis Mawrth 2026.



Mae'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio gyda phob un o'r perchnogion Gweithredol i ddiweddarau Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth bob deufis er mwyn rhoi adroddiad yn y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Datblygu Strategol, y Pwyllgor Diogelwch a Pherfformiad a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.



Mae'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad a'r Pwyllgor Datblygu Strategol yn goruchwyllo'r prosesau y mae'r Bwrdd yn eu defnyddio i gael sicrwydd mewn perthynas â rheoli Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Mae rheolwyr yn arwain ar reoli risg ac yn gyfrifol am fodelu diwylliant sy'n ymwbyddol o risg yn eu maes. Mae rheolwyr yn derbyn Hyfforddiant Risg Lefel 2 a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a hyfforddiant rheoli risg Lefel 1 trwy fodiwl gorfodol ar ESR. Mae offer, gweithdrefnau a chanllawiau ar gael ar fewnwyd staff yr Ymddiriedolaeth.

Caiiff gwasanaethau eu herio ar eu rheolaeth risg drwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol a Chyfarfodydd Adolygu Gwasanaethau.

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yw'r ffynhonnell wybodaeth allweddol sy'n cysylltu Amcanion Strategol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre â risg a sicrwydd.

Mae gan bob un o'r prif risgiau Berchennog Gweithredol sy'n gyfrifol am gydlynw'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella effeithiolrwydd y rheolaethau allweddol a'r sicrwydd yn barhaus. Mae'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio gyda phob un o'r perchnogion Gweithredol i ddiweddarau Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth bob deufis er mwyn rhoi adroddiad yn y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Datblygu Strategol, y Pwyllgor Diogelwch a Pherfformiad a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Parhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfyngau

O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, rhaid i sefydliadau'r GIG ddatblygu cynlluniau argyfwng a pharhad busnes cadarn. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (VUNHST), gan gynnwys Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaethau Canser Felindre, gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer digwyddiadau mawr ac argyfyngau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i fodloni gofynion deddfwriaethol. Mae gweithgareddau blynyddol yn cynnwys hyfforddiant yn seiliedig ar senarios, diweddariadau i gynlluniau, a chydlynw â phartneriaid gwydnwch lleol. Mae'r ddau wasanaeth yn sicrhau parodrwydd gweithredol, cyfathrebu effeithiol, a chefnogaeth arbenigol. Bydd Adroddiad Blynyddol Cynllunio Argyfwng Iechyd VUNHST ar gyfer 2024, sy'n ymdrin â chydymffurfedd a pharodrwydd, yn cael ei gyflwyno i Weithrediaeth y GIG erbyn 31 Gorffennaf.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae grŵp Parhad Busnes a Pharodrwydd at Argyfwng VUNHST yn parhau i gyfarfod bob deufis i oruchwyllo ac adrodd ar gynnydd Rhaglen Parhad Busnes a Pharodrwydd at Argyfwng VUNHST.

Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal Cymru

Ar 1 Ebrill 2023, yn unol â gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae'r safonau ansawdd iechyd a gofal yn y Ddyletswydd yn disodli safonau iechyd a gofal 2015 a gyhoeddwyd o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru (2015) 015.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi adroddiad Dyletswydd Ansawdd blynyddol, ac mae copïau ohono ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.



Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a'u Heffeithlonrwydd

Yn ystod 2025-2026 mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal chwe sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn ymdrin â nifer o feysydd allweddol gan gynnwys y canlynol:

Ebrill 2025

- Trefniadau Lletya
- Tirwedd Wleidyddol Newydd a Materion yn Ymwneud ag Etholiadau Sydd i Ddod
- Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth Seiber

Mehefin 2025

- Adolygiad y Bwrdd a Llywodraethu
- Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Bwrdd
- Rhaglen Datblygu Diwylliant ledled yr Ymddiriedolaeth
- Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd Llywodraeth Cymru

Hydref 2025

- Datblygu'r Bwrdd – Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol
- Diweddariad Llywodraethu wedi'i Letya
- Hyfforddiant 7 Lefel o Sicrwydd
- Datblygu Portffolio'r Ymddiriedolaeth
- Partneriaid Iechyd Caerdydd a Phartneriaeth Ymchwil Cancer Caerdydd

Rhagfyr 2025

- Blaenoriaethu Portffolio'r Ymddiriedolaeth
- Y Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus – Briffio a Pharatoi
- Diwylliant – Adborth ar Asesiad Niwtral a'r Camau Nesaf
- Diweddariad Adolygiad Llywodraethu ac Atebolrwydd PCGC

Chwefror 2026

- Gweithredu Rheoli Portffolio'r Ymddiriedolaeth
- Strwythur y Bwrdd / Pwyllgorau – Cwmpas
- Adborth Asesu Niwtral
- Diogelwch Tân

Asesiad Llywodraethu Ac Atebolrwydd:

Effeithiolrwydd Bwrdd Yr Ymddiriedolaeth

Mae'r Bwrdd yn adolygu ei effeithiolrwydd yn barhaus drwy gydol y flwyddyn. Mae'n gwneud hyn drwy ystyried:

- triongli themâu cyfarfodydd,
- trwy gyfarfodydd grŵp yr Aelodau Annibynnol
- trwy gyfarfodydd Datblygu'r Bwrdd
- a'r cyfan wedi'i lywio gan sicrwydd mewnol ac allanol a ddarperir gan Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru, gan gynnwys Asesiad Strwythuredig blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd.

Ym mis Hydref 2025, cytunodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i adolygu ei drefniadau llywodraethu a Phwyllgorau Bwrdd yn rhan o'i raglen datblygu Bwrdd ehangach. Un o ystyriaethau allweddol y gwaith hwn oedd yr angen i sicrhau bod strwythurau llywodraethu yn parhau i fod yn addas at y diben, yn gymesur, ac yn cyd-fynd ag uchelgeisiau strategol, proffil risg a chymhlethdod gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Dechreuodd yr adolygiad ffurfiol ym mis Mawrth 2026 i bara am 12 mis ac mae wedi'i lywio gan:

- brofiad y Bwrdd o weithredu'r fframwaith pwyllgorau presennol;
- heriau a chyfleoedd strategol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys datblygiadau cyfalaf mawr, trawsnewid gwasanaethau ac arloesi; a'r
- chydabyddiaeth o'r angen i gryfhau sicrwydd, egluro atebolrwydd, a lleihau dyblygu ar draws fforymau llywodraethu yn unol â fframweithiau, safonau a disgwyliadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Yn rhan o'r gwaith hwn, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi nodi nifer o faterion sy'n effeithio ar fodel presennol Pwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr angen i gryfhau goruchwyliaeth pwyllgorau mewn meysydd allweddol megis ansawdd a phrofiad, cyllid a goruchwyllo portffolio, y gweithlu, diwylliant ac ymgysylltu
- Ymateb i fframwaith atebolrwydd newydd Llywodraeth Cymru
- Cryfhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sicrwydd.
- Gwellu ansawdd adroddiadau.
- Cryfhau gwelededd lleisiau cleifion a rhoddwyr.
- Creu capasiti ar gyfer trafodaethau sy'n edrych ymlaen ac at y dyfodol.
- Cryfhau trefniadau llywodraethu gwasanaethau sy'n cael eu lletya.
- Adnewyddu'r dull o reoli meysydd risg, llwybrau sicrwydd a phwrpas pwyllgorau

Mae'r blynyddoedd nesaf yn gyfle pwysig i'r Ymddiriedolaeth gryfhau ac ehangu ei harweinyddiaeth system genedlaethol a rhyngwladol ar draws y maes gwaed a chanser, fel yr adlewyrchwyd mewn trafodaethau yng Nghyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth gyda Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026. Drwy raglen bwrpasol sydd wedi ymrwymo i gryfhau ei threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd ymhellach, ac adeiladu ar ei harbenigedd, ei phartneriaethau a'i huchelgais, mae'r Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa dda i gefnogi a lywio trawsnewid gwasanaethau, hyrwyddo ymchwil ac arloesedd, a gyrru cydweithio ystyrllon, gan ddarparu manteision pendant i gleifion, rhoddwyr a'r boblogaeth ehangach.

Adolygiad o Effeithiolrwydd - Ffynonellau Sicrwydd Ychwanegol

Fel Swyddog Atebol, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae adolygiad y Prif Weithredwr o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith Archwilwyr Mewnol ac Allanol, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac adroddiadau asesu a sicrwydd eraill gan gynnwys gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r Prif Weithredwr wedi gwrandao ar farn y Bwrdd ynghylch cryfderau a chyfleoedd yn y system rheolaeth fewnol, ac mae gwaith y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgorau eraill a sefydlwyd gan y Bwrdd wedi llywio ei farn.

Caiff perfformiad y Prif Weithredwr wrth gyflawni'r cyfrifoldebau personol hyn ei asesu gan Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru.



Mae archwilio mewnol yn ffynhonnell o sicrwydd i'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy'r Pwyllgor Archwilio gyda llif o sicrwydd ynghylch y system rheolaeth fewnol.



Archwilio - Mewnol

Barn Archwilio a Sgoriau ar Gyfer 2025 – 2026

Mae archwilio mewnol yn ffynhonnell o sicrwydd i'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy'r Pwyllgor Archwilio gyda llif o sicrwydd ynghylch y system rheolaeth fewnol. Cytunodd y Prif Weithredwr ac Archwilio Mewnol ar raglen o waith archwilio, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, ac a gyflwynwyd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus gan Wasanaeth Archwilio Mewnol GIG Cymru. Mae rhaglen y gwaith archwilio wedi canolbwyntio'n fwrriadol ar feysydd risg strategol a gweithredol allweddol; felly, gallai canlyniad yr adolygiadau archwilio hyn amlygu gwendidau rheoli sy'n effeithio ar y farn sicrwydd gyffredinol. Y meysydd a ddefnyddiwyd i fframio proses cynllunio archwilio mewnol 2025/26 oedd:


1. Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol
2. Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd
3. Llywodraethu a Rheoli Ariannol
4. Ansawdd a Diogelwch
5. Llywodraethu Gwybodaeth a Diogeledd
6. Gwasanaeth Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol
7. Rheoli'r Gweithlu
8. Rheoli Cyfalaf ac Ystadau

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i gyflawni yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda'r Pwyllgor Archwilio i raddau helaeth, yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn. Bydd archwiliadau na fuont yn destun adroddiad eto, ond sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, yn destun adroddiad ochr yn ochr ag archwiliadau o gynllun archwilio gweithredol 2025/26.

Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio yn ffurfiol gan y Pwyllgor ym mis Mai 2025, gyda mân ddiweddariadau wedi'u cytuno gan y Pwyllgor yn ystod mis Medi 2025. Gwnaed newidiadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn ac mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn rhan o adroddiadau cynnydd rheolaidd Archwilio Mewnol.

Mae Ffigur 1 isod yn cyflwyno'r sgoriau sicrwydd a nifer yr archwiliadau a ddeilliwyd ar gyfer pob un.

Ffigur 1: Crynodeb o'r sgoriau archwilio



“Lle y darparwyd Sicrwydd Cyfyngedig neu Anfoddhaol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r materion penodol a nodwyd ac wedi cytuno ar gynlluniau gweithredu i wella rheolaeth yn y meysydd hyn.

Yn ogystal, gall Archwilio Mewnol ymateb i geisiadau am gyngor a/ neu gymorth ar draws amrywiaeth o feysydd busnes ar draws yr Ymddiriedolaeth. Caniateir y gwaith cyngori hwn, a wneir yn ogystal â'r cynllun sicrwydd, o dan y safonau i gynorthwyo rheolwyr i wella llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Adroddir ar y gweithgarwch hwn yn ystod y flwyddyn mewn adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi'r sicrwydd canlynol i'r Ymddiriedolaeth fod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol yn y meysydd sylweddol a rhesymol yn y tabl isod sy'n crynhoi'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'r canlyniadau.

Lle y darparwyd Sicrwydd Cyfyngedig neu Anfoddhaol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r materion penodol a nodwyd ac wedi cytuno ar gynlluniau gweithredu i wella rheolaeth yn y meysydd hyn.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau.

Mae crynodeb o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'u canlyniadau wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1. Mae'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn ymdrin â chyfleoedd gwella a nodwyd o'r canfyddiadau, a bydd cynnydd parhaus yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Archwilio drwy graffu ar y Traciwr Gweithredu Archwilio.

Tabl 1: Crynodeb o Archwiliad 2025/26

Sicrwydd Sylweddol	- Rheoli Risg CGFn - Rheoli Newid CGFn
Sicrwydd Rhesymol	- Cydymffurfedd Contractau CGFn (2024/25) - Cyflenwi Contract CGFn (Adeiladu) (2024/25) - Y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol (2024/2025) - Cynllunio Strategol yr Ymddiriedolaeth (Adroddiad Drafft) - Aliniad Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth (TAF) a Chofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth (TRR) - Trefniadau Comisiynu - Deallusrwydd Artiffisial / Roboteg - Seiberddiogelwch - Cynllunio Integredig CGFn - Amcanion Prosiect Allweddol CGFn - Rheoli Asbestos Sicrwydd Ystadau (Adroddiad Drafft)
Sicrwydd Cyfyngedig	Cynllunio Swyddi Meddygol
Anfoddhaol	N/A
Cynghorol/Heb Farn	- Diwylliant a Llesiant Sefydliadol - Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch - Dilyniant ar y Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt - Dilysu Camau Rheoli CGFn - Dilyniant Cynllunio Swyddi Meddygol

Sylwer bod barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi ystyried nifer ac arwyddocâd unrhyw archwiliadau a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn a gwybodaeth arall a gafwyd yn ystod y flwyddyn y barnwyd ei bod yn berthnasol i'r gwaith archwilio mewnol.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar Gyfer 2025–2026

The purpose of the annual Head of Internal Audit opinion is to contribute to Pwrpas barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol a'r Bwrdd sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd yn canolbwyntio ar risg, ac felly bydd angen i'r Bwrdd integreiddio'r canlyniadau hyn â ffynonellau eraill o sicrwydd wrth wneud asesiad cyflawn o reolaeth at ddibenion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Y farn gyffredinol ar gyfer 2025/26 yw:

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon fod digon o waith archwilio wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.

Dylai asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol gael ei ddehongli yn y cydestun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, a dylid ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth y sefydliad wedi'i nodi isod. Cafodd y farn gyffredinol ei rhestru fel Sicrwydd Rhesymol. Wrth ddod i'r casgliad yma, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod mwyafrif yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi diweddu'n bositif, a bod trefniadau rheoli cadarn yn gweithredu mewn rhai meysydd. Roedd Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 yn cynnwys archwiliadau o amcanion gweithredol allweddol, cyflawniadau digidol, rheoli rhaglenni a risgiau cysylltiedig.

Sicrwydd rhesymol



Gall y Bwrdd fod yn rhesymol o sicr fod y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sydd wedi eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas ac wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen i rai materion gael sylw rheolwyr o ran rheoli, dylunio neu gydymffurfio.

Effaith isel i gymedrol ar wireddu risgiau gweddilliol hyd nes y cânt eu datrys.

Yn ogystal, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried amlygiad i risgiau sy'n anodd cael gwared arnyh nhw ar draws yr aseiniadau hynny lle yr adroddwyd bod sicrwydd cyfyngedig. At hynny, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried yr effaith lle na arweiniodd aseiniadau archwilio a gynlluniwyd eleni at archwiliadau llawn yn dilyn gwaith cynllunio rhagarweiniol ac roedd y rhain naill ai: wedi'u tynnu o'r cynllun; wedi'u tynnu o'r cynllun a rhoi archwiliad arall yn eu lle; neu wedi'u gohirio tan flwyddyn archwilio yn y dyfodol. Cyflwynwyd y rhesymau dros newidiadau i'r cynllun archwilio i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u cymeradwyo. Er gwaethaf y ffaith bod y farn wedi'i chyfyngu i'r meysydd hynny a oedd yn destun adolygiad archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth lunio ei farn gyffredinol.

Darperir crynodeb o'r canfyddiadau isod gan ddefnyddio wyth maes gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth i strwythuro'r cynlluniau strategol a gweithredol blwyddyn o hyd.

Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol

Cynhaliodd Archwilio Mewnol ddau adolygiad yn y maes hwn.

- **Dilyniant ar Gamau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt** – Ar gyfer yr adolygiad cynghori hwn, ystyriodd Archwilio Mewnol a gafodd sampl o gamau rheoli cytunedig 2024/25 eu gweithredu mewn modd amserol, gyda thystiolaeth ategol. Asesodd Archwilio Mewnol gywirdeb y Traciwr Archwilio hefyd, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu archwilio wedi'u cofnodi'n gywir, gan gynnwys unrhyw estyniad i'r amserlen weithredu. Ni nodwyd unrhyw faterion i'w hadrodd.

- **Aliniad Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth (TAF) a Chofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth (TRR)** – Canfuwyd bod y trefniadau llywodraethu risg yn gadarn ar y cyfan a phenderfynwyd ar sicrwydd rhesymol. Fe wnaeth yr archwiliad nodi meysydd i'w gwella megis egluro rolau, gwella cyflawnrwydd data Datix, a gwella amseroldeb uwchgyfeirio risg.

Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd

Cynhaliodd Archwilio Mewnol un adolygiad yn y maes hwn.

- **Cynllunio Strategol yr Ymddiriedolaeth (Adroddiad Drafft)** – Daeth yr archwiliad mewnol o gynllunio strategol i'r casgliad bod sicrwydd rhesymol ar y cyfan, gan ganfod bod trefniadau ar gyfer datblygu a chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn gyffredinol wedi'u cynllunio'n dda, eu gwreiddio'n dda, ac yn cydreded yn dda â gofynion cenedlaethol yn gyffredinol, gyda strwythurau llywodraethu cryf ac ymgysylltiad effeithiol â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae angen gwella nifer o feysydd, gan gynnwys y tryloywder cyfyngedig a'r dogfennaeth anghyson o weithgareddau llywodraethu a sbardunau uwchgyfeirio aneglur ar gyfer problemau cyflawni.

Llywodraethu a Rheoli Ariannol

Cynhaliodd Archwilio Mewnol un adolygiad yn y maes hwn.

- **Trefniadau Comisiynu** – Daeth yr archwiliad i'r casgliad bod sicrwydd rhesymol ar y cyfan, gan amlygu aliniad strategol a llywodraethu cryf. Roedd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cynnwys yr angen i nodi a sicrhau cyllid cyn cytuno ar ehangu gwasanaethau yn y dyfodol ac i ddatrys ansicrwydd mewn trefniadau ariannu Cytundeb Hirdymor.

Ansawdd a Diogelwch

Cynhaliodd Archwilio Mewnol un adolygiad yn y maes hwn.

- **Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch** – Cynhaliwyd adolygiad ymgynghorol i bennu statws camau gweithredu rheoli i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol o'n harchwiliad o'r Ddyletswydd Ansawdd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025. Awgrymodd yr adolygiad y dylid ailystyried rhai asesiadau ac yn benodol, y dylid ailagor dau gam gweithredu a gaewyd o ystyried y diffyg tystiolaeth o weithredu.

Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth

Cynhaliodd Archwilio Mewnol dri adolygiad yn y maes hwn.

- **Y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol (2024/2025)** – Roedd canfyddiadau'r archwiliad yn ymwneud yn bennaf ag eglurder a chysondeb yn hytrach na diffyg trefniadau llywodraethu, gyda rolau, cyfrifoldebau ac awdurdod gwneud penderfyniadau heb eu diffinio'n ddigonol na'u cymhwyso'n gyson bob amser rhwng rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol. Er bod sianeli cyfathrebu a llwybrau adrodd ar waith, nid oeddent bob amser yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi gwneud penderfyniadau a chyflawni amserol; yn ogystal, mae risgiau gweithredol gweddilliol yn parhau, yn enwedig o ran atebolrwydd am benderfyniadau a rheolaethau dros fynediad at systemau etifeddol, gan adlewyrchu gwendidau wrth weithredu a goruchwylio rheolaeth yn hytrach na bylchau sylfaenol yn y fframwaith rheoli. Felly, darparwyd sicrwydd rhesymol ar gyfer yr agweddau hyn ar yr archwiliad.

Fodd bynnag, o ran ymarferoldeb y cynnyrch, asesodd Archwilio Mewnol hyn fel sicrwydd cyfyngedig. Cafodd nifer o'r gofynion a oedd wedi'u cwmpasu'n wreiddiol ar gyfer Cam 1 eu dadflaenoriaethu yn ystod y broses gyflawni ac ni fwriedir eu cynnwys yng Ngham 2. Nid oedd yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r cam nesaf o ymarferoldeb ar gael chwaith (e.e., staff a chyllid).

- **Seiberddiogelwch** – Cydnabu'r archwiliad welliannau mewn goruchwyllo risg seiber gyda chynnwys risg seiberddiogelwch gyffredinol yng Nghofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth. Er bod sicrwydd **rhesymol** wedi'i bennu, awgrymwyd y dylai rheolwyr ganolbwyntio ar faterion megis rheoli risg anghyson, adnoddau tîm seiberddiogelwch cyfyngedig, adrodd anaml i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad cyfrifol, a bylchau yn y Cynllun Cyflawni Strategol Seiberddiogelwch.
- **Deallusrwydd Artiffisial/Roboteq** – Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran gwreiddio awtomeiddio prosesau robotig a deallusrwydd artiffisial gyda llywodraethu priodol yn darparu sicrwydd rhesymol. Amlygodd yr archwiliad feysydd yr oedd angen eu gwella megis olrhain buddion ffurfiol, map ffordd cyflawni AI, rheoli risg ar gyfer AI, gweithdrefnau gweithredu safonol datblygu, pennu sylfaen prosesau, dogfennaeth brofi, a chynllunio parhad i sicrhau defnydd cadarn ac effeithiol o dechnolegau sy'n esblygu.

Gwasanaeth Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol

Ni chynhaliodd Archwilio Mewnol unrhyw adolygiadau yn y maes hwn.

Rheoli'r Gweithlu

Cynhaliodd Archwilio Mewnol dri adolygiad yn y maes hwn.

- **Cynllunio Swyddi Meddygol** – Yn gyffredinol, roedd y casgliadau Archwilio Mewnol yn seiliedig ar eu hasesiad o reoli'r risgiau cysylltiedig yn ystod yr archwiliad amserlen, pan oedd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu system newydd a ddaeth â heriau ac oedi ychwanegol i gyflawni'r canlyniad a fwriadwyd. Roedd y sicrwydd cyfyngedig yn ymwneud â methu cyflawni'r lefel gwblhau ofynnol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r anghysondebau data a nodwyd.
- **Dilyniant Cynllunio Swyddi Meddygol** – Yn dilyn cwblhau'r archwiliad sicrwydd cyfyngedig, cwblhaodd Archwilio Mewnol adolygiad di-farn ychwanegol yn ystod y flwyddyn i benderfynu a oedd y canfyddiadau allweddol wedi cael sylw fel y trefnwyd. Canfu Archwilio Mewnol welliant sylweddol yng nghyfradd cwblhau cynllunio swyddi a chadarnhaodd adolygiad sampl pellach o gynlluniau swyddi fod ansawdd cwblhau wedi gwella. Felly, o ystyried y cynnydd hwn, gall yr Ymddiriedolaeth fod yn sicr bod y camau rheoli sy'n cael eu cwblhau yn mynd i'r afael â'r risgiau cysylltiedig a chanlyniadau archwiliadau blaenorol.
- **Diwylliant a Llesiant Sefydliadol** – Gan mai adolygiad ymgynghorol yw hwn, ni ddarparwyd sgôr sicrwydd, ond gwnaed awgrymiadau i'r rheolwyr eu hystyried gan gynnwys canolbwyntio ar wella cynlluniau llesiant, monitro cyllidebau, diweddariadau polisi, ymgysylltu ag arweinwyr, a chofnodi data.

Rheoli Cyfalaf ac Ystadau

Cynhaliodd Archwilio Mewnol wyth adolygiad yn y maes hwn.

- **Cydymffurfedd Contractau CGFn (2024/25)** – cadarnhaodd yr archwiliad sicrwydd rhesymol hwn fod prosesau cadarn ar waith i reoli a monitro rhwymedigaethau cytundebol o gwblhau'r agweddau ariannol ym mis Mawrth 2024 ymlaen. Yn benodol, amlygodd yr adroddiad ddatrys oediadau cychwynnol o ran llywodraethu a gweithdrefnau mewn da bryd, defnyddio cynghorwyr allanol i fynd i'r afael â phroblemau gallu, a gwelliannau parhaus mewn mecanweithiau cyfathrebu ac adrodd i gefnogi rheoli contractau yn effeithiol a chyfnodau prosiect yn y dyfodol. Un sylw allweddol oedd bod angen dogfennu unrhyw wersi ar gyfer camau prosiect yn y dyfodol.
- **Cyflawni Contractau CGFn (Adeiladu) (2024/25)** – Cydnabu Archwilio Mewnol fod prosesau monitro ac ymateb cadarn yr Ymddiriedolaeth yn cydreddeg â gofynion y Cytundeb Prosiect – ond cydnabu hefyd effaith problemau perfformiad o ran ansawdd dylunio ac adeiladu, oedi prosiectau, a heriau gyda thargedau Budd i'r Gymuned. Ar y cyfan, fe wnaethom ddarparu sicrwydd rhesymol.
- **Rheoli Risg CGFn** – canfu'r archwiliad sicrwydd sylweddol, bod gweithdrefnau a rheolaethau rheoli risg effeithiol ar waith, wedi'u cefnogi gan Swyddfa Rheoli Prosiectau â digon o adnoddau a rolau a chyfrifoldebau clir. Awgrymwyd mân esboniadau gweithdrefnol, cysondeb gwell wrth adolygu risg, a chywirdeb adrodd gwell i gynnal a chryfhau goruchwyliaeth risg.
- **Cynllunio Integredig CGFn** – cydnabu'r archwiliad effaith gadarnhaol gweithredu system gynllunio newydd ers mis Hydref 2025. Fodd bynnag, roedd y meysydd allweddol i'r rheolwyr eu hystyried yn cynnwys gwella cydweithio rhwng ffrydiau gwaith a'r Cynlluniwr Prosiect, hyrwyddo datblygiad y system gynllunio, a sefydlu proses adolygu ar gyfer Cynllun Comisiynu Cam 1, ochr yn ochr ag awgrymiadau ar gyfer gwelliannau gweithdrefnol a mecanweithiau monitro i sicrhau olrhain ac adrodd effeithiol ar gerrig milltir prosiectau. Fe wnaethon ni ddarparu sicrwydd rhesymol.
- **Rheoli Newid CGFn** – daeth archwiliad mewnol o broses rheoli newid Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) i'r casgliad bod sicrwydd sylweddol, gan ganfod bod trefniadau cadarn a phendant ar waith, wedi'u cefnogi gan dîm Rheolaethau Prosiect ymroddedig ac ymgysylltu effeithiol gan uwch reolwyr, a chydymffurfedd da ar y cyfan ar draws y ceisiadau newid a samplwyd.
- **Amcanion Prosiect Allweddol CGFn** – daeth Archwilio Mewnol i gasgliad sicrwydd rhesymol gan fod eu hasesiad yn cydbwysu perfformiad gwael Rheolaethau Prosiect o ran cyflawni rhaglen ddylunio ac adeiladu raenus ac amserol, yn erbyn perfformiad cadarnhaol yr Ymddiriedolaeth o ran cyflawni ei rhwymedigaethau prosiect ei hun a chynnal proses gadarn ar gyfer monitro ac uwchgyfeirio pryderon ynghylch perfformiad Rheolaethau Prosiect. Mae Archwilio Mewnol yn cydnabod rheolaeth yr Ymddiriedolaeth o'r prosiect o fewn yr amlen ariannu gymeradwy. Lle mae sicrwydd Archwilio Mewnol wedi'i leihau o fewn meysydd amcanion unigol, mae'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb Rheolaethau Prosiect.





Ym mis Ebrill 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau atebolrwydd a llywodraethu presennol PCGC. Cyhoeddwyd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2025.



- **Dilysu Camau Rheoli CGFn** – ar gyfer yr adolygiad di-farn hwn, cadarnhaodd Archwilio Mewnol fod yr holl gamau rheoli y cytunwyd arnynt o adroddiadau archwilio blaenorol CGFn wedi'u gweithredu mewn da bryd, gyda thystiolaeth ategol.
- **Rheoli Asbestos (adroddiad drafft)** – Er bod llywodraethu a rheolaethau gweithredol yn effeithiol ar y cyfan ac yn cyd-fynd â Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012, roedd angen gwelliannau o ran amllder arolygon, cadw cofnodion, adrodd ar risg, cydymffurfedd hyfforddiant, gweithdrefnau gwastraff, a rheoli safleoedd ar brydles a gofal sylfaenol, gyda chanfyddiadau manwl a chynlluniau gweithredu yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Ar y cyfan, fe wnaethom ddarparu sicrwydd rhesymol.

Ymagwedd at Argymhellion Dilynol

Fel rhan o waith archwilio Dilyn Argymhellion Archwilio Mewnol Blaenorol (a gafodd sgôr sicrwydd sylweddol), ystyriodd Archwilio Mewnol y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'i adroddiadau blaenorol y rhoddwyd Sicrwydd Cyfyngedig iddynt yn unig. Yn ogystal, lle bo'n briodol, ystyriodd Archwilio Mewnol y cynnydd a wnaed ar ganfyddiadau blaenoriaeth uchel mewn adroddiadau lle'r oedd yn gallu rhoi Sicrwydd Rhesymol o hyd.

Cynhaliodd Archwilio Mewnol rai profion hefyd ar gywirdeb ac effeithiolrwydd y Traciwr Argymhellion Archwilio, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro cynnydd wrth weithredu'r argymhellion. Rôl y Pwyllgorau Archwilio yw ystyried a chytuno ar ddigonolrwydd ymatebion y rheolwyr a'r dyddiadau ar gyfer gweithredu, ac unrhyw gais dilynol am ddyddiadau diwygiedig, a gynigir gan y Rheolwyr.

Mae Archwilio Mewnol yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn arsylwi ansawdd a thrylwyrdd y prosesau hyn a, lle bo'n briodol, wedi addasu eu dull o wneud gwaith dilynol i adlewyrchu'r heriau hyn.

Mae Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith y gwaith dilynol a lle bu oedi wrth weithredu argymhellion, ar ei allu i roi barn gyffredinol (yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS)) a lefel y sicrwydd cyffredinol y gall Archwilio Mewnol ei ddarparu).

Nododd Archwilio Mewnol fod proses olrhain argymhellion yr Ymddiriedolaeth wedi parhau yn ystod 2025/26 a chanfuwyd ei bod yn gweithredu'n effeithiol.

Archwilio – Allanol

Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2025

Cynllunnir gwaith Asesiad Strwythuredig Archwilwyr Allanol yr Ymddiriedolaeth, Archwilio Cymru er mwyn helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar swyddogaethau craidd yr Ymddiriedolaeth yn unig ac nid oedd yn ystyried y trefniadau llywodraethu yn ymwneud â sefydliadau sy'n cael eu lletya gan yr Ymddiriedolaeth.

Cynhaliwyd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2025 ar adeg pan fo cyrff y GIG yn parhau i wynebu ystod eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau i ymdopi â chyllid cyfyngedig, galw cynyddol, ôl-groniadau triniaeth, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Felly mae'n bwysicach nag erioed i fyrddau cyrff y GIG gael trefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol cryf ar waith. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd iddyn nhw eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol eu bod nhw'n cymryd y camau cywir i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel ac i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth.

Roedd cwmpas yr archwiliad yn cwmpasu'r meysydd canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2025 a Ionawr 2026, ac eithrio trefniadau gweithredol yr Ymddiriedolaeth:

- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn gweithio.
- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn goruchwyllo risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn olrhain argymhellion.
- Pa mor dda y mae'r Ymddiriedolaeth yn paratoi strategaethau a chynlluniau allweddol.
- Pa mor dda y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei harian.

Ym mis Ebrill 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau atebolrwydd a llywodraethu presennol PCGC. Cyhoeddwyd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2025. Bydd Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn ac asesu a oes unrhyw faterion y mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol eu harchwilio yn rhan o ddarn o waith ar wahân.

Adolygodd asesiad 2025 hefyd gynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael ag argymhellion heb eu cwblhau a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol. Mae hefyd wedi cael ei lywio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwy Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol.
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru.
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Argraffiad).

Daeth yr asesiad strwythuredig yn 2025 i'r casgliad, er bod busnes cyhoeddus y Bwrdd ar agor yn gyffredinol, nad oedd papurau a chofnodion y pwyllgorau bob amser yn cael eu cyhoeddi'n brydlon a bod angen cyfiawnhad cliriach ar gyfer busnes preifat. Canfu hefyd fod angen ailgynllunio strwythurau pwyllgorau a bod trosiant y Bwrdd wedi effeithio ar barhad, gyda Chynllun Datblygu'r Bwrdd ar y gweill. Mae craffu strategol ar risg wedi cryfhau, ond yn aml mae diffyg dyddiadau CAMPUS ar gamau gweithredu risg corfforaethol, ac mae'r fframwaith risg yn dal i gael ei ddiweddarau. Er bod adrodd ar eithriadau wedi gwella ffocws, mae naratifau a chamau gweithredu yn anghyson; mae olrhain archwiliadau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae angen camau gweithredu ac amserlenni cliriach ar gyfer olrhain ansawdd a diogelwch. Yn olaf, er bod strategaeth a chynllunio wedi'u sefydlu a bod llywodraethu ariannol yn gryf, mae sicrwydd y Bwrdd ynghylch effeithiau a chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gyfyngedig, ac mae rhagdybiaethau ynghylch cyflawni arbedion a chyllido yn parhau i fod yn risgiau parhaus.



Mae'r holl argymhellion yn mynd rhagddynt ac yn cael eu monitro gan Grŵp Llywodraethu, Sicrwydd a Risg yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd.

Casgliad

Ni nodwyd unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025-2026.

Llofnodwyd gan:



Carl James
Prif Swyddog Gweithredol
Dyddiad: 25 Mehefin 2026



Atodiad 1 i Ran 2a

Datganiad Llywodraethu Bwrdd, Pwyllgor, Grŵp Cyngori a Fforwm yr Ymddiriedolaeth Gweithgaredd 2025-2026

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif bwyntiau a'r gweithgarwch a ystyriwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i Phwyllgorau yn ystod 2025-2026. Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr.

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre – Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth yma:	22.05.2025 24.07.2026 25.09.2025 27.11.2025 29.01.2026 26.03.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodebau/penawdau lefel uchel o bynciau allweddol a gafwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2025-2026: - Adroddiadau Diweddaru gan y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Prif Weithredwr - Adroddiadau Camau Brys y Cadeirydd - Ymrwymiad o Wariant sy'n uwch na Therfyn y Prif Weithredwr - Cymeradwyo Polisiâu ac Adroddiadau Diweddaru Polisi ar draws yr Ymddiriedolaeth - Dogfennau Adroddiadau 'Wedi'u Selio' - Prif Bwyntiau Pwyllgor / Is-bwyllgor y Bwrdd ac Adroddiadau Blynyddol - Briffiau Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru - Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasaethau - Adroddiadau Perfformiad - Adroddiadau Ariannol - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/2025 - Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd - Y Cynllun Tymor Canolig Integredig - Adroddiadau Cyflawni Cynnydd Cynllun Tymor Canolig Integredig ac Amodau Atebolrwydd - Diwygiadau / Amrywiadau i Reolau Sefydlog, Cynllun Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth - Adroddiadau Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Bwrdd ar y Prif Bwyntiau - Adroddiad Sêl yr Ymddiriedolaeth - Polisiâu ledled yr Ymddiriedolaeth wedi'u Cymeradwyo - Polisiâu Pobl a Datblygu Sefydliadol i'w cymeradwyo - Fframwaith Profiad y Bobl - Blaenoriaethau Ansawdd yr Ymddiriedolaeth 2025-26 - Camau Gweithredu a gymerwyd yn Dilyn Dyfarniad y Goruchaf Lys - Diweddariad Cynllunio Strategol - Diweddariad ar Bartneriaeth Strategol - Diweddariad Cynllunio Rhanbarthol - Adroddiad Diwylliant a Chynhwysiant - Cerrig Milltir Diwylliant Sefydliadol - Gwreiddio Llais y Rhoddwr a'r Claf Ar Draws Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre - Achos Busnes Llawn System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed - Seilwaith Tonysguboriau - Dull Diwygiedig - Cynllun Strategol Technoleg Iechyd Cymru - Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfiaeth â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		- Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 - Adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd 2024-25 - Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-25 - Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2024-25 - Adroddiad Blynyddol Ansawdd a Diogelwch 2024-25 - Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2024-25 - Adroddiad Blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) 2024-25 - Adroddiad Blynyddol Cofrestru / Ailddilysu Proffesiynol 2024-25 - Adroddiad Blynyddol 2024-25 y Pwyllgor Archwilio - Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Datblygu Strategol 2024-25 - Adroddiad Blynyddol Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre newydd (CGFn) 2024-25 - Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 2024-25 - Adroddiad Blynyddol Technoleg Iechyd Cymru 2024-25 - Adroddiad Blynyddol Therapiau Datblygedig Cymru 2024-25 - Adroddiad Blynyddol 2024-25 Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBBS) - Adroddiad Blynyddol Parhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfyngau 2024-25 - Arolwg Staff 2025 - Strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd - Cytundeb Microsoft Enterprise - Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol - Uwchgynllun Parodrwydd - Rhaglen Datblygu Bwrdd Lineofsight - Adborth ar yr Asesiad Niwtral - Cynllun Dirprwyo CGFn - Rhaglen Adeiladu CGFn - Buddion Cymunedol Diwygiedig CGFn - Rhaglen Datrysiad Radiotherapi Integredig - Tir yr Eglwys Newydd - Diweddariad TrAMS - Diweddariad Cwest - Arweinyddiaeth, Diwylliannau Gweithlu a Blaenoriaethau - Mater Rheoleiddiol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth - Adolygiad Llywodraethu ac Atebolrwydd PCGC - Cynllun Tymor Canolig Integredig PCGC - Datrysiad e-Amserlennu Cymru Gyfan PCGC - Cytundeb Lefel Gwasanaeth Datrysiad y GIG PCGC a ddarperir gan Awdurdod Ymglyfreitha'r GIG - System Taliadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) PCGC - Cynhyrchion Llieiniau PCGC - Adnewyddu Contract Datrysiad Gweithlu'r Dyfodol PCGC - Trwyddedau Microsoft PCGC ac Ailgodi amdanynt - Adnewyddiadau Les PCGC i'w Cymeradwyo - Gwelliant i Reolau Sefydlog PCGC
Advisory Consultant Appointments Committee	08.05.2025 25.06.2025 28.08.2025	Cynhaliwyd paneli ar gyfer y penodiadau canlynol, ac roedd cworwm i bob un: - Ymgynghorydd mewn Oncoleg Glinigol (yr ysgyfaint ac AOS) - Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Lliniarol - Ymgynghorydd mewn Oncoleg Glinigol (Canser y Fron)

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth yma:	13.05.2025 24.06.2025 02.09.2025 02.12.2025 03.03.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a gafwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2025-2026: • Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol 2024-25 • Cyfrifon Blynyddol 2024-25 • Cynllun, Adroddiadau ac Archwiliadau Archwilio Mewnol • Cynllun, Adroddiadau ac Archwiliadau Archwilio Cymru • Datganiadau o Fuddiant; Adroddiadau Rhoddion, Lletygarwch, Nawdd a Honoraria • Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd • Adolygiad o'r Traciwr Camau Gweithredu Argymhellion Archwilio • Adroddiadau Atal Twyll • Adroddiadau Colledion a Thaliadau Arbennig • Diweddariadau Technegol Cyllid • Cynllun Gwasanaeth Cleifion Preifat a Sefyllfa Dyled • Adroddiad Arolwg Effeithiolrwydd y Pwyllgor 2024-25 • Adroddiad Blynyddol 2024-25 y Pwyllgor Archwilio • Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor • Adolygiad o Gylch Busnes y Pwyllgor • Diwygiadau / Amrywiadau i Reolau Sefydlog, Cynllun Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth • Adroddiad Cydymffurfiaeth â Chaffael • Cynllun Blynyddol Archwilio Clinigol • Trefniadau Rheoli Risg yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru a GCF • Cofrestr Deddfwriaeth a Chydymffurfiaeth • Adroddiad Camau Gweithredu Brys y Cadeirydd
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth yma:	03.06.2025 09.12.2025 27.01.2025 10.03.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a gafwyd gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn ystod 2025-2026: • Adroddiad Diweddarau'r Cyfarwyddwr Elusen • Cofrestr Risg Elusennol • Adroddiad Cyllid a Chrynodeb o Ymrwymadau • Adroddiad Diweddarau gan Fwrdd y Gronfa Hyrwyddo Radiotherapi a Bwrdd Hyrwyddo Radiotherapi Cymru • Achos Busnes a Chynigion Gwariant • Strategaeth Gelfyddydau CGFn • Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgorau • Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor • Adolygiad o Gylch Busnes y Pwyllgor • Cynllun Archwilio Cronfeydd Elusennol 2025-26 • Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol Cronfeydd Elusennol (Ymddiriedolwr) 2024-25 • Polisi Buddsoddi Cronfeydd Elusennol • Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau Cronfeydd Elusennol

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
Y Fforwm Partneriaeth Lleol	05.06.2025 23.09.2025 27.01.2026 Nid oedd cworwm yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27.01.2026.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a gafwyd gan y Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2025-2026: • Ymgynghoriad Strwythur GCF, Adborth • Gweithredu Strwythur GCF • Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 • Adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-25 • Arweinydd Partneriaeth Gymdeithasol • Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol • Cynllun Gweithlu'r Ymddiriedolaeth • Perfformiad y Gweithlu a Risgiau'r Gweithlu • Gwobrau Staff • Diwylliant a Chynhwysiant • Gwasanaethau Llesiant Staff • Diweddariad Canolfan Ganser Newydd Felindre (CGFn)
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth yma :	08.05.2025 09.07.2025 17.07.2025 11.09.2025 13.11.2025 13.01.2026 12.03.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a gafwyd gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn ystod 2025-2026: • Straeon Cleifion, Rhoddwyr a Staff • Adroddiadau Chwarterol Ansawdd a Diogelwch • Fframwaith Profiad y Claf • Cyflenwad a Siâp y Gweithlu a Risgiau Cyllid Cysylltiedig • Adroddiadau Cyllid • Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd • Adroddiad Fframwaith Rheoli Perfformiad a Dadansoddiad Ategol • Adolygiad o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) Gwasanaeth Gwaed Cymru • Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion • Adroddiad ar Brif Bwyntiau Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Newydd Felindre (CGFn) • Adroddiad ar y Prif bwyntiau - Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi • Adroddiad ar y Prif Bwyntiau ac Adroddiad Blynyddol Diogelwch Tân, Ystadau, Iechyd a Diogelwch, a Chynaliadwyedd • Adroddiad Sicrwydd Grŵp Rheoli Meddyginiaethau • Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Grŵp Strategol Diogelu rhag Ymbelydredd a Chysylltiadau Meddygol • Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Bwrdd Clinigol a Gwyddonol • Crynodeb Ymweliad 15 Cam • Blaenoriaethau Ansawdd a Diogelwch • Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) 2025 • Gwerthusiad Blynyddol Rowndiau Schwartz • Ymchwiliad Llawnach a Chymau Gweithredu'r Ymddiriedolaeth • Asesiad o Effaith Rheoliadau Diwygiedig Gweithio i Wella • Gweithredu Gwranddo ar Bobl • Llwybr Galar / Cyswllt Ôl-Alar • Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol • Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2024-25

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		• Adroddiad Ansawdd a Diogelwch Integredig Blynyddol yr Ymddiriedolaeth 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2024-25 • Adroddiad Blynyddol y Bwlch Cyflog Rhywedd 2024-25 • Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2024-25 • Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Digidol 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth 2025-26 • Adroddiad Blynyddol Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Rheoleiddio Proffesiynol ac Ailddilysu 2024-25 • Adroddiad Blynyddol 2024-25 ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 • Adroddiad Blynyddol 2024-25 ar Lywodraethu Addysg Feddygol • Adroddiad Blynyddol Dyfeisiau Meddygol 2024-25 • Polisiau a Phrosesau Pobl a Datblygu Sefydliadol • Adroddiad Diwylliant a Chynhwysiant • Diweddariad Traciwr Rheoleiddio Ansawdd a Diogelwch • Adolygiad Rheoli Polisi a Statws Cydymffurfedd • Polisiau'r Ymddiriedolaeth i'w Cymeradwyo • Polisiau'r Ymddiriedolaeth i'w Harnodi • Diweddariad y Fforwm Nyrsio Proffesiynol • Adroddiad Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth • Archwiliad Dwfn Cwynion • Gwasanaeth Sarcoma GCF • Adroddiadau Cynnydd Chwarterol y Cynllun Tymor Canolig Integredig • Mwyhau Llais y Claf a'r Rhoddwr • Cynllun Gweithredu 2025-26 Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) • Adroddiad Peidiwch/Peidio â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) • Dadansoddiad Bwlch Adolygiad Mamolaeth a Newyddenedigol Bae Abertawe • Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd PCGC 2024-25 • Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol (SMTL) PCGC 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol (MES) PCGC 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Technoleg Iechyd Cymru 2024-25 • Adroddiad Blynyddol Therapiau Datblygedig Cymru 2024-25 • Diweddariad ar Wasanaethau Technegol Fferyllfa PCGC • Diweddariad PCGC ar Drawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS) • Dadansoddiad o Themâu Cyfarfodydd wedi'u Triongli • Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad • Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor • Adolygiad Cylch Busnes y Pwyllgor

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
Pwyllgor Datblygu Strategol Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth yma:	01.05.2025 22.07.2025 09.09.2025 04.11.2025: 20.01.2026 17.03.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a gafwyd gan y Pwyllgor Datblygu Strategol yn ystod 2025-2026: • Achos Busnes System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed (BECS) • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd • Adroddiad ar Brif Bwyntiau Rhaglen Dyfodol Gwaed Cymru • Adroddiad ar Brif Bwyntiau Rhaglen Dyfodol Felindre • Adroddiad ar Brif Bwyntiau Bwrdd y Rhaglen Ddigidol • Cynnydd a Sicrwydd y Strategaeth Glinigol a Gwyddonol • Adroddiad ar Brif Bwyntiau Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Newydd Felindre (CGFn) • Achos Busnes Amlinellol De-ddwyrain Cymru ar Drawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS) • Ailstrwythuro Gwasanaeth Cancer Felindre • Canllawiau a Dull Cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026-29 • Diweddariad Partneriaid Iechyd Caerdydd a Hwb Ymchwil Cancer Caerdydd • Seilwaith Tonysguboriau – Dull o ymdrin ag Achos Busnes • Diweddariad ar y Rhaglen Datrysiadau Radiotherapi Integredig • Diweddariad Gwasanaeth Fferyllfa • Rhaglen Waith Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth • Archwiliad Dwfn o Wasanaethau Digidol • Diweddariad ar y Strategaeth Pobl • Diweddariad Strategaeth Nyrsio'r Ymddiriedolaeth • Adolygiad o Strategaeth Addysgol ac Absenoldeb Astudio • Adroddiad Diwylliant a Chynhwysiant • Cynllun Strategol Drafft Technoleg Iechyd Cymru • Cytundeb Microsoft Enterprise • Diweddariad Portffolio • Tir yr Eglwys Newydd • Diweddariad Rhaglen Genedlaethol y Rhaglen Systemau Gwybodeg Radioleg (RISP) • Ymrwymiad Gwariant sy'n Fwy na Therfyn y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer Cytundeb Ffracsiynu Plasma • Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor
Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	02.04.2025 24.04.2025 15.07.2025 17.11.2025 28.11.2025 02.12.2025 03.03.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a gafwyd gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn ystod 2025-2026: • Penodi Prif Swyddog Gweithredu • Trefniadau ar gyfer Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu • Estyniad i'r Trefniadau Dros Dro • Cymhwyso Cyflog Byw Go iawn i Staff ar Raddfeydd Cyflog yr Agenda ar gyfer Newid • Ataliadau Cyflogaeth Dros Dro • Ceisiadau Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol • Setliadau Un Cyflogwr Arweiniol PCCG

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth yma:	16.06.2025 04.09.2025 10.02.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn ystod 2024-2025: • Storio Platennau • Briff y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol • Adroddiad Perfformiad Blynyddol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi'r Ymddiriedolaeth 2024-25 • Diweddariad Cyllid Prisio, Mynediad a Thwff Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Mynd i'r Afael â Chanser drwy Ymchwil • Adroddiadau Perfformiad Chwarterol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi • Diweddariad ar Bartneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd (CCRP) • Cytundeb Partneriaeth Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd (CCRP) • Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: Cyhoeddi'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer meithrin gallu ymchwil ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth, a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru • Diweddariad Partneriaid Iechyd Caerdydd • Datganiad o Fwriad Arloesi'r Ymddiriedolaeth • Adolygiad Cylch Busnes yr Is-bwyllgor • Adolygiad o Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor • Adroddiad Blynyddol ac Adolygiad Effeithiolrwydd yr Is-bwyllgor • Crynodeb gan yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Preifat • Cyfarfod Adolygu Ymchwil a Datblygu Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru • Cymeradwyaethau Achos Busnes Cronfeydd Elusennol • Diweddariad ar Brosiectau Cymeradwy Hyrwyddo Radiotherapi Cymru (ARC)
Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth yma:	06.05.2025 10.06.2025 16.07.2025 18.09.2025 21.10.2025 20.11.2025 22.01.2026 24.02.2026 19.03.2026 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.	Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a gafwyd gan Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect CGFn yn ystod 2025-2026: • Adroddiad ar Brif Bwyntiau Prosiect CGFn • Diweddariad Cyfathrebu ac Ymgysylltu • Adroddiad Rhyngddibyniaethau • Newidiadau a Hysbysiadau i'r Cytundeb Prosiect • Cynllun Gweithredu Rheoli Adolygiad Llywodraethu a Gallu • Protocol Llywodraethu Cymdeithion Meddygon MIM • Trefniadau Cyflenwi a Llywodraethu • Orlhain Canlyniadau ac Ymrwymadau Achos Busnes CGFn • Buddion Cymunedol Diwygiedig • Cynllun Dirprwyo a Fframwaith Llywodraethu • Trefniadau Adrodd Parodrwydd CGFn • Diweddariad Gwasanaeth Fferyllfa • Diweddariad ar y Rhaglen Adeiladu • Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Cynllunio Integredig CGFn • Diweddariad y Datrysiaid Radioleg Integredig (IRS) • Adborth o Ymweliad Ysgrifennydd y Cabinet • Adolygiad o Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor • Adroddiad Effeithiolrwydd yr Is-bwyllgor • Adroddiad Blynyddol yr Is-bwyllgor

Atodiad 2 i Ran 2a

Aelodaeth Y Bwrdd A'r Pwyllgorau 2025-2026

Enw:	Swydd a Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth y Bwrdd, Pwyllgorau, Grwpiau Cynghori a Fforymau	Rôl Hyrwyddwr	Meysydd Arbenigedd
Yr Athro Donna Mead, OBE (gadawodd 31 Gorffennaf 2026)	Daeth y rôl yn Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cadeirydd) tan 31 Gorffennaf 2025 - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Cadeirydd) tan 31 Gorffennaf 2025 - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (Cadeirydd) tan 31 Gorffennaf 2025 - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn)	Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr, Ymddiriedolaeth y Brifysgol	Addysg Uwch, Ymchwil, y GIG ac Addysg, Partneriaethau a Chydweithio.
Sara Moseley (penodwyd 1 Medi 2025)	Rôl yn Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth o 1 Medi 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cadeirydd) o 1 Medi 2025 - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Cadeirydd) o 1 Medi 2025 - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (Cadeirydd) o 1 Medi 2025	Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr, Ymddiriedolaeth y Brifysgol	Cyfathrebu, Ymgysylltu, Elusennau, Llywodraethu Clinigol a Chorfforaethol.
Stephen Harries (gadawodd 31 Awst 2025)	Daeth y rôl yn Is-gadeirydd i ben ar 30 Ebrill 2025 Rôl yn Aelod Annibynnol (Cyllid) o 12 Mai 2025 a daeth i ben ar 31 Awst 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (tan 30 Ebrill 2025)	Digidol a Llesiant Staff	Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.

Enw:	Swydd a Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth y Bwrdd, Pwyllgorau, Grwpiau Cynghori a Fforymau	Rôl Hyrwyddwr	Meysydd Arbenigedd
Lindsay Foyster	Daeth y rôl yn Aelod Annibynnol (Amrywiaeth a Chynhwysiant) i ben ar 30 Ebrill 2025 Rôl yn Is-gadeirydd o 1 Mai 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Pwyllgor Datblygu Strategol (Cadeirydd) - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (o 1 Mai 2025)	Codi Llais heb Ofn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Amrywiaeth a Chynhwysiant
Gareth Jones	Aelod Annibynnol	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Pwyllgor Archwilio (Cadeirydd) - Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Cadeirydd) - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	Gwybodaeth i Gleifion a'r Iaith Gymraeg.	Cyfreithiol
Hilary Jones	Aelod Annibynnol	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol (Cadeirydd) - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Newydd Felindre (CGFn) (Cadeirydd) - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	Ymgysylltu â Chleifion a Phrofiad y Claf, Datblygu Cynaliadwy a Dylunio	Ystadau a Chynllunio
Vicky Morris Yr	Aelod Annibynnol	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (Cadeirydd) - Y Pwyllgor Archwilio - Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi	Atal Heintiau, Gwendid a Thrais ac Ymddygiad Ymosodol	Ansawdd a Diogelwch

Enw:	Swydd a Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth y Bwrdd, Pwyllgorau, Grwpiau Cynghori a Fforymau	Rôl Hyrwyddwr	Meysydd Arbenigedd
Athro Andrew Westwell	Aelod Annibynnol	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (Cadeirydd) - Pwyllgor Datblygu Strategol	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.	Cynrychiolydd y Brifysgol
John Union	Aelod Annibynnol	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Archwilio - Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Cyllid	Cynrychiolydd Cyllid
Ceri Doyle	Aelod Annibynnol	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	I'w Gadarnhau	Elusennau a Llywodraethu Corfforaethol

Name:	Swydd a Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Bwrdd a Phwyllgorau	Prif Swyddogaeth
David Donegan (gadawodd 18 Tachwedd 2025)	Daeth y rôl yn Brif Weithredwr i ben ar 18 Tachwedd 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Fforwm Partneriaeth Lleol	Prif Weithredwr Swyddog Atebol
Carl James	Rolau Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio, a Digidol a Dirprwy Brif Weithredwr o 1 Rhagfyr 2025 tan 18 Tachwedd 2025 Rôl Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro o 18 Tachwedd 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Pwyllgor Archwilio (Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro) - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro) - Fforwm Partneriaeth Lleol (Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro)	Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Perfformiad, Digidol ac Ystadau

Name:	Swydd a Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Bwrdd a Phwyllgorau	Prif Swyddogaeth
Jacinta Abraham	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr Rôl yn Ddirprwy Brif Weithredwr o 18 Rhagfyr 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Pwyllgor Datblygu Strategol - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Y Pwyllgor Archwilio	Cyfarwyddwr Meddygol ac Ymchwil
Matthew Bunce	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Archwilio - Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Fforwm Partneriaeth Lleol	Cyllid, Llywodraethu Gwybodaeth, Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, Caffael a Chronfeydd Elusennol
Sarah Morley (gadawodd 31 Hydref 2025)	Daeth y rôl yn Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu i ben ar 31 Hydref 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Fforwm Partneriaeth Lleol (Cadeirydd) tan 31 Hydref 2025	Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu
Sarah Jenkins (o 1 Hydref 2025)	Rôl yn Gyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol (Dros Dro) o 1 Hydref 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Fforwm Partneriaeth Lleol (Cadeirydd) o 1 Tachwedd 2025	Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Nicola Williams (gadawodd 6 Ebrill 2026)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd a ddaeth i ben ar 6 Ebrill 2026	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Fforwm Partneriaeth Lleol	Ansawdd a Diogelwch, Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau, arweinydd proffesiynol ar gyfer nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd

Name:	Swydd a Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Bwrdd a Phwyllgorau	Prif Swyddogaeth
Gillian Knight (o 9 Ebrill 2026)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd o 9 Ebrill 2026	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Fforwm Partneriaeth Lleol	Ansawdd a Diogelwch, Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau, arweinydd proffesiynol ar gyfer nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd
Non Gwilym	*Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (Dros Dro)	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol - Y Pwyllgor Archwilio - Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre - Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	Llywodraethu Cyfathrebu Rheoli'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Penodiadau'r Bwrdd Datblygu'r Bwrdd Cyfreithiol Rheoli Risgiau Rhyddid Gwybodaeth Cefnogaeth Weithredol Llywodraethu Sefydliadau sy'n cael eu Lletya
Anne Carey	*Prif Swyddog Gweithredu	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn) - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol - Fforwm Partneriaeth Lleol	Codi Arian / Elusen Cyflwyno Gwasanaeth Gweithredol Gwella Gwasanaethau Arlwyo Rheoli/Gwella Perfformiad Is-adrannol Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig Gwybodaeth Busnes Parhad Busnes Cynllunio at Argyfwng Dyfeisiau Meddygol

Name:	Swydd a Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Bwrdd a Phwyllgorau	Prif Swyddogaeth
Lauren Fear	* Daeth y swydd yn Gyfarwyddwr Trawsnewid (Dros Dro) i ben ar 31 Awst 2025 * Swydd Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau o 1 Medi 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn)	Tân, Ystadau, Cynaliadwyedd ac Iechyd a Diogelwch Creu Lleoedd a'r Economi Sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Rheoli Portffolio ar gyfer Rhaglenni Allweddol Rhaglen Canser Ranbarthol BIP Caerdydd a'r Fro / Partneriaeth Felindre Partneriaid Iechyd Caerdydd Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru Datblygu Partneriaethau yn y Dyfodol
Victoria Oxley (o 1 Ebrill 2025)	* Rôl Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad (Dros Dro) o 1 Ebrill 2025	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn)	Prosiect Canolfan Ganser Felindre newydd Datblygu Strategaethau'r Ymddiriedolaeth Datblygu Cynllun Tymor Canolog Integredig Strategaeth a Datblygu Rheoli Perfformiad (h.y. fframweithiau/ systemau – yn cynnwys datblygu perfformiad) Cynllunio Cyfalaf Strategol
Carl Taylor	*Prif Swyddog Digidol	- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad - Pwyllgor Datblygu Strategol - Is-bwyllgor Craffu ar Brosiect Canolfan Ganser Felindre Newydd (CGFn)	Data a Mewnwelediad Dylunio Digidol Seilwaith Digidol Rhaglenni Digidol Cyflawni Digidol Cymwysiadau Digidol

Sylwch: Nid yw swyddi sydd wedi’u marcio â * yn aelodau ffurfiol o’r Bwrdd at ddibenion pleidleisio.

Atodiad 3 i Ran 2a

Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau a Gynhaliwyd yn Gyhoeddus 2025-2026

Meetings	EBRILL 2025	MAI 2025	MEH 2025	GOR 2025	AWS 2025	MED 2025	HYD 2025	TACH 2025	RHAG 2025	ION 2026	CHWE 2026	MAW 2026
Bwrdd yr Ymddiriedolaeth		22/05/25	16/06/25	24/07/25		25/09/25		27/11/25		29/01/26		26/03/26
Y Pwyllgor Archwilio		13/05/25	24/06/25			02/09/25			02/12/25			03/03/26
Pwyllgor Archwilio PCGC		13/05/25		08/07/25			14/10/25				10/02/26	
Cronfeydd Elusennol			03/06/25						09/12/25	27/01/26		10/03/26
Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau						30/09/25						24/03/26
Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad		08/05/25		17/07/25		11/09/25		13/11/25		13/01/26		12/03/26
Ymchwil, Datblygu ac Arloesi			16/06/25			04/09/25					10/02/26	
Datblygiad Strategol		01/05/25		22/07/25		09/09/25						
Craffu ar Brosiect CGFn		06/05/25	10/06/25	16/07/25		18/09/25	21/10/25	20/11/25		22/01/26	24/02/26	19/03/26
Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth	02/04/25			15/07/25					02/12/25			03/03/26

Atodiad 4 i Ran 2a

Presenoldeb Aelodau Bwrdd Ymddiriedolaeth Gig Prifysgol Felindre mewn Cyfarfodydd Bwrdd a Gynhaliwyd yn Gyhoeddus 2025-26

ENW	SWYDD	22/05/2025	*26/06/2025	24/07/2025	25/09/2025	27/11/2025	29/01/2026	26/03/2026
Donna Mead	Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth	Y	Y	Y				
Sarah Moseley	Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth				Y	Y	Y	Y
Linday Foyster	Is-gadeirydd	Y	Y	Y	Y	Y	N	Y
Stephen Harries	Aelod Annibynnol	Y	N	Y				
Gareth Jones	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Hilary Jones	Aelod Annibynnol	N	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Vicky Morris	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Andrew Westwell	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
John Union	Aelod Annibynnol					Y	Y	Y
Ceri Doyle	Aelod Annibynnol					Y	N	Y
David Donegan	Prif Swyddog Gweithredol	N	Y	Y	Y			
Carl James	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	Y	Y	N	Y			
Carl James	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro					Y	Y	Y
Jacinta Abraham	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Matthew Bunce	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Sarah Morley	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Y	Y	Y	Y			
Sarah Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol (Dros Dro)					Y	Y	Y
Nicola Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Nysio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd	Y	Y	Y	Y	Y	N	Y
Non Gwilym	**Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (Dros Dro)	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Anne Carey	**Prif Swyddog Gweithredu	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Laren Fear	**Cyfarwyddwr Trawsnewid	Y	Y	Y	Y			
Lauren Fear	**Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau					Y	Y	Y
Carl Taylor	**Prif Swyddog Digidol	N	Y	Y	Y	Y	Y	N

NODER: * Cyfarfod eithriadol yn ymwneud â chymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol 2024-25
** Nid yw'r swyddi a farciwyd yn aelodau ffurfiol o'r Bwrdd at ddibenion pleidleisio
Y = presennol
N = ddim yn bresennol

Atodiad 5 i Ran 2a

Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

Cyfarwyddyd Gweinidogol	Dyddiad/Blwyddyn Cyhoeddi	Camau i ddangos gweithredu/ymateb
Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (diwygio) 2026 (NWSI 2026 Rhif 43)	Mawrth 2026	Wedi'u rhannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu.
Y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (NWSI 2026 No. 17)	Mawrth 2026	Yn gysylltiedig â WHC/2025/044 Wedi'u rhannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.

Cylchlythyr Iechyd Cymru	Dyddiad/Blwyddyn Cyhoeddi	Camau i ddangos gweithredu/ymateb
Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG 2026 WHC/2026/008	Mawrth 2026	Cylchlythyr wedi'i rannu gydag Arweinwyr Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Gwrando ar Bobl: Proses ddiwygiedig cwynion, digwyddiadau ac iawn GIG Cymru WHC/2026/006	Mawrth 2026	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Canllawiau Eiddo Deallusol wedi'u hadnewyddu ar gyfer sefydliadau GIG Cymru (WHC/2026/004)	Mawrth 2026	Cylchlythyr wedi'i rannu gydag Arweinwyr Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Safonau data hysbysiad o newid ar gyfer gweithgarwch gofal a gynlluniwyd (WHC/2026/002)	Mawrth 2026	Cylchlythyr wedi'i rannu gydag Arweinwyr Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (WHC/2025/044)	Chwefror 2026	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Call4Concern: amserlenni a chyfrifoldebau (WHC/2026/001)	Ionawr 2026	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.

Cylchlythyr Iechyd Cymru	Dyddiad/Blwyddyn Cyhoeddi	Camau i ddangos gweithredu/ymateb
Taflenni rhwydi diogelwch o ran trefniadau rhyddhau oedolion a phlant o'r ysbyty (WHC/2025/051)	Rhagfyr 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Polisi Teithio Cleifion (WHC/2025/049)	Rhagfyr 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu gofynnol.
Nodau gwella ymwrthedd gwrthficrobaidd a heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd: 2025 i 2027 (WHC/2025/039)	Hydref 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Diweddariad: Cynllun archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygu canlyniadau GIG Cymru 2025 i 2026 (WHC/2025/042)	Hydref 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Yr ymchwiliad gwaed heintiedig: gweithredu argymhelliad 7e: adroddiadau SHOT (WHC/2025/037)	Hydref 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Hysbysiad newid safonau data ar gyfer atgyfeiriadau gofal a gynlluniwyd (WHC/2025/034)	Hydref 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gydag Arweinwyr Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd (WHC/2025/038)	Medi 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Hysbysiad newid safonau data ar gyfer Gwasanaeth Un Pwynt Cyswllt Aros yn Iach (WHC/2025/031)	Medi 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
Mabwysiadu technolegau llais amgylchol (trawsgrifwyr AI) yn ddiogel a chyfrifol mewn lleoliadau clinigol (WHC/2025/026)	Awst 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Tîm Gweithredol er gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn ôl y gofyn.
Y rhaglen genedlaethol imiwneiddio rhag fflw 2025 i 2026. (WHC/2025/020)	Awst 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu gofynnol.
Cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru (WHC/2025/008)	Mehefin 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gydag Arweinwyr Gweithredol er gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn ôl y gofyn.
Newidiadau interim i gyfarwyddydau ariannol sefydlog enghreifftiol GIG Cymru (WHC/2025/012)	Mehefin 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol gyda gweithrediad a chamau gweithredu.

Cylchlythyr Iechyd Cymru	Dyddiad/Blwyddyn Cyhoeddi	Camau i ddangos gweithredu/ymateb
Cyfeintiau cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yng Nghymru (WHC/2025/023)	Mehefin 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gydag Arweinwyr Gweithredol er gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn ôl y gofyn.
Canllawiau datganiadau monitro ariannol GIG Cymru 2025 i 2026 (WHC/2025/013)	Ebrill 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu gofynnol.
Fframwaith profiad pobl (WHC/2024/015)	Ebrill 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu gofynnol.
Cynllun archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygu canlyniadau GIG Cymru 2025 i 2026 (WHC/2025/004)	Ebrill 2025	Cylchlythyr wedi'i rannu gyda'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rhoi ar waith a chymryd camau gweithredu gofynnol.



Adroddiad Atebolrwydd Ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu mewn amgylchedd ariannol heriol, fel pob sefydliad yn GIG Cymru. Yn ystod 2025/26, bodlonodd yr Ymddiriedolaeth alw cynyddol am ei gwasanaethau wrth reoli pwysau ariannol sylweddol yn deillio o ddatblygiadau strategol mawr a gyflawnwyd drwy raglen drawsnewid yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, roedd yr Ymddiriedolaeth yn wynebu pwysau parhaus o ran costau a gwasanaethau, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu capasiti ychwanegol i ymateb i'r galw cynyddol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni pob un o'r pedwar targed ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26, gan sicrhau lefelau gwell o effeithlonrwydd a chynhyrchiant a chynnal perfformiad cynaliadwy yn erbyn targedau cenedlaethol a safonau proffesiynol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel o werth uchel ac ansawdd uchel, gan gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Mae cyflawni hyn drwy wasanaethau effeithlon ac effeithiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd. Yn unol â hynny, bydd nodi cyfleoedd effeithlonrwydd, gostyngiadau costau cylchol a gwelliannau cynhyrchiant—gan gynnwys neu wella ansawdd a diogelwch—yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Ymddiriedolaeth.

Targedau Ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd ei phedwar targed ariannol i gyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026:

Dyletswydd Adennill Costau: Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth waged refeniw o £0.042m yn 2025/26 (2024/25: gwaged o £0.057m; 2023/24: gwaged o £0.042m), gan arwain at waged o £0.141m dros gyfnod o dair blynedd. Felly mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd ariannol statudol i sicrhau ei bod yn adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Dyletswydd i baratoi Cynllun Integredig tair blynedd: Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y cyfnod 2025-2028 yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a gymeradwywyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Mehefin 2025. Felly mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd statudol i gael cynllun ariannol cymeradwy.

Taliadau Credydwy: Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag a ddaw olaf). Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth y targed hwn, gan dalu 96.3% (2024/2025: 97.9%) o fewn yr amser gofynnol.

Terfyn Adnoddau Cyfalaf: Arhosodd yr Ymddiriedolaeth o fewn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf ar gyfer 2025/26. Roedd gwariant cyfalaf net a godwyd yn erbyn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf yn £32.449 miliwn, gan arwain at danwariant bach o £0.01 miliwn yn erbyn y terfyn cymeradwy o £32.459 miliwn.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol Materol Pell

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal Cronfa Risg Cymru (WRP) yn rhan o PCCG. Mae ffurflenni Cronfa Risg Cymru gan Sefydliadau Iechyd Cymru yn amcangyfrif bod gan yr Ymddiriedolaeth rhwymedigaethau amodol pell o £11m (2024/25: £43m) yn 2025/26 sy'n ymwneud â hawliadau ymglyfreitha posibl yn erbyn GIG Cymru a allai godi yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau hysbys. Oherwydd natur ac ansicrwydd yr hawliadau hyn, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi cael ei gwneud ar eu cyfer yn y cyfrifon.

Tueddiadau Gwariant Hirdymor

	2021/2022	2022/2020	2023/2024	2024/2025	2025/2026
	£000	£000	£000	£000	£000
Cyfanswm Refeniw	1,044,074	961,179	1,075,091	1,153,627	1,442,324
Cyflogau	294,020	404,977	437,084	534,562	566,364
Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau	738,544	551,840	636,051	599,186	851,023
Dibrisiant	10,222	11,860	13,494	25,592	27,423
Cyfanswm gwariant	1,042,786	968,677	1,086,629	1,159,340	1,444,810
Refeniw a chostau anweithredol	(953)	10,324	13,891	5,770	2,778
Cyfanswm y gwarged/ (diffyg) cyfunol	(203)	76	259	57	292

Mae'r tabl uchod yn cynnwys incwm a gwariant cronfa elusennol yr Ymddiriedolaeth ac asedau a roddwyd hyd at ac yn cynnwys 2023/24. O 2024/25 ymlaen, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu'r eithriad IFRS10 i beidio â chydgrynhoi'r cyfrifon elusennol. Mae gwarged / (diffyg) blynyddol yr Ymddiriedolaeth, ac eithrio'r gronfa elusennol a'r asedau a roddwyd, yn cael ei ddangos gyferbyn:

	2021/2022	2022/2020	2023/2024	2024/2025	2025/2026
	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarged/(diffyg) ac eithrio cronfeydd elusennol ac asedau a roddwyd	41	76	42	57	42

Nodiadau

- Dros y cyfnod pum mlynedd a ddangosir, parhaodd yr Ymddiriedolaeth (trwy PCGC) i ehangu ei phortffolio o wasanaethau Cymru Gyfan a gomisiynwyd yn genedlaethol, yn fwyaf nodedig y Cynllun Un Cyflogwr Arweiniol (SLE). Erbyn 2022/23, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r broses o gyflwyno'r holl hyfforddeion meddygol craidd ac arbenigol yn GIG Cymru fesul cam drwy Gynllun SLE. Yr ehangu hwn yw prif ysgogydd y cynnydd mewn incwm a gwariant a adroddwyd dros y cyfnod pum mlynedd.
- Dros yr un cyfnod, mae'r cynnydd sylweddol mewn costau cyflogau yn adlewyrchu'n bennaf y twf flwyddyn ar ôl blwyddyn yn niferoedd staff SLE, wedi'i alinio ag ehangu Gwasanaethau Cymru Gyfan. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwysu i raddau helaeth gan incwm cyfatebol a geir gan Fyrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru.
- Mae'r cynnydd mewn gwariant nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres yn bennaf yn adlewyrchu colledion uwch, taliadau arbennig a dyledion na ellir eu hadennill, wedi'u gyrru gan symudiadau mewn esgeulustod clinigol a setliadau strwythuredig Cronfa Risg Cymru. Mae cynnydd ychwanegol yn deillio o gostau cyflenwadau clinigol ac eiddo uwch sy'n gysylltiedig â graddfa gwasanaethau a gomisiynir yn genedlaethol a gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag ystadau.
- Yn ystod 2024/25 a 2025/26, roedd y dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys dibrisiant cyflymach o £10.6m a £10.8m yn y drefn honno. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth Canolfan Ganser Felindre bresennol yn dilyn dechrau adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre.
- Yn 2024/25, gostyngodd costau anweithredol oherwydd costau cyllid is yn deillio o ddiddymu'r disgownt ar ddarpariaethau Cronfa Risg Cymru (WRP). Roedd y gostyngiad yn bennaf yn adlewyrchu symudiadau yng nghyfradd disgownt yr offeryn ariannol o'i gymharu â 2023/24. Arhosodd costau anweithredol yn isel yn 2025/26, gan adlewyrchu sefydlogrwydd parhaus mewn rhagdybiaethau cyfradd disgownt.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015



We are committed to acting ethically and with integrity and transparency in all business activity and to establish effective systems and controls, to safeguard against any form of modern slavery occurring within the Trust's supply chains.



Datganiad Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi

Gwnaed y datganiad hwn i gydymffurfio ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu'r camau y mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi'u cymryd ac y mae'n parhau i'w cymryd, er mwyn sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a/neu fasnachu pobl yn digwydd yn yr Ymddiriedolaeth nac yn ei chadwyni cyflenwi yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026.

Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys caethwasiaeth, caethiwed, masnachu pobl a llafur gorfodol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn goddef unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth fodern (caethwasiaeth, caethiwed, masnachu pobl a llafur gorfodol). Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n foesegol a chydag uniondeb a thryloywder ym mhob gweithgaredd busnes, yn ogystal â sefydlu systemau a rheolaethau effeithiol i ddiogelu yn erbyn unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth fodern sy'n digwydd yng nghadwyni cyflenwi'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwymo'n gyfan gwbl i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol. Wrth wneud hynny, mae wedi ymrwymo, fel cyflogwr y GIG, i gael gwared ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a hynny trwy ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesol a thrwy gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag unrhyw arferion cyflogaeth sy'n:

- Cefnogi caethwasiaeth fodern a sathru ar hawliau dynol.
- Cefnogi neu annog gweithredu cosbrestrau / rhestrau gwaharddedig;
- Hwyluso hunangyflogaeth ffug;
- Caniatáu'r defnydd o gynlluniau mantell ffug;
- Rhoi contractau dim oriau i weithwyr; a
- Hwyluso talu cyflogau sy'n is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Polisiau a Mentrau Presennol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwbl ymwybodol o'i chyfrifoldebau at gleifion, rhoddwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a'r gymuned leol, ac mae'n disgwyl i'r holl weithwyr a chyflenwyr weithredu'n foesegol a chydag uniondeb, a hynny ym mhob perthynas fusnes.

Cymerwyd y camau canlynol gan yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes:

Pobl (Ymddiriedolaeth Graidd)

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â chwe gofyniad y GIG mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogaeth, er mwyn gwirio bod ymgeiswyr yn bodloni rhagamodau'r swydd maent yn ymgeisio amdani. Mae hyn yn cynnwys gwiriad ynghylch yr hawl i weithio yn y DU.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi a phrosesau IR35 cadarn ar waith, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd annheg o weithwyr neu weithwyr hunangyflogedig ffug o dan gynlluniau mantell. Mae'r broses hon yn sicrhau yr ymgysylltir â gweithwyr mewn modd teg a phriodol, ac mae'n atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth Delerau Cyflogi cadarn sy'n cefnogi unigolion a ddefnyddir i gefnogi'r Ymddiriedolaeth dros dro trwy'r banc staff, ac mae adnoddau lleol ar gyfer y banc staff yn dilyn yr un egwyddorion â gofynion gwirio cyn cyflogaeth y GIG. Mae'r Ymddiriedolaeth yn talu ei gweithwyr sydd ar y cyflog isaf ar Fand Cyflog 2 (band cyflog isaf GIG Cymru). Mae'r cyflog hwn yn cydymffurfio â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, ac fel rhan o broses Gaffael GIG Cymru mae'n ofynnol i gyflenwyr trydydd parti sicrhau bod yr isafswm cyflog cenedlaethol yn cael ei dalu.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac ystod o brosesau a gweithdrefnau sy'n sicrhau nad yw unrhyw ymgeisydd, cyflogai neu weithiwr posibl sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth o dan anfantais afresymol mewn unrhyw ffordd o ran tâl, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad a chyfleoedd gyrfa;
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth ystod o bolisiau ar waith ar gyfer y gweithlu e.e. Polisi Parch a Datrys, Polisi Cwynion, Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith, Trais, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y Gweithle; ac ati. Mae ein polisiau yn galluogi ein cyflogeion i leisio eu pryderon am arferion gwaith gwael;
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) gan sicrhau bod cyflogeion yn yr Ymddiriedolaeth y gallai fod angen arnynt drosglwyddo i sefydliad newydd, yn cadw eu Telerau ac Amodau Gwasanaeth; ac
- Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio cosbrestr / rhestr waharddedig;

Darperir cyngor a hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl i gyflogeion trwy ein rhaglenni hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu plant ac oedolion, ein polisiau a gweithdrefnau diogelu a'n harweinydd diogelu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio ffyrdd newydd o gynyddu ymwybyddiaeth yn barhaus yn ein sefydliad, ac o sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o'r risgiau sydd ynghlwm wrth gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a hynny yn ein cadwyni cyflenwi ac yn ein busnes.

Gwrthderfysgaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, ymgymrodd y Bwrdd â hyfforddiant gwrthderfysgaeth o dan y cynllun PREVENT. Gan fod aelodau newydd o'r Bwrdd yn ystod 2025 ymlaen, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal eto.

2b – Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â thâl uwch reolwyr a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Ymddiriedolaeth Graidd a PCGC).

Y diffiniad o "Uwch Reolwr" yw: 'yr unigolion hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfarwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.' Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth graidd, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau, y Prif Swyddog Digidol a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Ar gyfer PCGC, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg.

Dangosir manylion llawn tâl uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth graidd a PCGC yn y tablau sy'n dechrau ar dudalen 138.

Gall y cyfansymiau yn rhai o'r tablau canlynol fod yn wahanol i'r rhai yn y Cyfrifon Blynyddol gan eu bod yn cynrychioli staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2026 tra bo'r Cyfrifon Blynyddol (nodyn 10.2) yn dangos nifer cyfartalog y gweithwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion y Berthynas Tâl Cydnabyddiaeth yn cael eu hadrodd ar dudalen 89 ac yn nodyn 10.6 o'r Cyfrifon Blynyddol.

Mae cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth y Tîm Gweithredol ac uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth graidd wedi'u pennu a byddant yn cael eu pennu gan Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn hanesyddol yn gosod y cyflog (na chynnydd cyflog i staff presennol) ar gyfer gweithwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n gweithio mewn sefydliadau sy'n cael eu lletya. Yn hanesyddol, mae cyflog sefydliadau sy'n cael eu lletya wedi cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol, heb ymglymiad blaenorol yr Ymddiriedolaeth. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth hefyd geisiadau yn ymwneud â'r cynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd. Mae aelodau Pwyllgor Tâl yr Ymddiriedolaeth yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Ceir manylion am aelodaeth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ar dudalennau 64-70 yn adran Adroddiad y Cyfarwyddwyr yr adroddiad hwn.

Mae trefniadau cyflog presennol y sector cyhoeddus yn gymwys i bob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Gweithredol. Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol ar bwyntiau cyflog yn hytrach na graddfeydd cyflog. Mae perfformiad y Tîm Gweithredol yn cael ei asesu yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cynllun tâl ar sail perfformiad.

Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol yr opsiwn o gael car prydles, o dan delerau cytundeb ceir prydles yr Ymddiriedolaeth.

Cyfansoddiad Staff yn ôl Rhyw

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl rhyw. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cyfansoddiad fel ar 31 Mawrth 2026. I'w nodi ei fod yn cynnwys gweithwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n gweithio yng Ngwasanaethau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Gwasanaeth Cancer Felindre, PCGC, Technoleg Iechyd Cymru, a Therapiau Datblygedig Cymru, ac nid yw'n cynnwys y rhai mewn swyddi Banc, Locwm ac Anrhydeddus. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys y data mewn perthynas â'r cynllun Un Cyflogwr Arweiniol, lle mae tua 3000 o staff ychwanegol yn cael eu cyflogi.

Rhyw	Cyfrif pennau	Cyferwerth ag Amser Llawn*	% y Cyfrif Pennau
Benyw	2,925	2,579.31	61.41%
Gwryw	1,688	1571.87	36.59%
Cyfanswm Terfynol	4,613	4151.18	100%

Ceir dadansoddiad o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr craidd yr Ymddiriedolaeth yn ôl rhyw yn y tabl isod. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cyfansoddiad fel ar 31 Mawrth 2026.

Teitl y Swydd	Rhyw	Cyfrif pennau	Cyferwerth ag Amser Llawn*	% y Cyfrif Pennau
Prif Swyddog Gweithredol	Gwryw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Gwryw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Benyw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd	Benyw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Benyw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	Gwryw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau	Benyw	1	1.00	7.69
Prif Swyddog Gweithredu	Benyw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff	Benyw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Trawsnewid	Benyw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr y Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre (nVCC)	Gwryw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru	Gwryw	1	1.00	7.69%
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cancer Felindre	Benyw	1	1.00	7.69%
Prif Swyddog Digidol	Gwryw	1	1.00	7.69%
Cyfanswm Terfynol	14	14	14	100%
	Gwryw	6	5.2	42.86%
	Benyw	8	7.8	57.14%

Cyfansoddiad Staff Yn ôl Grŵp Staff

Yn ystod 2025/2026, nifer cyfartalog y staff gweithredol cyfwerth ag amser llawn oedd yn cael eu cyflogi’n barhaol gan yr Ymddiriedolaeth oedd 4,073. Cyfrifir nifer cyfartalog y staff fel nifer cyfwerth ag amser llawn y staff ym mhob wythnos o’r flwyddyn ariannol wedi’i rannu â nifer yr wythnosau yn y flwyddyn ariannol. Mae’r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o’r gweithlu yn ôl grŵp staff ac yn ogystal â staff a gyflogir yn barhaol, mae’n dangos staff ar Secondiad mewnol, staff asiantaeth, hyfforddeion arbenigol (SLE) a staff eraill.

Nifer Cyfartalog y Gweithwyr Gweithredol Cyfwerth ag Amser Llawn

Grŵp Staff	Wedi’u Cyflogi yn Barhaol	Staff ar Secondiad Mewnol	Staff Asiantaeth	Hyfforddai Arbenigol (SLE)	Staff Eraill	2025/2026 Cyfanswm	2024/2025 Cyfanswm
Staff Gweinyddol, Clerigol ac Aelodau o’r Bwrdd	2,302	13	6	0	19	2,340	2,260
Meddygol a Deintyddol	115	1	0	31	3	150	142
Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig	270	1	0	0	0	271	250
Staff Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	102	4	0	0	0	106	95
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	280	0	1	0	1	282	264
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	167	0	3	0	0	170	159
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	187	0	0	0	0	187	174
Ystadau ac Atodol	647	0	1	0	25	673	652
Myfyrwyr	3	0	0	0	0	3	3
Cyfanswm	4,073	19	11	31	48	4,182	3,999

Data Absenoldeb Oherwydd Salwch 2025/2026 – Staff Craidd a Sefydliadau sy’n Cael eu Lletya (heb gynnwys staff Un Cyflogwr Arweiniol sy’n gweithio mewn Cyrff Iechyd eraill)

Report	2025/26	2024/25	Variance
Adroddiad	2025/26	2024/25	Amrywiant
Cyfanswm y Diwrnodau CALL (FTE) a Gollwyd (Hirdymor):	57241.59	50873.29	6,368
Cyfanswm y Diwrnodau CALL (FTE) a Gollwyd (Tymor byr):	20362.63	20504.98	-142
Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd:	77604.22	71378.27	6225.95
Cyfartaledd y Staff a Gyflogwyd yn ystod y Cyfnod – Cyfwerth ag Amser Llawn (CALL) (heb gynnwys staff a secondiwyd i mewn, asiantaeth, banc)	4083.79	3865.28	218.51
Diwrnodau Gwaith Cyfartalog a Gollwyd (CALL):	19.00	18.47	0.5365
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer y bobl): (Cyfrif pennau)	4605	4427	178
Cyfanswm y Staff a Gyflogwyd yn ystod y Cyfnod heb unrhyw Absenoldeb oherwydd Salwch (nifer y bobl):	1887	1764	123
Canran y staff na fuont yn absennol oherwydd salwch (%):	40.98	39.85	1.13

Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Graidd, mae tîm y gweithlu yn gweithio gyda gweithwyr i reoli llesiant staff ac absenoldeb oherwydd salwch. Datblygir adroddiadau perfformiad misol ar gyfer gwasanaethau a chydweithwyr Gweithredol i fonitro salwch. Mae ymyriadau i gefnogi rheolwyr yn cyd-fynd â'r rhesymau dros salwch er mwyn sicrhau ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi staff.

Salwch seicolegol yw'r prif reswm dros absenoldeb salwch ar draws yr Ymddiriedolaeth o hyd. Er mwyn darparu cymorth priodol ac ychwanegol i staff, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar ymyriadau i gefnogi llesiant seicolegol ein staff. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau galw heibio gyda'n tîm llesiant, cymorth ar y safle gan ein gwasanaeth Rhaglen Cymorth i Weithwyr, hyfforddi hyrwyddwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl, a chynnal nifer o rwydweithiau staff i gefnogi staff.



Salwch seicolegol yw'r prif reswm dros absenoldeb salwch ar draws yr Ymddiriedolaeth o hyd. Er mwyn darparu cymorth priodol ac ychwanegol i staff, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar ymyriadau i gefnogi llesiant seicolegol ein staff.



Polisiâu Staff

Mae asesiad yn cael ei gynnal ar holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth o'u heffaith ar gydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchodedig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gwneud cais i weithio yn yr Ymddiriedolaeth neu sy'n cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth. Mae holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth ar gael trwy wefan yr Ymddiriedolaeth.

Tablau Datgelu Cyflogau a Phensiynau (Wedi'u Harchwilio)

Ffigur Cyfanswm Tâl Sengl

Mae'r Adroddiad hwn ar Dâl yn cynnwys un ffigur cyfanswm y taliadau. Mae swm y buddiannau pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at un ffigur y cyfanswm yn cael ei gyfrifo ar sail y canllawiau a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r swm a gynhwysir yn y tabl ar gyfer buddiannau pensiwn yn seiliedig ar y cynnydd mewn pensiwn cronedig wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. Bydd hyn yn gyffredinol yn cymryd blwyddyn ychwanegol o wasanaeth i ystyriaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau mewn cyflog pensiynadwy. Nid yw hyn yn swm sydd wedi cael ei dalu i unigolyn gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddiannau pensiwn. Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan sawl ffactor e.e. newidiadau mewn cyflog unigolyn, p'un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Mae'r datgeliadau cyflogau a phensiynau yn adlewyrchu gwybodaeth yr uwch reolwyr. Fel y nodir ar dudalen 79, mae uwch dîm rheoli craidd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol, a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau, y Prif Swyddog Digidol, a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Ar gyfer PCCG, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, y Cyfarwyddwr Meddygol ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg.

Un Cyfanswm Tâl Cydnabyddiaeth

	2025/2026					2024/2025				
Enw a Theitl	Cyflog £000 (bandiau o £5,000)	Tâl Arall £000 (bandiau o £5,000)	Buddion mewn Nwyddau £ (i'r £100 agosaf)	Buddiannau pensiwn £000 (bandiau o £2,500)	Cyfanswm £000 (bandiau o £5,000)	Cyflog £000 (bandiau o £5,000)	Tâl Arall £000 (bandiau o £5,000)	Buddion mewn Nwyddau £ (i'r £100 agosaf)	Buddiannau pensiwn £000 (bandiau o £2,500)	Cyfanswm £000 (bandiau o £5,000)
Ymddiriedolaeth Graidd - Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr										
David Donegan Prif Weithredwr ¹	160-165	0	0	52.5-55	215-220	60-65	0	0	0	60-65
Carl James Prif Weithredwr ²	150-155	0	23	45-47.5	200-205	155-160	0	6	130- 132.5	285-290
Anne Carey Prif Swyddog Gweithredu ³	140-145	0	0	117.5-120	260-265	120-125	0	0	0	120-125
Matthew Bunce Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ⁴	135-140	0	0	52.5-55	185-190	130-135	0	0	55-57.5	185-190
Jacinta Abraham Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ⁵	135-140	30-35	0	0	165-170	130-135	30-35	0	65-67.5	230-235
Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd	135-140	0	0	32.5-35	170-175	130-135	0	0	0	130-135
Sarah Morley Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ⁶	70-75	0	0	0	70-75	115-120	0	0	0	115-120
Sarah Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ⁷	60-65	0	0	7.5-10	70-75	0	0	0	0	0
Non Gwilym Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff ⁸	85-90	0	14	22.5-25	110-115	65-70	0	7	0	65-70
Lauren Fear Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau ⁹	125-130	0	3	37.5-40	165-170	125-130	0	0	30-32.5	155-160
Carl Taylor Prif Swyddog Digidol ¹⁰	125-130	0	0	47.5-50	125-130	0	0	0	0	0

Nodiadau

1. Gadawodd David Donegan yr Ymddiriedolaeth ar 18 Tachwedd 2025. Mae band cyflog 2025/26 yn cynnwys taliad o dri mis yn lle rhybudd (PILON). Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn rhwng £185k a £190k.
2. Carl James oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol tan 18 Tachwedd 2025 (mae'r cyflog cyfatebol am flwyddyn lawn yn yr ystod £140k - £145k, cyn addasiadau aberthu cyflog), pan gafodd ei benodi'n Brif Weithredwr Dros Dro (mae'r cyflog cyfatebol am flwyddyn lawn yn yr ystod £185k - £190k, cyn addasiadau aberthu cyflog). Mae'r buddiant mewn nwyddau yn ymwneud â chynlluniau aberthu cyflog. Effeithiodd y Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus ar fuddion pensiwn Carl James ar gyfer 2024/25, lle symudwyd aelodaeth o'r cynllun pensiwn ar gyfer cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022 yn ôl i Gynllun Pensiwn y GIG 1995/2008 ar 1 Hydref 2023. Cyflwynwyd ffigurau budd pensiwn negyddol a gododd yn 2023/24 gyda sero, gan arwain at adrodd ffigur budd pensiwn uwch yn 2024/25.
3. Cafodd Anne Carey ei secondio i'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2024/25 ac ni chronnwyd unrhyw fuddion pensiwn yn y flwyddyn honno; yn dilyn ei phenodiad parhaol yn Brif Swyddog Gweithredu o 1 Ebrill 2025, mae'r buddion pensiwn a ddatgelwyd ar gyfer 2025/26 yn adlewyrchu blwyddyn lawn o wasanaeth pensiynadwy ac fe'u cyfrifir gan ddefnyddio methodoleg Greenbury, gan arwain at ffigur budd pensiwn cymharol uchel.
4. Mae gan Matthew Bunce groniat ôl-ddyledion gwyliau blynyddol o £6k, i'w dalu yn 2026/27.
5. Penodwyd Jacinta Abraham, y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, yn Ddirprwy Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro ar 18 Tachwedd 2025 (mae'r cyflog cyfatebol ar gyfer blwyddyn lawn yn yr ystod £170k - £175k). Mae tâl arall yn ymwneud â chyfrifoldebau clinigol. Ymddeolodd Jacinta a dychwelodd i'r gwaith ar 17 Rhagfyr 2025 ac felly ni adroddir unrhyw ffigurau pensiwn.
6. Ymddeolodd Sarah Morley o'r Ymddiriedolaeth ar 31 Hydref 2025.
7. Penodwyd Sarah Jenkins yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar 1 Hydref 2025, ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
8. Roedd cyflog gros Non Gwilym cyn addasiadau aberthu cyflog (buddiant mewn nwyddau) rhwng £90k a £95k.
9. Lauren Fear oedd Cyfarwyddwr Dros Dro Trawsnewid (mae cyflog cyfatebol blwyddyn lawn rhwng £125k a £130k, cyn addasiadau aberthu cyflog) tan 1 Medi 2025, pan gafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau (mae cyflog cyfatebol blwyddyn lawn rhwng £125k a £130k, cyn addasiadau aberthu cyflog) ar secondiad dwy flynedd. Mae'r buddiant mewn nwyddau yn ymwneud â chynllun aberthu cyflog.
10. Mae rôl Carl Taylor wedi'i chynnwys fel uwch reolwr am y tro cyntaf yn 2025/26 ac felly ni ddatgelir unrhyw wybodaeth gymharol.

Tablau Datgelu Cyflogau a Phensiynau (Wedi’u Harchwilio) –
Tabl 1 - Un Cyfanswm Tâl Cydnabyddiaeth (Parhad)

Enw a Theitl	2025/2026					2024/2025				
	Cyflog £000 (bandiau o £5,000)	Tâl Arall £000 (bandiau o £5,000)	Buddion mewn Nwyddau £0 (i'r £100 agosaf) Ymddiriedolaeth Graidd - Aelodau Annibynnol/ Cyfarwyddwyr Anweithredol	Buddiannau pensiwn £000 (bandiau o £2,500)	Cyfanswm £000 (bandiau o £5,000)	Cyflog £000 (bandiau o £5,000)	Tâl Arall £000 (bandiau o £5,000)	Buddion mewn Nwyddau £ (i'r £100 agosaf)	Buddiannau pensiwn £000 (bandiau o £2,500)	Cyfanswm £000 (bandiau o £5,000)
Ymddiriedolaeth Graidd - Aelodau Annibynnol/Cyfarwyddwyr Anweithredol										
Donna Mead, Cadeirydd ¹	10-15	0	0	0	10-15	40-45	0	0	0	40-45
Sarah Moseley Cadeirydd ²	15-20	0	0	0	15-20	0	0	0	0	0
Stephen Harries, Is-gadeirydd ³	5-10	0	0	0	5-10	35-40	0	0	0	35-40
Lindsay Foyster, Is-gadeirydd ⁴	30-35	0	0	0	30-35	5-10	0	0	0	5-10
Gareth Jones, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	5-10	0	0	0	5-10
Hilary Jones, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	5-10	0	0	0	5-10
Andrew Westwell, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	5-10	0	0	0	5-10
Vicky Morris, Aelod Annibynnol	10-15	0	0	0	10-15	5-10	0	0	0	5-10
John Union, Aelod Annibynnol ⁵	0-5	0	0	0	0-5	0	0	0	0	0
Ceri Doyle, Aelod Annibynnol ⁶	0-5	0	0	0	0-5	0	0	0	0	0

Nodiadau:

1. Gadawodd Donna Mead (Cadeirydd) yr Ymddiriedolaeth ar 31 Gorffennaf 2025.
2. Penodwyd Sara Moseley (Cadeirydd) ar 1 Medi 2025.
3. Gadawodd Stephen Harries yr Ymddiriedolaeth ar 31 Awst 2025.
4. Penodwyd Lindsay Foyster, Aelod Annibynnol (Amrywiaeth a Chynhwysiant) yn Is-gadeirydd ar 1 Mai 2025.
5. Penodwyd John Union yn Aelod Annibynnol (Cyllid) ar 1 Hydref 2025.
6. Penodwyd Ceri Doyle yn Aelod Annibynnol ar 27 Hydref 2025.

	2025/2026					2024/2025								
Enw a Theitl	Cyflog	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawm (FTE)	Tâl Arall	Buddion mewn Nwyddau	Buddiannau pensiwn	Cyfanswm	Cyfanswm FTE	Cyflog	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawm (FTE)	Tâl Arall	Buddion mewn Nwyddau	Buddion pensiwn ¹⁰	Cyfanswm	Cyfanswm FTE
	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (i'r	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (to the nearest	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o
	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£100 agosaf	£2,500)	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£100 agosaf	£2,500)	£5,000)	£5,000)
Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru - Cyfarwyddwyr Corfforaethol ¹														
Neil Frow ² Rheolwr Cyfarwyddwr	170- 175	170- 175	-	4.3	112.5- 115	285- 290	285- 290	155- 160	155- 160	-	2.0	-	-	-
Andrew Butler ³ Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol tan 30 Ebrill 2024	-	-	-	-	-	-	-	10-15	10-15	-	-	-	-	-
Alison Ramsey ⁴ Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o 1 Mai 2024, Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg tan 30 Ebrill 2024	150- 155	150- 155	-	2.5	42.5-45	200- 205	200- 205	150- 155	150- 155	-	-	-	-	-
Rebecca Nelson ⁵ Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg o 5 Awst 2024	125- 130	125- 130	-	-	30-32.5	155- 160	155- 160	80-85	80-85	-	-	-	-	-
Gareth Hardacre ⁶ Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth	135- 140	135- 140	-	1.7	40-42.5	180- 185	180- 185	130- 135	130- 135	-	1.1	-	-	-
Dr Ruth Alcolado ^{7 8 9} Cyfarwyddwr Meddygol	105- 110	165- 170	-	-	-	105- 110	165- 170	90-95	160- 165	-	-	-	-	-

Nodiadau:

- Mae rolau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol sydd wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn yn cyfeirio neu'n rheoli gweithgareddau ar draws holl Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ac yn mynychu holl gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bartneriaeth.
- Cynyddodd cyflog Neil Frow o 1 Tachwedd 2024 yn dilyn ailasesu'r rôl gan Lywodraeth Cymru. Mae cyflog gros 2024-25 cyn aberthu cyflog yn y band £175k-£180k. Mae cyflog gros 2025-26 cyn didyniadau aberthu cyflog yn y band £190k-£195k.

- 3. Ymddeolodd Andrew Butler ar 30 Ebrill 2024 a chafodd dâl o 3 diwrnod o wyliau blynyddol heb eu cymryd.
- 4. Alison Ramsey oedd y Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg tan 30 Ebrill 2024. Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o 1 Mai 2024. Mae cyflog gros cyfwerth â blwyddyn lawn 2024-25 ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol cyn didyniadau aberthu cyflog yn y band £155k - £160k. Mae cyflog gros 2025-26 cyn didyniadau aberthu cyflog yn y band £160k-£165k.
- 5. Penodwyd Rebecca Nelson o 5 Awst 2024. Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn 2024/25 yn yr ystod £125k - £130k. Mae cyflog gros 2025-26 cyn didyniadau aberthu cyflog yn parhau o fewn yr ystod £125k-£130k.
- 6. Mae cyflog gros Gareth Hardacre cyn didyniadau aberthu cyflog yn y band £140k-£145k ar gyfer 2024/25 ac yn y band £145k-£150k ar gyfer 2025/26.
- 7. Nid yw Ruth Alcolado yn cael tâl pensiynadwy oherwydd ymddeol a dychwelyd i'r swydd yn 2023.
- 8. Lleihaodd Ruth Alcolado ei horiau yn 2024/2025. Nodwyd tandaliad yn dyddio'n ôl i 4 Medi 2023, yn deillio o ddyfarniad cyflog 2023/24 a thalwyd ôl-ddyledion o £13k ym mis Mawrth 2026. Y cyflog gros FTE wedi'i addasu cyn didyniadau aberthu cyflog yw £160k-£165k ar gyfer 2024/25 a £165k-£170k ar gyfer 2025/26.
- 9. Ymddiswyddodd Ruth Alcolado o rôl y Cyfarwyddwr Meddygol yn weithredol o 31 Mawrth 2026.
- 10. Nid yw'r Asiantaeth Pensiynau yn gallu darparu gwybodaeth gymharol ar gyfer 2023/2024 felly ni ellir adrodd ar unrhyw ffigurau buddion pensiwn na chyfanswm y buddion ar gyfer 2024/25.

Enw a Theitl	2025/2026					2024/2025								
	Cyflog	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Tâl Arall	Buddion mewn Nwyddau	Buddiannau pensiwn	Cyfanswm	Cyfanswm FTE	Cyflog	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Tâl Arall	Buddion mewn Nwyddau	Buddion pensiwn ¹⁰	Cyfanswm	Cyfanswm FTE
	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (i'r	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (to the nearest	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o	£000 (bandiau o
	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£100 agosaf	£2,500)	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£5,000)	£100 agosaf	£2,500)	£5,000)	£5,000)
Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru - Aelodau Annibynnol/Anweithredol														
Tracy Myhill ^{1 2 3} Cadeirydd	30-35	30-35	-	-	-	30-35	30-35	30-35	30-35	-	-	-	30-35	30-35

Nodiadau:

- 1. Nid yw Tracy Myhill yn cael tâl pensiynadwy.
- 2. Daeth tymor pedair blynedd gwreiddiol Tracy Myhill i ben ar 30 Tachwedd 2025 a chafodd ei hailbenodi am flwyddyn arall hyd at 30 Tachwedd 2026.
- 3. Mae gwall cyflogres wedi'i ganfod gyda'r gyfradd tâl dyddiol a dalwyd i Tracy Myhill sydd wedi achosi gordaliad o £6k (gros) yn dyddio'n ôl i 1 Chwefror 2023. Mae £1.9k yn ymwneud â 2025-26 ac mae £1.9k yn ymwneud â 2024-25 – bydd y gordaliad yn cael ei ad-dalu. Mae'r tâl wedi'i gywiro yn parhau o fewn y band £30k-£35k am 8 diwrnod y mis.

Datgelu Cyflogau a Phensiynau

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafedig a aseswyd gan actiwari o fuddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn dichonol sydd i'w dalu o'r cynllun i ŵr neu wraig. Taliad yw'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn, i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod, o ganlyniad iddo ef neu hi brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gynigir gan Sefydliad a Chyfadrannau yr Actiwariaid.

Y Cynnydd Gwirioneddol Mewn Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Mae'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod



Tablau Datgelu Cyflogau a Phensiynau (Wedi’u Harchwilio)
Tabl 2 - Buddion Pensiwn Aelodau’r Bwrdd a’r Rheolwyr Uchel Iawn

Name & Title	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2026 a chyfandaliad cysylltiedig (bandiau o £5,000)	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) (bandiau o £2,500)	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2026	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2026	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ymddiriedolaeth Graidd - Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr						
David Donegan Prif Weithredwr ¹	30-35	2.5-5	419	328	39	
Carl James Prif Weithredwr	75-80	2.5-5	1,265	1,178	47	
Matthew Bunce Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	215-220	7.5-10	1,472	1,355	70	
Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ²	10-15	0	218	1,522	0	
Anne Carey Prif Swyddog Gweithredu	185-190	5-7.5	1,312	1,138	137	
Lauren Fear Cyfarwyddwr Lle, Portffolio a Phartneriaethau	10-15	2.5-5	168	131	19	
Non Gwilym Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff	10-15	0-2.5	163	133	17	
Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd	10-15	2.5-5	159	115	25	
Sarah Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	15-20	0-2.5	226	185	4	
Sarah Morley Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ³	5-10	0	0	43	0	
Carl Taylor Prif Swyddog Digidol	5-10	0-2.5	141	100	24	

Nodiadau:

- Gadawodd David Donegan yr Ymddiriedolaeth ar 18 Tachwedd 2025. Ni chronnwyd unrhyw wasanaeth pensynadwy pellach ar ôl y dyddiad hwn.
- Ymddeolodd Jacinta Abraham a dychwelodd i'r gwaith ar 17 Rhagfyr 2025. Roedd y cynnydd gwirioneddol mewn buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn yn negyddol ac felly fe'i datgelir fel dim.
- Ymddeolodd Sarah Morley a dychwelodd i'r gwaith ar 1 Chwefror 2024 ac wedi hynny ymddeolodd o'r swydd ar 31 Hydref 2025. Mae buddion pensiwn a ddatgelwyd yn adlewyrchu cyfnodau o wasanaeth pensynadwy yn ystod y flwyddyn.
- Oherwydd nad yw Aelodau Annibynnol yn cael tâl pensynadwy, nid oes unrhyw gofnodion o ran pensynau i Aelodau Annibynnol.
- Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2026. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023; defnyddiwyd y canllawiau hyn wrth gyfrifo ffigurau CETV 2025-26.

Enw a Theitl	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2026 a chyfandaliad cysylltiedig (bandiau o £5,000)	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) (bandiau o £2,500)	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2026	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2025	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Partneriaeth Cydasanaethau GIG Cymru – Cyfarwyddwyr Corfforaethol						
Neil Frow Rheolwr Gyfarwyddwr	155-160	15-17.5	1,067	916	114	0
Andrew Butler ¹ Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol tan 30 Ebrill 2024	0	0	0	0	0	0
Alison Ramsey Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o 1 Mai 2024, Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg tan 30 Ebrill 2024	45-50	2.5-5	426	369	31	0
Rebecca Nelson ² Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg o 5 Awst 2024	0-5	0-2.5	50	19	15	0
Gareth Hardacre Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth	25-30	2.5-5	429	369	36	0
Dr Ruth Alcolado ³ Cyfarwyddwr Meddygol	0	0	0	0	0	0

Nodiadau:

- Ymdeolodd Andrew Butler ar 30 Ebrill 2024, felly mae'r pensiwn cronedig, y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn, y cyfandaliad a'r CETV wedi'u hadrodd fel sero.
- Penodwyd Rebecca Nelson o 5 Awst 2024. Mae'r CETV yn ymwneud â Chynllun 2015 yn unig.
- Nid yw Ruth Alcolado yn cael tâl pensynadwy oherwydd ymddeol a dychwelyd i'r swydd yn 2023.
- Gan nad yw aelodau annibynnol yn cael tâl pensynadwy, nid oes unrhyw gofnodion ar gyfer ein Cadeirydd Tracy Myhill.
- Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2026.



Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr / cyflogai sy'n cael y cyflog uchaf yn ei sefydliad a'r 25ain canradd, canolrif a 75ain canradd o dâl cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad.



Adrodd ar Gynlluniau Iawndal Eraill – Pecynnau Ymadael

Yn ystod 2025/26, cymeradwywyd a thalwyd 4 pecyn ymadael (2024/25, 0) gyda gwerth o £137,839. Talwyd y pecynnau hyn yn unol â thelerau ac amodau gwasanaeth cydnabyddedig y GIG/Polisi'r Ymddiriedolaeth. Nid oedd yr un o'r pecynnau ymadael a adroddwyd yn ymwneud ag uwch swyddogion. Ni chytunwyd ar unrhyw daliadau arbennig mewn perthynas â pheccynnau ymadael yn 2025/26 (2024/2025, 0).

Perthynas Tâl Cydnabyddiaeth

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr / cyflogai sy'n cael y cyflog uchaf yn ei sefydliad a'r 25ain canradd, canolrif a 75ain canradd o dâl cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad.

Corff Statudol – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre:

Roedd tâl wedi'i fandio Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn y flwyddyn ariannol 2025/26 yn £185,000 - £190,000 (2024/25, £180,000 - £185,000). Roedd hyn: 4.7 gwaith (2024/2025, 5.5) tâl canolrifol y gweithlu, sef £39,699 (2024/25, £33,216); 6.4 gwaith (2024/25, 6.8) 25ain canradd tâl y gweithlu, sef £29,139 (2024/25, £26,641); a 3.4 gwaith (2024/25, 3.5) 75ain canradd tâl y gweithlu, sef £55,532 (2024/25, £51,457).

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol yn nhâl y Prif Weithredwr oedd 2.7%, ac 11.5% mewn perthynas â'r gweithwyr yn eu cyfanrwydd.

Yn 2025/26, cafodd 16 (2024/25, 16) o weithwyr gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na chyflog y Prif Weithredwr. Ymgynghorwyr meddygol yw mwyafrif y gweithwyr hyn, gydag un rôl anghlinigol sef Cyfarwyddwr Prosiect CGFn (penodiad tymor penodol).

Roedd y tâl cydnabyddiaeth ar gyfer pob aelod staff yn amrywio o £24,800 i £241,400 (2024/25, £24,000 i £226,800).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau cyfwerth ag arian parod.

Dylid cyfrifo taliadau goramser wrth gyfrifo'r ddwy elfen o'r berthynas.

Sefydliad wedi'i Letya - Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC):

Roedd tâl wedi'i fandio y Rheolwr Gyfarwyddwr yn PCGC yn y flwyddyn ariannol 2025/26 yn £190,000 - £195,000 (2024/25, £185,000 - £190,000). Roedd hyn: 6.3 gwaith (2024/25, 6.3) tâl canolrifol y gweithlu, sef £30,615 (2024/25, £29,551); 7.1 gwaith (2024/25, 7.2) 25ain canradd tâl y gweithlu, sef £26,999 (2024/2025, £26,060); a 4.1 gwaith (2024/25, 4.1) 75ain canradd tâl y gweithlu, sef £47,280 (2024/25, £45,637).

Roedd y newid canrannol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol yng nghydnabyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr yn 3.3%, a 3.9% mewn perthynas â gweithwyr gyda'i gilydd.

Yn 2025/26, ni chafodd 0 (2024/25, 0) o weithwyr gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na chyflog y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Roedd y tâl cydnabyddiaeth ar gyfer pob aelod staff yn amrywio o £24,800 i £167,000 (2024/25, £24,000 i £156,000).

Gwariant ar Ymgynghoriaeth

Yn ystod 2025/26, gwariodd yr Ymddiriedolaeth £1.488m o'i chyllid refeniw ar ffioedd ymgynghori allanol (£0.651m) yn gysylltiedig â PCGC); a £2.951m o'i chyllid cyfalaf ar ffioedd ymgynghori allanol, (gan gynnwys £1.622m yn gysylltiedig â'r prosiect ysbyty newydd a £0.462m yn gysylltiedig â PCGC).

Dyma rai enghreifftiau:


- Ffioedd cyfrifyddu
- Ffioedd cyfreithiol
- Ffioedd dylunio
- Ffioedd rheoli prosiectau a chostau cefnogi
- Ymgynghoriaeth a chynghor TG
- Ffioedd yn ymwneud â rheoli'r adeilad, gan gynnwys costau tirlfesurwyr a thrydanol

Gwariant ar Staff Dros Dro

Yn ystod 2024/25 gwariodd yr Ymddiriedolaeth £0.473m o'i chyllid refeniw ar staff dros dro (£0.031m yn gysylltiedig â PCGC). Mae hyn yn cynnwys gweithwyr (asiantaethol) dros dro, rheolwyr dros dro a Chontractwyr Arbenigol.

Sicrwydd Treth ar Gyfer Ymrwymadau Oddi ar y Gyflogres

Yn dilyn Adolygiad o'r Trefniadau Treth ar gyfer Penodiadau'r Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 23 Mai 2012, mae'n ofynnol i adrannau gyhoeddi gwybodaeth am eu hymrwymadau sydd â thâl uchel a/neu ymrwymadau uwch nad ydynt ar y gyflogres. Mae'r wybodaeth, sydd wedi'i chynnwys yn y tri thabl isod, yn cynnwys yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2026 ar gyfer y rhai sy'n ennill mwy na £245 y dydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth graidd a'r sefydliadau a letyir ganddi.



Tabl 1: Ymrwymïadau gweithwyr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2026, yn ennill £245 y diwrnod neu fwy:

Nifer yr ymrwymïadau presennol ar 31 Mawrth 2026	23
O’r rhain, y nifer a oedd yn bodoli ar adeg yr adroddiad:	
• lai nag 1 flwyddyn	15
• am rhwng 1 a 2 flynedd	6
• am rhwng 2 a 3 blynedd 0	0
• am rhwng 3 a 4 blynedd	0
• am 4 blynedd neu fwy	2

Mae’r holl ymrwymïadau oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad yn seiliedig ar risg ar ryw adeg, i weld p’un a oes angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu’r swm cywir o dreth, a lle bo angen, y gofynnwyd am y sicrwydd hwnnw.

Tabl 2: Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, yn ennill £245 y dydd neu fwy:

Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026	38
O’r rhain:	
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	4
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi’i bennu o fewn cwpas IR35	23
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi’i bennu fel un y tu allan i gwmpas IR35	9
Nifer yr ymrwymïadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	2
O’r rhain, nifer yr ymrwymïadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	0

Tabl 3: Ar gyfer unrhyw ymrwymïadau nad oeddynt ar y gyflogres ar gyfer aelodau’r bwrdd, a/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Nifer y penodiadau nad oeddent ar y gyflogres ar gyfer aelodau’r bwrdd, ac/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol.	0
Nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres sydd wedi’u hystyried yn “aelodau o’r bwrdd, ac/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol”, yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai’r ffigur hwn gynnwys penodiadau ar, ac oddi ar y gyflogres.	21

Nid oedd unrhyw aelodau’r bwrdd oddi ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol.

2c – Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Rheoleidd-dra Gwariant yw'r gofyniad i ymdrin â phob eitem o wariant a derbynebaw yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig cymwys a rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol, ac i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd. Roedd gwariant eleni yn rheolaidd ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yn trosglwyddo'r gost lawn o ddarparu'r gwasanaethau hynny ac maent yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau ei bod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllaw Trysorlys EF yn ystod y flwyddyn.

Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm i dalu ei chostau. Caiff manylion pellach am incwm a dderbynnir eu cyhoeddi yng nghyfrifon blynyddol yr Ymddiriedolaeth, o fewn nodyn 4 o dan y pennawd 'refeniw gweithredu arall'.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal Cronfa Risg Cymru (WRP) yn rhan o PCGC GIG Cymru ac felly mae ei chyfrifon yn cynnwys amcangyfrifon o atebolrwydd dibynnol o bell gan Sefydliadau Iechyd Cymru ar gyfer hawliadau ymglyfreitha posibl a allai godi yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau hysbys. Yn 2025/26, mae datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn nodi cyfanswm atebolrwydd dibynnol pell o £11m.

Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Fawrhdy.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o amgylchiadau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar 31 Mawrth 2026, ac o'i gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o ddatganiadau ariannol endidau'r sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Rwyf fi a'm staff yn annibynnol o'r ymddiriedolaeth ac yn gweithredu'n unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifo am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelwyd y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn ddiamwys fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn natganiadau ariannol yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am hyn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar dâl cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru;

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ymddiriedolaeth a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- na wneir datgeliadau penodol o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Ymddiriedolaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid oedd yn cael ei harchwilio a'r rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y maes a ganlyn: postio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Ymddiriedolaeth; a
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.



Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill;
- asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dynodi rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwrpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad


Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
26 Mehefin 2026

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

3

Archwiliad Terfynol Cyfrifon Ariannol 2025-26



Velindre University NHS Trust

Foreword

These accounts for the period ended 31 March 2026 have been prepared in accordance with International Financial Reporting Standards (IFRS) adopted by the European Union, as adapted and interpreted for the public sector context by HM Treasury's Government Financial Reporting Manual (FReM). The accounts have been prepared by Velindre University NHS Trust under paragraph 3(1) of Schedule 9 to the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42), in the form directed by the Welsh Ministers, with the approval of HM Treasury.

These accounts present the financial position and results of the Trust, including those organisations hosted by it, as described in the statutory background section below.

Statutory background

The Trust was established by Statutory Instrument on 1 December 1993 and became operational on 1 April 1994. At the time of establishment, the Trust operated as a single-specialty organisation providing cancer services. Over the past 32 years, the Trust has evolved and expanded significantly.

The principal function of the Trust is to provide all-Wales and regional clinical healthcare services to the NHS and the people of Wales. The Trust delivers services through two clinical divisions: the Welsh Blood Service and Velindre Cancer Service.

In addition to these clinical services, the Trust is host to two organisations. At 31 March 2026, these were:

- NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP), which was established on 1 April 2011 following the transfer of functions from a number of separate services. NWSSP became a hosted body of Velindre University NHS Trust on 1 June 2012.
- Health Technology Wales (HTW), which was established on 1 April 2016 and receives grant funding from the Welsh Government under the Efficiency through Technology Programme.



Performance Management and Financial Results

Under the National Health Service (Wales) Act 2006, the financial duties of NHS Trusts are set out in paragraph 2(1) and paragraph 2(2) of Schedule 4. These duties were amended for Local Health Boards by the National Health Services Finance (Wales) Act 2014. Through Welsh Health Circular WHC/2016/054, Welsh Ministers applied the same financial duties to NHS Trusts, including the requirement to break even over a rolling three-year period.

The NHS Finance (Wales) Act 2014 came into effect on 1 April 2014 and the first assessment against the three-year rolling financial duty was undertaken at the end of the 2016-2017 financial year.

The second duty arises from the Welsh Ministers' powers to set financial objectives for NHS Trusts under paragraph 2(2) of Schedule 4 of the National Health Service (Wales) 2006 Act. The planning requirement, which by virtue of being set as a financial objective becomes a statutory financial duty, was previously set by the Welsh Ministers and has been retained through WHC/2016/054.



Statement of comprehensive income for the year ended 31 March 2026

		2025-26	2024-25
	Note	£000	£000
Revenue from patient care activities	3	890,223	626,038
Other operating revenue	4	552,101	527,402
Operating expenses	5.1	(1,444,810)	(1,159,152)
Operating (deficit)/surplus		2,486	(5,712)
Investment revenue	6	(1,159,152)	1,879
Other gains and losses	7	18	11
Finance costs	8	1,098	3,879
Consolidated Total			
Retained surplus	2.1.1	292	57
Other Comprehensive Income			
Items that will not be reclassified to net operating costs:			
Net gain/(loss) on revaluation of property, plant and equipment		3,457	614
Net gain / (loss) on revaluation of right of use assets		0	0
Net gain/(loss) on revaluation of intangible assets		0	0
Net gain/(loss) on revaluation of financial assets		0	0
Net gain/(loss) on revaluation of PPE and Intangible assets held for sale		0	0
Impairments and reversals		0	0
Movements in other reserves		53	200
Transfers between reserves		0	0
Release of reserves to SoCNE		0	0
Transfers (to) / from other NHS Wales bodies		0	0
Net gain/loss on Other Reserve		0	0
Reclassification adjustment on disposal of available for sale financial assets		0	0
Reserves eliminated on dissolution		0	0
Sub total		3,510	814
Items that may be reclassified subsequently to net operating costs			
Net gain/(loss) on revaluation of financial assets held for sale		0	0
Sub total		0	0
Total other comprehensive income for the year		3,510	814
Total comprehensive income for the year		3,802	871

The notes on s 6 to 78 form part of these accounts.

Statement of Financial position as at 31 March 2026

		Note	31 March 2026	31 March 2025
			£000	£000
Non-current assets	Property, plant and equipment	13	419,248	292,791
	Right of Use Assets	13.3	17,867	19,002
	Intangible assets	14	10,585	11,160
	Trade and other receivables	17.1	1,530,778	1,350,042
	Other financial assets	18	0	0
	Total non-current assets		1,978,478	1,672,995
Current assets	Inventories	16.1	33,680	31,666
	Trade and other receivables	17.1	678,791	592,821
	Other financial assets	18	0	0
	Cash and cash equivalents	19	34,330	15,206
			746,801	639,693
	Non-current assets held for sale	13.2	9	0
	Total current assets		746,810	639,693
Total assets			2,725,288	2,312,688
Current liabilities	Trade and other payables	20	(289,098)	(253,207)
	Borrowings	21	(1,637)	(1,530)
	Other financial liabilities	22	0	0
	Provisions	23	(445,825)	(364,179)
	Total current liabilities		(736,560)	(618,916)
Net current assets/(liabilities)			10,250	20,777
Total assets less current liabilities			1,988,728	1,693,772
Non-current liabilities	Trade and other payables	20	(3,555)	(3,555)
	Borrowings	21	(228,064)	(108,810)
	Other financial liabilities	22	0	0
	Provisions	23	(1,532,537)	(1,362,437)
	Total non-current liabilities		(1,764,156)	(1,474,802)
Total assets employed			224,572	218,970
Financed by Taxpayers' equity:				
	Public dividend capital		164,484	162,684
	Retained earnings		20,299	19,817
	Revaluation reserve		39,789	36,469
	Other reserves		0	0
	Total taxpayers' equity		224,572	218,970

The financial statements were approved by the Board on 25 June 2026 and signed on behalf of the Board by:



Carl James
Chief Executive

The notes on s 6 to 78 form part of these accounts.

Date: 25 June 2026

Statement of Changes in Taxpayers' Equity

2025-26	Public Dividend Capital	Retained earnings	Revaluation reserve	Total
	£000	£000	£000	£000
Changes in taxpayers' equity for 2025-26				
Balance as at 31 March 2025	162,684	19,817	36,469	218,970
NHS Wales Transfer	0	0		0
RoU Asset Transitioning Adjustment	0	0	0	0
Impact of IFRS 16 on PPP/PFI Liability	0	0	0	0
Balance at 1 April 2025	162,684	19,817	36,469	218,970
Retained surplus/(deficit) for the year		292		292
Net gain/(loss) on revaluation of property, plant and equipment		0	3,457	3,457
Net gain/(loss) on revaluation of right of use assets		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of intangible assets		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of financial assets		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of PPE and Intangible assets held for sale		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of financial assets held for sale		0	0	0
Impairments and reversals		0	0	0
Gain/(Loss) on other reserve movements		53	0	53
Transfers between reserves		137	(137)	0
Reclassification adjustment on disposal of available for sale financial assets		0	0	0
Reserves eliminated on dissolution	0	0	0	0
Total in year movement	0	482	3,320	3,802
New Public Dividend Capital received	1,691			1,691
Public Dividend Capital repaid in year	0			0
Public Dividend Capital extinguished/written off	0			0
PDC Cash Due but not issued	214			214
Other movements in PDC in year	(105)			(105)
Balance at 31 March 2026	164,484	20,299	39,789	224,572

The notes on s 6 to 78 form part of these accounts.

Statement of Changes in Taxpayers' Equity

2024-25	Public Dividend Capital	Retained earnings	Revaluation reserve	Total
	£000	£000	£000	£000
Changes in taxpayers' equity for 2024-25				
Balance at 31 March 2024	155,832	19,459	35,956	211,247
NHS Wales Transfer	0	0	0	0
RoU Asset Transitioning Adjustment	0	0	0	0
Impact of IFRS 16 on PPP/PFI Liability	0	0	0	0
Balance at 1 April 2024	155,832	19,459	35,956	211,247
Retained surplus/(deficit) for the year		57		57
Net gain/(loss) on revaluation of property, plant and equipment		0	614	614
Net gain/(loss) on revaluation of right of use assets		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of intangible assets		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of financial assets		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of PPE and Intangible assets held for sale		0	0	0
Net gain/(loss) on revaluation of financial assets held for sale		0	0	0
Impairments and reversals		0	0	0
Net Gain/(loss) on Other Reserve		200	0	200
Transfers between reserves		101	(101)	0
Reclassification adjustment on disposal of available for sale financial assets		0	0	0
Reserves eliminated on dissolution	0	0	0	0
Total in year movement	0	358	513	871
New Public Dividend Capital received	7,905			7,905
Public Dividend Capital repaid in year	(1,053)			(1,053)
Public Dividend Capital extinguished/written off	0			0
PDC Cash Due but not issued	0			0
Other movements in PDC in year	0			0
Balance at 31 March 2025	162,684	19,817	36,469	218,970

The notes on s 6 to 78 form part of these accounts.

Statement of Cash Flows for the Year Ended 31 March 2026

		2025-26	2024-25
	Note	£000	£000
Operating surplus/(deficit)	SOCI	(2,486)	(5,712)
Movements in working capital	30	(229,508)	(69,848)
Other cash flow adjustments	31	451,540	228,231
Provisions utilised		(168,457)	(125,083)
Interest paid		(314)	(233)
Net cash inflow (outflow) from operating activities		50,775	27,355
Cash flows from investing activities			
Interest received		1,662	1,879
(Payments) for property, plant and equipment		(31,985)	(29,651)
Proceeds from disposal of property, plant and equipment		15	(11)
(Payments) for intangible assets		(1,201)	(2,860)
Proceeds from disposal of intangible assets		0	0
Payments for investments with Welsh Government		0	0
Proceeds from disposals with Welsh Government		0	0
(Payments) for financial assets.		0	0
